

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 20 Mawrth 2015

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2015** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 20)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2015.

### 5 PROSES GYLLIDEB 2016/17 (Tudalennau 21 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaaedig) sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

**6 DIWEDDARIAD STRATEGAETH RHEOLI GWYBODAETH** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol (copi'n amgaeedig), sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar weithredu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth y Cyngor.

**7 PAPUR GWYN – DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL, GRYM I BOBL LEOL** (Tudalennau 31 - 174)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (copi'n amgaeedig), ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru - 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'.

**8 CYNLLUN ARCHWILIO 2015 CYNGOR SIR DDINBYCH** (Tudalennau 175 - 196)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig), ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych'.

**9 CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2014/15** (Tudalennau 197 - 240)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwella Llywodraethu'r Cyngor sy'n deillio o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor 2013/14 – '*Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus*', a chyflwyno ymgynghoriad cyntaf ar yr adroddiad hunanasesu ar drefniadau llywodraethu a gwella Conwy ar gyfer 2014/15.

**10 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** (Tudalennau 241 - 252)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n cyflwyno manylion ynghylch Strategaeth Archwilio Mewnol 2015-16.

**11 TALIAD ARIANNOL I'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL - DIWEDDARIAD** (Tudalennau 253 - 260)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

**12 HAMDDEN CLWYD CYF – ADOLYGU'R GWERSI A DDYSGWYD**

(Tudalennau 261 - 290)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (copi'n amgaaedig), sy'n adolygu'r amgylchiadau yn ymwneud â Gwasanaethau Hamdden Clwyd.

**13 ADBORTH AR GYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd M.L. Holland ynglŷn â Chyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol.

**14 RHAGLEN GWAITH PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

(Tudalennau 291 - 294)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi'n amgaaedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Stuart Davies  
Peter Duffy  
Martyn Holland

Gwyneth Kensler  
Jason McLellan  
Barry Mellor

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cod Ymddygiad Aelodau

**DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU**

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

Llofnod

Dyddiad

**Code of Conduct for Members**

**DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS**

I, *(name)*

a \*member/co-opted member of

*(\*please delete as appropriate)*

**Denbighshire County Council**

**CONFIRM** that I have declared a **\*personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(\*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

Signed

Date

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 28 Ionawr 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy, Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (SA), Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg (CW), Prif Reolwr – Cymorth Busnes (TW), Cynrychiolwr Swyddfa Archwilio Cymru (GB), Rheolwr Ardal AGGCC (HM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Martyn Holland, Gwyneth Kensler, J. Thompson-Hill ac Chyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol a Phennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Jason McLellan, Stuart Davies a Mr Paul Whitham gysylltiad personol yn Eitem 10 ar yr Agenda, Rheolaeth Ariannol o Ysgolion.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4 COFNODION

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2014.

Materion yn codi:-

8. Cynllun Gwella Llywodraethu - Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, eglurwyd bod ystyriaeth wedi'i roi i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn Ebrill 2015 yng nghyfarfod o'r Cyngor i gyd-fynd â diwedd y flwyddyn ddinesig a chyflwyno Adroddiadau Blynyddol gan y Pwyllgorau

Archwilio priodol. Nododd yr aelodau mai dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

8. Rhaglen Waith Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, 26 Mawrth, 2015 - Mewn ymateb i amheuan a godwyd gan y Cyngorydd S.A. Davies, a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth eu bod wedi cytuno i baratoi nodyn gwybodaeth y gellid ei gyflwyno i gyfarfod y gweithdy cyllideb i'w ystyried. Eglurodd y Cadeirydd y byddai cyflwyno'r wybodaeth i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion yn fecanwaith ar gyfer cychwyn y broses.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cyngorydd Davies ynghylch y lefel gynyddol o gyfraniadau cyllid sydd ei angen gan y Cyngor i'r cynllun pensiwn, fe gadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth ei fod yn gynllun statudol wedi'i nodi yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 gyda gwraidd y pŵer yn y Ddeddf Blwydd-daliadau, a rhoddodd grynodedd byr o gynnwys y Ddeddf. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth fod y Prif Weithredwr wedi gofyn iddo roi cyflwyniad i'r gweithdy cyllideb, ac fe awgrymodd y gellid cynnwys adroddiad ariannol ar y gronfa pensiwn o ran ei sefyllfa ariannol bresennol a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gronfa. C Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth yn ôl y gyfraith na fyddai'r Cyngor Sir na Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y mater.

Amlygodd y Cyngorydd Davies yr angen i gyflwyno sylwadau i'r Llywodraeth Ganolog ac i CLILC, ac awgrymodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth y gallai'r cam gweithredu hwn gael ei godi mewn gweithdy cyllideb. Mynegodd y Cyngorydd Davies y farn y dylid cyflwyno sylwadau, ynghylch â'r pryderon dynwyd sylw atynt ar lefel genedlaethol, ac i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd eisoes wedi cydnabod bod yna faterion sy'n achosi pryder.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd P.C. Duffy, cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth i gael eglurhad ynghylch aelodaeth Aelodau Etholedig i'r cynllun pensiwn.

9. Diweddariad ar y Taliad Ariannol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal – fe esboniodd Mr P. Whitham nad oedd wedi'i fodloni â'r esboniad a roddwyd yn y cyfarfod mewn perthynas â'r diffyg cynnydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai adroddiad diweddar yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2015 pan fyddai'r mater yn cael ei graffu yn drylwyr.

***PENDERFYNWYD*** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## **5 ADRODDIAD AGGCC**

Copi o adroddiad wedi'i ddsbarthu'n flaenorol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n nodi'r materion allweddol sy'n codi o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad



Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn 2013-14. Mae copi o'r gwerthusiad llawn wedi ei gynnwys fel Atodiad I.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Hugh Morgan, Rheolwr Ardal ar gyfer AGGCC (RHAAGGCC), a'r Prif Reolwr - Cymorth Busnes i'r cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwerthusiad perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys meysydd cynnydd, meysydd i'w gwella a risg. Bob blwyddyn mae AGGCC wedi cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol pob Awdurdod Lleol. Mae'r gwerthusiad yn cwmpasu ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys: adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad a chynlluniau ar gyfer gwella yn ei ardal awdurdod lleol; gwaith rheoleiddio'r AGGCC; a barn archwilwyr ac arolygwyr eraill. Mae'r gwerthusiad yn cael ei gymedroli i sicrhau dull cyson, tryloyw a chymesur.

Mae gwerthusiad o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi amlygu bod eglurder a ffocws yn yr adroddiad sy'n amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych ac yn arbennig y canlynol:

- mae tystiolaeth amlwg o gymryd ymagwedd strategol i ateb yr heriau demograffig
- mae'r Cyngor wedi gweithredu modelau arloesol o ymarfer a datblygu partneriaethau integredig
- mae tystiolaeth o archwilio amlwg yn enwedig drwy heriau gwasanaeth a thrwy wrando ar farn pobl gan danseilio'r rhaglen moderneiddio
- ymrwymiad cryf a blaen gynllunio o ran yr iaith Gymraeg
- mae perfformiad y gwasanaeth yn gryf

Mae nifer o feysydd penodol i'w gwella wedi cael eu nodi yn yr adroddiad. Bydd cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Uwch Dîm Rheoli a'r AGGCC. Y meysydd ar gyfer camau dilynol gan yr AGGCC y flwyddyn nesaf yw:

- Effaith newidiadau i isadeiledd POVA (Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn)
- Sefydlu dull ymchwil trylwyr i gael gafael ar ac i ymateb i farn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Mae Atodiad II yn rhoi trosolwg o'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella yn y gwerthusiad perfformiad, ac yn rhoi gwybodaeth ar sut oedd y Cyngor yn ymateb i'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella.

Mae'r meysydd sydd angen gwelliant yn unol â hunanasesiad y Cyfarwyddwr ac wedi cael eu hymgorffori yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014-15. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro yn ffurfiol bob chwarter gan y gwasanaethau, ac adroddir ar lawer o elfennau ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet gan eu bod yn ffurfio rhan o'r Cynllun

Corfforaethol. Hefyd, mae gan bob gwasanaeth Her Perfformiad Gwasanaeth blynyddol sy'n archwilio cynnydd yn erbyn Cynlluniau Busnes Gwasanaethau.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn y meysydd i'w gwella a amlygwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad 2011-12. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw cynnydd wedi bod mor sylweddol ag y rhagwelwyd mewn perthynas â pherfformiad sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol sydd wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad gyda 100% o lwyddiant mewn meysydd allweddol.

Cyflwynodd yr RHAAGGCC a chrynhoi Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC ac amlygwyd y pwyntiau amlycaf canlynol: -

- Cydnabuwyd bod y Cyngor wedi cymryd rhan mewn cynllun moderneiddio strategol pum mlynedd, a bod y newidiadau sylweddol sy'n deillio wedi'u nodi a bod y darpariaeth gwasanaeth yn cael ei ail-lunio.
- Roedd lefel dda o graffu drwy'r broses Herio Gwasanaeth.
- Nodwyd meysydd o gryfder, a thri maes allweddol oedd angen eu gwella wedi'u nodi: -
  - (i) Y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gwranddo ac yn ymateb, cyfeirio at y data a gasglwyd.
  - (ii) Pryderon sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, gan gyfeirio'n benodol at feysydd iechyd ac addysg.
  - (iii) Diogelu plant ac oedolion yn arbennig. Cyfeirio at Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA).
- Cylch gwaith AGGCC mewn perthynas â POVA, a datblygiadau'r polisi perthnasol yn unol â hynny.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cadeirydd, amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ddatblygiadau, ac eglurodd fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru wedi gofyn am adolygiad sylfaenol o'r prosesau diogelu oedolion yng Nghymru, a byddai'r grŵp yn gyfrifol am archwilio'r broses adrodd yn y dyfodol agos. Cyfeiriwyd at gyfraith achos a oedd wedi ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth a chynyddu maint y gwaith i Gynghorau gyda mewnlifiad sylweddol o achosion. Pwysleisiodd ei fod yn agwedd sylfaenol mewn gofal cymdeithasol i amddiffyn y rhai a oedd fwyaf agored i niwed ac i sicrhau nad oedd unrhyw golli rhyddid oni bai bod hynny o fewn eu diddordeb gorau. Mae pob cartref yn Sir Ddinbych wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r dyfarniad ac mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i ddarparu i staff fel aseswyr lles gorau.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio, a bod cyfarfodydd misol i drafod hyfforddiant lefel 6. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwiliad Mewnol y byddai Archwiliad Mewnol yn ymgymryd â'r gwaith o lunio adroddiad eang ei gwmpas ar drefn Diogelu Corfforaethol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies ac eglurodd eu bod wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, drwy'r grant cronfa gofal canolraddol, i gynorthwyo gyda mynd i'r afael â

materion sy'n ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol.

Amlygodd y Cadeirydd y meysydd sydd angen eu gwella sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a'r angen am gynnydd a phwysigrwydd monitro'r gwaith a wnaed. Cyfeiriodd at y gostyngiad sylweddol yn nifer y cymwysterau a gyflawnwyd gan blant sy'n derbyn gofal, ac o'r pwysigrwydd i sicrhau bod yr ymchwil a wnaed yn cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol yr anawsterau i gael gafael ar farn pobl ifanc. Pwysleisiodd bwysigrwydd ymgysylltu â hwy mewn modd derbyngar ac esboniodd bod mecanweithiau wedi eu cyflwyno i fodloni'r gofynion hyn. Eglurodd y CGC bod perfformiad yn bwysig, ond byddai hyn yn mynd y tu hwnt i ofynion plant unigol a'u hamgylchiadau unigol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd yn gofyn am eglurhad ar y datganiad bod "y llwybr a'r canlyniadau i bobl sydd ddim yn bodloni'r trothwy ar gyfer gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn eglur", fe eglurodd Mr Morgan (AGGCC) y bu ymgais i ganfod neu gasglu tystiolaeth o sut y mae sylw yn cael ei roi i anghenion penodol yr unigolion, ac arsylwi a yw ymchwil digonol wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn ac os bydd yr unigolion wedi cael eu cyfeirio at ddarparwyr gwasanaeth eraill am gefnogaeth a chymorth. Eglurodd y CGC y bu cyfluniad newydd o wasanaeth ac amlinellodd y gweithdrefnau monitro a gyflwynwyd.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth i gwestiynau gan y Cadeirydd ar lefel gwaith y Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn perthynas â Gorchmynion Gofal, gan adlewyrchu ar oblygiadau'r gwaith a wnaed gan y Tîm Cymorth i Deuluoedd. Eglurodd y CGC y gallai'r broses o gymryd plentyn i ofal gael ei ystyried fel methiant o ran cymdeithas a byddai'n bwysig i helpu i atal camau o'r fath. Amlygodd Mr P. Whitham y cyfeiriad a wnaed at hylifedd plant sy'n derbyn gofal ond mynegodd bryder ynghylch y diffyg darpariaeth niferoedd dan sylw, cadarnhaodd y Prif Reolwr, Cefnogi Busnes bod y ffigurau ar gael.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n bwysig monitro'r gwaith a nodwyd yn Atodiad 1 a oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn enwedig meysydd perfformiad yn ymwneud ag iechyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal. Eglurodd y CGC fod y camau a nodwyd yn cael eu monitro o fewn y Cynllun Busnes, y broses Herio Gwasanaeth yn ogystal ag ymddangos yn Adroddiad Blynyddol y CGC a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol a'r Cyngor.

Ar gais y Cadeirydd, fe gytunodd y CGC i ddosbarthu e-bost at yr holl Aelodau yn manylu ar y drafodaeth yn y cyfarfod, a'u hysbysu bod y Panel Rhiant Corfforaethol yn chwilio am enwebiadau ar gyfer Aelodau ychwanegol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD:-**

- (a) *derbyn y gwerthusiad AGGCC a'r adroddiad cynnydd cysylltiedig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a nodi ei gynnwys.*
  - (b) *nodi'r materion a'r pryderon a amlygwyd gan yr Aelodau, a*
  - (c) *CGC i anfon e-bost i'r holl Aelodau yn eu hysbysu bod y Panel Rhiant Corfforaethol yn chwilio am enwebiadau ar gyfer Aelodau ychwanegol.*
- (NS i Weithredu)**

## **6 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16 – 2016/17**

Roedd adroddiad ac atodiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16, wedi ei ddsbarthu eisoes.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau yr adroddiad ac eglurodd fod y broses gyllideb wedi symud i Gam 3 gan ganolbwyntio ar gwblhau cyllideb 2015/16. Mae Atodiad 1 yn rhoi darlun o'r broses gyllideb. Byddai'r broses yn dychwelyd i ystyried cyllideb 2016/17 gyda gweithdai cyllideb ar gyfer Aelodau wedi'u trefnu i ganolbwyntio ar gynigion arbedion ym mis Chwefror a mis Mawrth 2015, a Cham 4 fyddai hyn. Y bwlch yn y gyllideb a ragwelir ar gyfer 2016/17 oedd tua £8.8m, ac arbedion o £2.7m wedi eu cymeradwyo fel rhan o'r broses bresennol gan adael bwlch o tua £6.1m.

Mae tabl wedi'i ddiweddarau o'r digwyddiadau allweddol yn y broses hyd at y diwedd (Mawrth 2015) wedi'i gynnwys fel Atodiad 2. Bydd dyddiadau a manylion pellach yn cael eu hychwanegu yn dilyn sesiwn gyllideb wedi'i drefnu gyda Therapi Iaith a Lleferydd ym mis Chwefror. Mae adroddiad a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 13 Ionawr, 2015, a oedd yn nodi argymhellion i gael eu gwneud i'r Cyngor ar 3 Chwefror, wedi eu cynnwys fel Atodiad 3. Eglurodd y Prif Gyfrifydd y bu mân newidiadau i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet a oedd yn cynnwys dadansoddiad pellach o lefelau treth y cyngor ar draws Gogledd Cymru, a sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn y cyfarfod Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, 2015.

Roedd yr adroddiad yn nodi cynigion i gydbwyso'r gyllideb 2015/16, gan gynnwys codi Treth y Cyngor ar gyfartaledd o 2.75%, sef y lefel tybiedig yng nghynlluniau cyllideb y Cyngor, a'r defnydd o falansau cyffredinol. Yn dilyn y gweithdy gyllideb ym mis Rhagfyr, mae hefyd yn cynnwys argymhelliad ffurfiol i flaenoriaethu'r broses gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn y rowndiau cyllideb yn y dyfodol. Mae'r adroddiad i'r Cyngor ym mis Rhagfyr wedi tynnu sylw at y broses ymgynghori sylweddol ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â manylion o risgiau a chamau gweithredu posibl i ddirymu ac ymdrin â hwy.

Tynodd y Prif Gyfrifydd sylw'r Aelodau at Adran 10 o'r adroddiad, a oedd yn cynnwys risgiau penodol y cyfeiriwyd atynt gan Mr P. Whitham yn y cyfarfod blaenorol. Eglurodd y byddai'r UDA yn ystyried y materion penodol, ac yn gweithredu'r cynilion yn gyffredinol mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 5 Chwefror 2015. Mae'r Prif Gyfrifydd wedi cadarnhau y byddai adroddiad o ganlyniad y cyfarfod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Yn ystod y

drafodaeth fe fynegodd Mr Whitham ei werthfawrogiad i gynnwys risgiau yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Prif Gyfrifydd y byddai proses y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn dechrau ym mis Chwefror, 2015. Fodd bynnag, eglurodd fod rhai o'r cynigion eisoes wedi'u cytuno a rhoddodd grynodedb byr o'r broses a fabwysiadwyd.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

- (a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y diweddariad diwethaf, a
  - (b) yn cytuno y dylai adroddiad o ganlyniad y cyfarfod UDA ar 5 Chwefror 2015 gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- (RW i weithredu)**

## **7 Y DIWEDDARAF AR GAFFAEL GWASANAETHAU ADEILADU**

Roedd adroddiad gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro eisoes wedi'i ddsbarthu.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion o gynnydd yr adran Archwilio Mewnol o waith dilynol diweddaraf o ran Caffael y Gwasanaethau Adeiladu yn dilyn ei adroddiad cychwynnol ym mis Hydref 2013 ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar gyfer Mawrth 2014. Dyma'r ail adroddiad dilynol, gyda'r un blaenorol ym mis Medi 2014.

Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad dilynol pellach ar gyfer Caffael Gwasanaethau Adeiladu i'w gyflwyno i roi sicrwydd bod gwelliannau wedi'u gwneud ers adroddiad mis Rhagfyr 2014.

Wedi'u cynnwys yn yr adroddiad y mae manylion canfyddiadau adroddiad Archwilio Mewnol ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu a wnaed ym mis Hydref 2013, ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn cwmpasu gwaith cynnal a chadw adeiladau ysgolion. Mae'r cynllun gweithredu dilynol (Atodiad 1) yn cynnwys 21 cam gweithredu y gwasanaeth Archwilio Mewnol a chynlluniau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ers yr adroddiadau dilynol ym mis Medi a mis Rhagfyr 2014, dim ond wyth cam gweithredu sydd wedi eu gweithredu'n llawn. Mae dau arall bellach wedi'u cwblhau a'r camau sy'n weddill ar y gweill i'w cwblhau. Yn arbennig, bu cynnydd o ran datblygu strategaeth gaffael ddrafft a bu cynnydd sylweddol yn y swyddogaeth rheoli contractau yn y system e-ffynonellu yn dilyn ymdrech bellach i gasglu data. Efallai bod trosglwyddo i'r Gwasanaeth Caffael Cydweithredol gan Gyllid ac Asedau i Gyfathrebu, Marchnata a Hamdden yn debygol o effeithio ryw fymryn ar rai amserlenni.

Darparodd y Rheolwr Caffael Strategol dros dro grynodedb manwl o'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) ac eglurodd fod y rhan fwyaf o'r oedi a gafwyd wedi ymwneud â staffio a materion Cronfa Cydweithredol Rhanbarthol. Mae Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y cynnydd a wnaed ac yn cyfeirio at y materion a oedd sy'n dal i fodoli ac awgrymodd bod adroddiad cynnydd

pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai, 2015 pan fydd y pwyntiau gweithredu hyn wedi cael sylw.

Amlygodd Mr P. Whitham bwysigrwydd sicrhau bod pob aelod staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chaffael yn ymwybodol o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau ac wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol cyn gynted â phosibl, a bod tystiolaeth ar gael bod yr hyfforddiant wedi'i ddarparu. Eglurodd yr ASPM bod pecynnau cynefino corfforaethol ar gyfer staff newydd bellach yn cynnwys manylion yn ymwneud â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, a bod adolygiad o ddeunyddiau hyfforddi yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr hyfforddiant a ddarperir gan Gyngor Sir y Fflint, ac mae rhestr o gyrsiau hyfforddiant yn cael eu trefnu ar gyfer y 180 o aelodau staff gyda swyddi yn cynnwys gwaith gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau. Mae'n rhaid i bob aelod staff ddarparu cadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr Whitham, esboniodd yr Rheolwr Caffael Strategol dros dro y byddai darparu hyfforddiant ar Rheolau Gweithdrefn Contractau ar gyfer aelodau staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn cael eu trefnu gan y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg, a gellid darparu manylion yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes rhif 8 ar yr agenda. Hefyd, cadarnhaodd yr Rheolwr Caffael Strategol dros dro y byddai'r Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cael eu defnyddio i gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a'r rôl y cyfeiriwyd yn arbennig ati yn y rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

Mynegodd y Cynghorydd D.C. Duffy ei bryder ynghylch yr oedi a brofwyd wrth fodloni amserlenni fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu.

***PENDERFYNWYD*** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

(a) yn derbyn yr adroddiad a mynegi ei bryder ynghylch yr oedi a brofwyd wrth fodloni amserlenni fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu, a

(b) gofyn bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mai 2015 o'r Pwyllgor.

**(SA i Weithredu)**

## **8 ADRODDIADAU RHEOLI TRYSORLYS**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) sy'n ymgorffori Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16, Dangosyddion Darbodus 2015/16 ac Adroddiad Diweddar 2014/15.

Mae'r DSRhT (Atodiad 1) yn dangos sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn sefydlu'r polisiâu y mae'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu o fewn iddynt. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar Ddangosyddion Darbodus. Mae Adroddiad Diweddariad Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn darparu manylion am weithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 2014/15. Amlinellodd y Prif Gyfrifydd y newidiadau mewn polisi a oedd yn cynnwys y goblygiadau yn ymwneud â'r Ddeddf Diwygio

Bancio a'r diwedd yn genedlaethol i system gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru.

Dywedwyd wrth aelodau mai drafft yw'r ffigurau a gynhwysir yn y DSRhT a byddant yn cael eu diweddarau cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf ym mis Chwefror 2015.

Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu edrych ar ôl arian y Cyngor sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor gan fod oddeutu £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn. Ar unrhyw adeg, mae gan y Cyngor o leiaf £20miliwn mewn arian parod, felly mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r gyfradd ddychwelyd gorau posibl heb roi'r arian mewn perygl a dyna pam ein bod yn buddsoddi arian gyda nifer o sefydliadau ariannol. Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw: -

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael yr arian yn ôl pan fyddwn ei angen (hylifedd);
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael cyfradd dychwelyd da (arenillion).

Mae'r DSRhT ar gyfer 2015/16 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgaredd Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ac yn dangos bod y broses fenthyca'r Cyngor yn fforddiadwy. Mae crynodeb o'r manylion yn Atodiad 1 wedi'i ddarparu gan y Prif Gyfrifydd.

Mae dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf arfaethedig diweddaraf a'r dyraniadau mewn bloc, a bydd y rhain yn cael eu diweddarau cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 24 Chwefror 2015.

Mae'r dangosyddion Cyfrif Refeniw Tai wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y Cynllun Busnes Stoc Tai diweddaraf. Mae'r Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellwyd i'w cymeradwyo wedi'u nodi yn Atodiad 1 - Ychwanegiad A.

Mae LIC wedi dod â'r trafodaethau i ben â Thrysorlys EM ynglŷn â diwygio system gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru. Byddai angen benthyca rhwng £39 miliwn a £55 miliwn ar 2 Ebrill 2015 i brynu allan o'r cynllun cymhorthdal i allu hunan-ariannu. Mae effaith hyn wedi cael ei gynnwys yn dangosyddion darbodus y Cyfrif Refeniw Tai ac mae manylion pellach am brynu allan wedi ei gynnwys yn Adran 8 Atodiad 1. Mae Atodiad 3 yn cynnwys dadansoddiad risg a sensitifrwydd yn ymwneud â phrynu allan yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r adroddiad diweddarau ar Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn tynnu sylw at y newidiadau a weithredwyd i'r strategaeth fuddsoddi (Atodiad 1 Adran 3) o ganlyniad i risg mechnïaeth-i-mewn a fyddai'n golygu na fyddai banciau yn gallu dibynnu ar gefnogaeth y llywodraeth os ydynt yn mynd i drafferth a byddai'n ofynnol i fechnïo eu hunain drwy gymryd cyfran o adneuon buddsoddwyr i adeiladu eu cyfalaf. Mae'r newidiadau dan sylw yn symud i ffwrdd o adneuon banc confensiynol i fuddsoddiadau diogel megis cytundebau ailbrynu wrth gefn (REPOs) a bondiau wedi'u gwarchod.

Mae manylion y broses ymgynghori wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, a chadarnhawyd bod Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a

Chyfrifyddiaeth (CIPFA) diwygiedig ar Reoli'r Trysorlys wedi'i fabwysiadu ar 28 Chwefror, 2012. Esboniwyd ei bod yn un o ofynion Cod y Cyngor i gymeradwyo'r DSRhT bob blwyddyn ariannol.

Yn y fan hon o'r cyfarfod fe benderfynodd y Pwyllgor i symud i Ran II i ystyried Atodiad 3 o'r adroddiad - Dadansoddiad o Gytundeb Risg a Sensitifrwydd Gwirfoddol Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS).

## **RHAN II**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Darparodd y Prif Gyfrifydd grynodedb manwl o Atodiad 3 a oedd yn amlinellu ac yn mesur rhai o'r peryglon amlwg ac effeithiau posibl sy'n deillio o'r cytundeb cenedlaethol arfaethedig i roi terfyn ar y system Cymhorthdal Tai yng Nghymru. Mae'r crynodeb hefyd yn tynnu sylw at rai o'r risgiau ariannol allweddol sy'n gysylltiedig â'r cytundeb arfaethedig a'r effeithiau posibl ar gynaliadwyedd y Cynllun Busnes Stoc Tai. Amlinellodd y Prif Gyfrifydd yr argymhellion fel a gyflwynwyd i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, gan dynnu sylw at natur gymhleth y cytundeb arfaethedig, gyda chyfeiriad yn arbennig at y goblygiadau sy'n codi o hyblygrwydd y cyfraddau llog.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth fod y Cyngor wedi cymeradwyo'r cytundeb mewn egwyddor gan roi'r awdurdod dirprwyedig i'r Aelod Arweiniol a Phennaeth Cyllid ac Asedau priodol i drafod y manylion terfynol. Awgrymodd y Cadeirydd bod y sefyllfa yn cael ei nodi a'i gynnwys yn Rhaglen Waith i'r Dyfodol Pwyllgorau yn dilyn datblygiadau pellach.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd S.A. Davies yn ymwneud â'r hawl i brynu, fe gadarnhaodd yr Prif Gyfrifydd bod nifer y trafodion dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fach iawn.

Ar ôl ystyried Atodiad 3 aeth y cyfarfod yn ei flaen i Ran I.

## **RHAN 1**

Eglurodd y Cadeirydd gyda Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys bod angen i Swyddog Adran 151 i sicrhau fod yr holl Aelodau sydd â chyfrifoldebau Rheoli'r Trysorlys, gan gynnwys craffu ar swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, yn cael hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Cytunodd y Prif Gyfrifydd y gellid rhoi hyfforddiant iddynt gan anfon manylion y ddarpariaeth hyfforddiant blaenorol ymlaen at y Cadeirydd.

***PENDERFYNWYD*** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-



- (a) yn derbyn y DSRhT ar gyfer 2015/16 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2015/16, 2016/17 a 2017/18 (Atodiad 1).
- (b) nodi'r adroddiad diweddarau Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 2), a
- (c) cytuno bod y Prif Gyfrifydd yn rhoi manylion i'r Cadeirydd ar y ddarpariaeth hyfforddiant blaenorol ar faterion Rheoli'r Trysorlys.
- (RW i Weithredu)**

## 9 ADOLYGIAD HAMDDEN CLWYD

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth gefndir ynghylch y mater dan sylw a mynegodd bryderon ynghylch yr amserlenni ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Pwysleisiodd ei fod yn teimlo bod y penderfyniad i beidio â neilltuo'r gwaith i lunio'r adroddiad i'r Uwch Swyddog, sydd â'r profiad priodol, o bosib wedi gallu cyfrannu at yr oedi a brofwyd.

Hysbysodd y Pennaeth Archwiliad Mewnol yr Aelodau ei fod wedi dod yn gysylltiedig â chynhyrchu'r adroddiad ar gais y Tîm Gweithredol Corfforaethol a oedd wedi mynegi eu hanfodlonrwydd â'r modd y mae'r adroddiad gwreiddiol wedi'i gyflwyno. Esboniodd fod y gwaith o ddrafftio'r adroddiad wedi bod yn fwy o faich nag a ragwelwyd yn wreiddiol, fodd bynnag, yr oedd yn awr bron yn gyflawn a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, 2015.

Eglurodd y Pennaeth Archwiliad Mewnol fod yr adroddiad yn manylu ar y gwersi a ddysgwyd ac yn debyg i'r adolygiad damcaniaethol blaenorol a wnaeth, ac wedi uno'r gwaith a wnaed mewn perthynas â chwmnïau hyd braich yn Adroddiad Hamdden Clwyd.

Ar gais y Cadeirydd, cytunwyd bod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar ôl ei gwblhau, ynghyd â manylion am unrhyw eithriadau. Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd y Pennaeth Archwiliad Mewnol y byddai'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r holl faterion o bryder a godwyd a byddai'n cynnwys fframwaith ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

- (a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.
- (b) yn cytuno bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth, 2015.
- (IB a GW i Weithredu)**

## 10 RHEOLAETH ARIANNOL YSGOLION

Darparodd y Pennaeth Archwiliad Mewnol grynodedb o'r cefndir i faterion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol ysgolion ac eglurodd fod y pryderon a godwyd yn ymwneud â balansau credyd ysgol yn hytrach na balansau diffyg. Dywedodd wrth

y Pwyllgor o safbwynt archwiliad cawsant eu rheoli'n dda er bod pwysau ar falansau penodol. Roedd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg wedi cwrdd ag Aelodau ac roedd hyn wedi rhoi sicrwydd iddynt mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol.

Dosbarthwyd copi o'r rhagolwg tair blynedd yn ôl ysgol ar gyfer 2014-15 i 2015-16 yn y cyfarfod. Mynegodd y Cynghorydd P.C. Duffy bryder nad oedd y ddogfen wedi cael ei ddsbarthu i Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

Crynhodd y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg y papur rhagolwg tair blynedd a oedd yn rhoi manylion ar Gyfanswm y ffigurau Gwarged(diffyg) ar gyfer Cyllideb 2014/15, Gwarged (diffyg) 2014/15, % Gwirioneddol i Amrywiant o fewn y gyllideb, adfachu dros y trothwy o 5% a thros trothwy LIC.

Amlygwyd y materion canlynol gan y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg: -

- Argymhellodd LIC fod lefel y balansau yn £3.3 miliwn.
- Cyfanswm gwarged ar gyfer pob ysgol a gofnodwyd ar hyn o bryd yn £2.9 miliwn, a oedd yn is na Pholisi Sir Ddinbych sy'n argymell 5%.
- Mae gan rai ysgolion falansau sy'n fwy na 5%.
- Newid Rheoliadau Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2010, ar yr amod bod gan Awdurdodau Lleol y pŵer i adfachu balansau sy'n fwy na £50k ar gyfer ysgolion cynradd a £100k ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Mae Sir Ddinbych ar hyn o bryd £400k yn is nag argymhelliad Llywodraeth Cymru ar gyfer balansau ar gyfer yr holl ysgolion.
- Oherwydd sbectrwm eang o ysgolion mae Sir Ddinbych wedi penderfynu peidio â gorfodi'r rheol yn eu hysgolion. Mae'r effaith dros gyfnod o dair blynedd yn fwy perthnasol na thros flwyddyn.
- Mae cyfeiriad wedi'i wneud at y perthnasedd ac effaith cyllideb sy'n sefyll yn stond ar gyfer ysgolion tan 2014/15 a 2015/16.
- Holodd Cynrychiolydd i Swyddfa Archwilio Cymru y rheswm dros ddwy ysgol uwchradd i fod â balansau mwy nag ysgolion eraill. Eglurodd y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg bod yr ysgolion yn ysgolion arbennig a bod y balansau a gedwir ar gyfer ymgymryd â gwaith a raglennwyd yn yr ysgolion.
- Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd, fe eglurodd y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg bod Ysgol Pendref yn ysgol mewn trafferthion ariannol, a bod cynllun adfer yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg at y cynllun tair blynedd a dywedodd wrth y Pwyllgor bod cylchredu cyllidebau ysgolion uwchradd ar fin digwydd. Fodd bynnag, byddai'r rhai sy'n ymwneud ag ysgolion cynradd yn cael eu gohirio dros dr oherwydd newidiadau LIC yn ymwneud â'r cyfnod cyllido sylfaen. Byddai rheolwyr cyllid yn gweithio gyda llywodraethwyr yr ysgol a'r pennaeth i gynhyrchu cynllun tair blynedd diwygiedig, a byddai'r manylion wedi'u cynnwys yn y ffigurau yn cael eu dosbarthu.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys yr ystyriaeth bellach i adroddiad ym mlaenraglen waith y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar gyfer trafodaeth. Teimlai'r Prif Gyfrifydd y gallai fod yn fuddiol os byddai'r adroddiad yn cyd-daro â'r adroddiad ar y sefyllfa derfynol ar gyfer 2014/15.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cyfeiriodd y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg i'r rheolau prynu ar gyfer ysgolion a rhoi manylion y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer staff ysgol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

- (a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac yn
  - (b) gofynnir bod ystyriaeth i adroddiad pellach yn cael ei gynnwys ym mlaenraglen waith y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion.
- (JW, CW a RW i Weithredu)

## 11 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Nid oedd y Cynghorydd Holland wedi gallu mynychu'r cyfarfod ac roedd wedi cyflwyno ymddiheuriad.

## 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar gynnwys y canlynol:-

Mawrth 26, 2014 - Adroddiad ar Hamdden Clwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

20 Mai 2015 - Adroddiad ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu gan y Swyddog Caffael Strategol dros dro.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai adroddiad pellach ar y Rheolaeth Ariannol i Ysgolion, Balansau Ysgolion, yn cael ei gyflwyno i gyd-fynd â'r Adroddiadau Alldro Terfynol.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.05pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>25 Mawrth 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Richard Weigh, Prif Gyfrifydd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Proses y Gyllideb 2015/16 – 2016/17</b>

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Ers y diweddariad diwethaf, mae cyllideb 2015/16 wedi'i gosod. Bydd y broses yn awr yn canolbwyntio ar weithredu arbedion 2015/16 a darparu cyllideb 2016/17. Mae cyfres gyntaf gweithdai'r gyllideb ar gyfer yr aelodau yn canolbwyntio ar gynigion arbedion ar gyfer 2016/17 wedi'i threfnu: Cynhaliwyd y cyntaf ar 23 Chwefror ac mae'r ail wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mawrth. Mae'r ddwy sesiwn hon yn canolbwyntio ar y cynigion a ohiriwyd o weithdai blaenorol y gyllideb.

Gobeithir y bydd modd cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer 2016/17, gan gynnwys yr eitemau a drafodwyd yn y ddau weithdy diwethaf, i'r Cyngor ym mis Mehefin i'w cymeradwyo.

Mae gweithdai eraill ynglŷn â'r gyllideb wedi'u trefnu ar gyfer 5 Mehefin, 26 Hydref a 14 Rhagfyr. Wrth ddatblygu proses 2016/17 ymhellach, efallai y bydd angen trefnu mwy o weithdai. Cynigir y bydd gweithdy mis Mehefin yn ystyried cynigion amlinellol gan UDG/ UDA| ac unrhyw gynigion gan aelodau etholedig, ac rydym wedi cysylltu â nhw yn ddiweddar i gynnig cyfle i gynnig opsiynau ar gyfer arbedion yn y dyfodol. Yna bydd y cynigion a nodir ym mis Mehefin yn cael eu mireinio yn ystod yr haf a'u cyflwyno i'r gweithdy ym mis Hydref gyda'r bwriad o'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Yna bydd y gweithdy ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar y cynigion terfynol i gydbwysu'r gyllideb.

Y bwlch a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw tua £8.8m. Mae arbedion o £2.7m wedi'u cymeradwyo fel rhan o'r broses gyfredol (yng nghamau 1 a 2 a gymeradwywyd ym mis Medi a Rhagfyr 2014) gan olygu mai'r blwch sy'n weddill yw tua £6.1m.

Mae siart yn dangos proses arfaethedig y gyllideb ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r siart yn amlinellu'r broses i ddarparu arbedion 2016/17 ac yn ategu at y broses a ddechreuodd ym mis Mawrth 2014. Mae'r 'cyfnodau' arbed y cyfeirir atynt yn golygu'r pwyntiau penderfynu a gyflwynir i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Mae Camau 1-3 wedi'u cymeradwyo eisoes ac felly mae'r siart yn dechrau yng Ngham 4.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae angen i'r cyngor i sicrhau arbedion o tua £17m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi amlygu'r broses ymgynghori sylweddol a gynhaliwyd i ddarparu cyllidebau 2015/16 a 2016/17 ac amlygir y rhain isod eto.

Yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd ar y broses i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi'i ystyried gan UDG, UDA, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Mae cynigion penodol wedi'u hadolygu gan y pwyllgorau archwilio ac roedd un yn seiliedig ar argymhellion gan grŵp tasg a gorffen aelodau / swyddogion.

Erbyn diwedd y broses pennu cyllideb 2015/16, roedd deg gweithdy cyllideb wedi'u cynnal gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau. Mae pum gweithdy pellach wedi'u trefnu i ystyried cynigion a diwallu bwlch cyllideb 2016/17.

Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb. Yn ogystal â hyn, roedd y cyngor wedi hysbysu'r holl gynghorau Tref

a Chymuned ynglŷn â'r toriadau arfaethedig a chynnal cyfarfod ar gyfer yr holl gynghorau i drafod y cynigion. Mae trafodaethau'n parhau rhwng rhai o wasanaethau'r cyngor sir a rhai cynghorau tref ynglŷn ag effaith y cynigion ac os byddai cynghorau tref yn ystyried ariannu rhai o'r gweithgareddau os gwneir y toriadau.

Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd a chafwyd trafodaethau penodol gyda'r Heddlu.

Mae'r holl aelodau o staff wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r broses o osod y gyllideb a phan fydd cynigion yn newid i fod yn benderfyniadau, ymgynghorir yn llawn â'r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor.

Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a'u cynrychiolwyr Undeb Llafur yn CBYLI ym mis Medi ac mae'n cael ei weithredu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Mae'r broses hon yn parhau i fod yn heriol iawn gyda rhai penderfyniadau anodd eu gwneud ar hyd y ffordd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio'r broses yn hanfodol.

Mae'r fframwaith rheoli risg a gynigir i reoli gweithrediad arbedion cyllideb 2015/16 wedi'i amlygu isod.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

Mae rheoli risg y broses yn ystyriaeth allweddol gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae risgiau penodol wedi'u codi yn yr adroddiadau blaenorol. Cyflwynwyd risgiau posibl gweithredu pob cynnig i gael arbedion yn y gweithdai wrth iddynt gael eu datblygu. Fodd bynnag, i ategu at hyn, roedd sesiwn Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn canolbwyntio ar reoli risg y broses ar 5 Chwefror a chynigwyd dylai bod pedair elfen i'r fframwaith rheoli risg yn ategu at weithredu arbedion cyllidebol 15/16 a nodir hyn yn y tabl isod:

Effaith	Dull Monitro / Adrodd
Ariannol	Mesurir gan Gyllid gyda'r Pennaeth Gwasanaeth - ei adrodd yn fisol i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Cyllid.
Perfformiad	Mesurir gan Wella a Moderneiddio Busnes gyda'r Pennaeth Gwasanaeth. Ei adrodd i'r aelodau trwy Archwilio a /neu'r Cabinet.
Risg	Mesurir gan Wella a Moderneiddio Busnes / Archwilio Mewnol / Pennaeth Gwasanaeth. Adroddiadau

	rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
Archwilio Archwilio	Cadeiryddion / Is-Gadeiryddion i adolygu'r adroddiadau uchod a'u galw i mewn fel y bo'n briodol.

Bydd Pennaeth Cyllid ac Asedau yn gadael y cyngor ar ddiwedd mis Mai. Er mwyn sicrhau nad oes risg i broses y gyllideb a bod cyfnod trosglwyddo llyfn, bydd y Prif Gyfrifydd yn arwain y broses dros y tri mis nesaf gyda chefnogaeth cefndirol gan Bennaeth Cyllid. Mae hyn yn ategu at broses 2015/16 lle y cynorthwyodd y Prif Gyfrifydd i'w datblygu a'u darparu.


**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad:**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.



**PROSES ARFAETHDIG Y GYLIDEB 2016/17**

CYLLIDEB Goruchwylio - Diweddariadau misol i'r Tîm Gweithredu Corfforaethol, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Briffio'r Cabinet



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>25 Mawrth 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cynghorydd Barbara Smith</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Diweddariad ar y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed ar weithredu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth y Cyngor.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad diweddarau blynyddol ar ôl i'r Strategaeth gael ei chyflwyno iddynt yn ystod mis Rhagfyr 2013.

## **3. Argymhellion**

- 3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r cynnydd a wnaed ar reoli gwybodaeth ac yn parhau i gefnogi ei weithrediad.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Mae rheoli gwybodaeth wedi cael ei ystyried yn hanesyddol fel gwendid llywodraethu sylweddol mewn Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn dilyn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol anffafriol.

- 4.2 Ffurfiwyd y Tîm Gwybodaeth Corfforaethol yn ystod 2013 er mwyn darparu ymagwedd fwy cydlynol at y maes hwn ac i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Datblygodd y Tîm Strategaeth Rheoli Gwybodaeth i ddarparu dull corfforaethol y cytunwyd arno ar gyfer y swyddogaeth hon. Ers hynny, gwnaed gwelliannau sylweddol. Yn ddiweddar, mae'r gwelliannau hyn wedi arwain at leihau'r risg sy'n gysylltiedig â rheoli gwybodaeth o oren (sylweddol) i felyn (cymedrol), ac adlewyrchwyd hyn ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

- 4.3 Dyma rai o'r camau allweddol sydd wedi'u cymryd dros y 12 mis diwethaf er mwyn lleihau'r sgôr risg:

- un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i sicrhau achrediad Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus (PSN) yn ystod 2014;
- sicrhau bod Diogelu Data yn cael ei ystyried ar gam cynnar mewn prosiectau trwy ymgorffori asesiadau effaith preifatrwydd yn y fframwaith rheoli prosiectau corfforaethol;

- codi ymwybyddiaeth a gwella lefelau cymhwysedd ym maes rheoli gwybodaeth yn y Cyngor drwy ddatblygu a lansio cyfres o fodiwlau e-ddysgu, gan gynnwys: Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Rheoli Dogfennau.
- gwell disgyblaethau rheoli dogfennau drwy gyflwyno cyfres o bolisiau rheoli dogfennau, gan gynnwys: enwi ffeiliau, rheoli fersiynau a gyriannau rhwydwaith;
- datblygu ffordd gyson o drin achosion o dorri rheolau diogelwch gwybodaeth drwy ddatblygu gweithdrefn gysylltiedig;
- cyflwyno cyfleusterau e-bost diogel drwy Egress;
- cryfhau gofynion rheoli gwybodaeth mewn penderfyniadau caffael TGCh;
- gwell cyfathrebu ar faterion rheoli gwybodaeth drwy ailddatblygu tudalennau mewnwyd cysylltiedig;
- datblygu a derbyn cymeradwyaeth i achos busnes ar gyfer ystafell bost electronig;
- sefydlu dull mwy gwydn a chadarn o ymdrin â cheisiadau hawl i wybodaeth trwy benodi Swyddog Hawl i Wybodaeth;
- dinistriwyd bron i 4000 o focsys yn y Storfeydd Corfforaethol yn ystod 2014. Mae hyn wedi lleihau cyfanswm y bocsys sy'n cael eu storio o tua 10%;
- Moderneiddio'r ffordd mae llawer o dimau o bob rhan o'r Cyngor yn gweithio gyda dogfennau drwy gyflwyno EDRMS (system rheoli cofnodion dogfennau electronig). mae 20% o'r gweithlu bellach yn defnyddio EDRMS; ac
- diwygio ac ail-lansio ein Atodlen Gynnal Gorfforaethol.

4.4 Er y gwnaed cynnydd da, mae llawer o waith yn dal i'w wneud. Dros y 12 mis nesaf mae nifer o weithgareddau wedi'u cynllunio gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu swyddogaethau Rheoli Cofnodion ac Archifau'r Cyngor:

<b>GWEITHGAREDD</b>	<b>DYDDIAD TARGED</b>
Ehangu mynediad i ddeunyddiau archif y sir a'i gatalog o ddaliadau drwy ddatblygu gwell presenoldeb ar-lein.	Mawrth 2016
Ystyried gwahanol fodolau gweithredu ar gyfer rheoli cofnodion	Rhagfyr 2015
Adnewyddu fframwaith polisi diogelu gwybodaeth yn unol â gofynion newydd ac arfer gorau. Bydd hyn yn cael ei gefnogi trwy ddatblygu modiwl e-ddysgu diogelu gwybodaeth.	Rhagfyr 2015

Ymgorffori EDRMS mewn timau sy'n gwneud defnydd trwm o bapur erbyn diwedd y prosiect - Mawrth 2016.	Mawrth 2016
Cyflwyno gwell system TG ar gyfer cofnodi ac adrodd ar geisiadau hawl i wybodaeth.	Awst 2015
Cwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth.	Mai 2015
Datblygu deunyddiau hyfforddi ar reoli e-bost i gefnogi'r broses o gyflwyno Microsoft Exchange/ Outlook.	Gorffennaf 2015
Cyhoeddi mwy o setiau data ar ein gwefan, gan alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Bil Diogelu Rhyddid 2012.	Mawrth 2016
Gweithredu proses well ar gyfer rheoli gwastraff cyfrinachol y Cyngor	Awst 2015

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd rheolaeth dda o wybodaeth yn cefnogi'r Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, drwy:

- sicrhau y gellir nodi ein gwybodaeth yn gyflym ac yn rhwydd;
- sicrhau y caiff ein gwybodaeth ei diogelu, yn ôl risg;
- sicrhau bod gan ein staff a'n haelodau'r lefelau gofynnol o gymhwysedd i reoli gwybodaeth yn briodol;
- sicrhau bod ein gwybodaeth yn diwallu gofynion statudol, a
- sicrhau y caiff ein cofnodion hanfodol eu nodi a'u diogelu'n unol â hynny.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cymeradwywyd cyllid ar gyfer y prosiect EDRMS tan ddiwedd y prosiect - Mawrth 2016.

6.2 Mae cost gorfforaethol sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaeth gwastraff cyfrinachol. Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno i'r UDA i'w ystyried ar 19 Mawrth.

6.3 Nid oes angen unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, gan fod angen newid diwylliant ac ymddygiad, a fydd yn cael eu cefnogi drwy bolisiau, prosesau, gweithdrefnau newydd a hyfforddiant.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Mae Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor wedi awgrymu y dylid cynnal Aseidiadau Effaith ar y camau gweithredu yn hytrach na'r Strategaeth.

## **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu cyffredinol y cyngor. Dylid mynd ati i weithredu'r Strategaeth o fewn yr adnoddau presennol. Bydd angen cyllid o adnoddau corfforaethol tuag at gost ychwanegol y cynnig gwastraff cyfrinachol y cyfeirir ato (amcangyfrifir i fod yn £15- £20k).

## **9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Dyma rai o'r risgiau o beidio â rheoli'n hasedau gwybodaeth yn briodol:

- Dirwyon - Deddf Diogelu Data yw £500,000
- Niwed i enw da
- Methu cyflawni arbedion effeithlonrwydd
- Methu cyflawni'r rhaglen foderneiddio

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>25 Mawrth 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru o'r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol ('y Papur').

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae'r Papur yn destun ymgynghoriad tan 28 Ebrill. Pwrpas yr adroddiad yw canfod barn y Pwyllgor ynghylch y cynigion a gynhwysir yn y Papur. Gofynnir am farn y Pwyllgor yn arbennig o ran elfennau'r Papur sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion llywodraethu corfforaethol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys y Papur ac yn rhoi sylwadau ar y materion hynny sy'n destun ymgynghori.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Cyhoeddwyd y Papur ar 3 Chwefror 2015 gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyhoeddwyd y Papur mewn tair fersiwn, y Fersiwn Lawn, y fersiwn pob dydd (crynodeb) a'r fersiwn Pobl Ifanc. Mae'r fersiwn Lawn ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Gellir gweld y ddwy fersiwn arall drwy'r ddolen ganlynol: <http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people>

4.2 Mae'r Papur Gwyn yn helaeth ac mae'n cynnwys nifer o gynigion polisi clir, gan ailadrodd ymrwymadau polisi blaenorol (megis uno, cysylltiadau â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati) ond mae hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau penagored sy'n ceisio barn am ddewisiadau polisi. Mae rhai o'r cynigion a dewisiadau polisi yn gymhleth, ond mae'r Papur Gwyn yn cynnig manylion cyfyngedig o ran sut y byddai cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

- 4.3 Mae naw o brif benodau wedi'u cynnwys yn y Papur ac mae arolwg ymgynghori wedi'i gynnwys, mae copi o'r arolwg ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yn arbennig y bennod o'r enw 'Llywodraethu Corfforaethol a Gwella' ynghyd â rhannau eraill yn y Papur sy'n effeithio ar faterion llywodraethu corfforaethol ac sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad hwn.
- 4.4 Mae'r Papur, ym mharagraff 2.12, yn awgrymu, er bod rheolau yn angenrheidiol i sicrhau llywodraethu da, gall gormod o reolau lesteirio'r broses gwneud penderfyniadau, ei gwneud yn anodd i bobl leol ddeall y broses gwneud penderfyniadau ac nid ydynt yn helpu i gyfleu gwerthoedd y Cyngor. Mae'r Papur yn awgrymu y dylai cyfansoddiadau yn gyntaf ac yn bennaf nodi gwerthoedd ac egwyddorion yr awdurdod y bydd yn gweithredu danynt yn hytrach na bod yn llyfr rheolau yn unig. Mae'r Papur yn ceisio barn am hyn ac a ddylai beichiau biwrocraidd a osodir gan ddeddfwriaeth llywodraeth leol gael eu diddymu neu eu diwygio.
- 4.5 Mae paragraff 2.10 o'r papur yn cynnig pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol a rhai cynghorau cymuned. Byddai pŵer o'r fath yn galluogi awdurdodau i wneud unrhyw beth nad yw'n cael ei atal yn benodol gan y gyfraith, yn hytrach na dim ond cael caniatâd i wneud y pethau hynny y maent yn cael awdurdod penodol i'w gwneud yn ôl y gyfraith, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r paragraff hwn hefyd yn awgrymu y gallai swyddogaeth cefn swyddfa gael eu darparu gan un darparwr cenedlaethol yn yr is-gwmni sydd ym mherchnogaeth llwyr Llywodraeth Leol yng Nghymru.
- 4.6 Mae Pennod 3 yn effeithio ar agweddau ar lywodraethu corfforaethol gan ei bod yn ceisio ailddiffinio rôl a chyfrifoldebau'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Aelodau Etholedig a'r Prif Weithredwr. Mae'r Papur yn cynnig y dylai ymgeiswyr ar gyfer swydd yr Arweinydd gyhoeddi maniffesto ysgrifenedig a'i gyflwyno i'r Cyngor cyn i'r Arweinydd gael ei ethol. Byddai'r Arweinydd wedyn yn cyflwyno datganiad blynyddol o gynnydd o ran cyflawni'r maniffesto hwnnw. Dylai fod yn ofynnol i'r Arweinydd osod amcanion ar gyfer pob aelod o'r Cabinet, i'w galw i gyfrif yn flynyddol am eu cynnydd a chyhoeddi'r wybodaeth hon. Byddai'n ofynnol i'r Arweinydd hefyd osod amcanion ar ran yr awdurdod ar gyfer y Prif Weithredwr, asesu perfformiad y Prif Weithredwr yn flynyddol a llunio adroddiad i'r Cyngor.
- 4.7 Bydd maniffesto a datganiad blynyddol yr Arweinydd ar wahân ac yn wahanol i'r cynllun corfforaethol. Bydd y cynllun corfforaethol yn cael ei gynhyrchu gan y Prif Weithredwr a bydd yn nodi sut y bydd yr awdurdod yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y maniffesto. Mae'r Papur yn glir bod rhaid osgoi unrhyw ddryswch rhwng y rolau hyn.
- 4.8 Mae paragraff 3.5 yn y Papur yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan Aelod Etholedig o awdurdod. Mae'n cynnwys hyfforddiant gorfodol, cymryd rhan mewn llywodraethu cymunedol, cynnal cymorthfeydd, mynychu pwyllgorau y maent yn cael eu penodi iddynt, bod ar gael i'r cyhoedd drwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol a galw'r weithrediaeth i gyfrif drwy graffu. Dylai fod yn ofynnol i



Aelodau Etholedig gynhyrchu adroddiadau blynyddol. Gellid gofyn i Aelodau Etholedig sy'n methu â chyflawni eu dyletswyddau yn foddhaol ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau. Gallai Aelodau y cyflwynwyd sancsiynau arnynt fod yn destun adalw.

- 4.9 Mae Pennod 4 yn nodi perthynas newydd rhwng awdurdodau lleol a chymunedau lleol. Mae'r Papur yn awgrymu trefniadau llywodraethu ardal newydd sy'n rhoi rôl flaenllaw i aelodau etholedig. Mae paragraff 4.5 yn nodi dewis a ffeffrir sef fframwaith cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi systemau llywodraethu cymunedol ar waith. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys 'Byrddau Ardal'. Bwriedir cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod awdurdodau lleol yn sefydlu Byrddau Ardal. Byddai'r rhain yn cael eu harwain gan aelodau, ond byddent yn cynnwys swyddogaethau gwarantedig ar gyfer cyrff cymunedol, y trydydd sector, cynghorau cymuned a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Byddai cyfrifoldebau a chyllidebau penodol yn cael eu dirprwyo i'r Byrddau hyn.
- 4.10 Mae'r Papur yn cynnig bod â llai o gynghorau cymuned mwy o faint, a dylai awdurdodau lleol adolygu cynghorau cymuned o fewn eu hardaloedd i gyflawni hyn erbyn 2022. Byddai cyrff cymunedol yn cael nifer o hawliau y gallant eu harfer mewn perthynas â gwasanaethau ac asedau. Byddai corff cymunedol yn cael ei ddiffinio fel sefydliad sector gwirfoddol, menter gymdeithasol gydweithredol, gydfuddiannol a rhai cynghorau cymuned.
- 4.11 Mae Pennod 6 yn ymdrin â llywodraethu corfforaethol a gwella. Mae'r Papur yn awgrymu diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gwelliant parhaus, gosod amcanion gwella a chyhoeddi cynlluniau ar gyfer cyflawni'r gwelliant hwn bob blwyddyn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynhyrchu asesiad blynyddol o p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ac a oes ganddo'r gallu i wella ymhellach. Mae Mesur 2009 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gynnig cymorth i awdurdodau sy'n methu ac ymyrryd pan fo angen. Mae'r Papur yn awgrymu y byddai ymagwedd fwy seiliedig ar risg i wella ac arloesi yn caniatáu i awdurdodau ymateb yn gyflymach ac yn effeithiol i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r Papur hefyd yn cynnig cynnwys dyletswyddau gwella penodol ar gyfer y Prif Weithredwr a chryfhau prosesau atebolrwydd mewnol awdurdodau lleol. Mae'r Papur yn ceisio safbwyntiau ar p'un a ddylai unrhyw agwedd o Ran 1 o Fesur 2009 gael ei chadw o fewn y ddeddfwriaeth newydd.
- 4.12 Mae paragraff 6.4 o'r papur yn awgrymu cryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol awdurdodau lleol, gan gynnwys rôl y Pwyllgor Archwilio. Mae'r papur yn cynnig diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i egluro swyddogaethau'r Pwyllgorau Archwilio, eu galw'n Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, ehangu eu haelodaeth annibynnol, a'i gwneud yn ofynnol eu bod yn cael eu cadeirio gan unigolion annibynnol. Byddai'n ofynnol i'r Prif Weithredwr gynnal hunanasesiad blynyddol o lywodraethu corfforaethol a pherfformiad yr awdurdod, darparu a chyhoeddi adroddiad i'r Arweinydd ar faterion sy'n peri pryder, camau a gymerwyd mewn ymateb i adroddiadau'r

Pwyllgor Archwilio, hunanasesu ac adolygiad gan gymheiriaid. Dylai'r Prif Weithredwr hefyd wneud trefniadau ddwywaith y flwyddyn am adolygiad cymheiriaid i gynig her i'r broses hunanasesu. Byddai'r adolygiad cymheiriaid yn cael ei gynnal gan aelodau presennol ac aelodau sydd wedi ymddeol ac uwch swyddogion o awdurdodau eraill, gweithwyr proffesiynol mewn meysydd fel y gyfraith, TG, adnoddau dynol a chyllid, ac unigolion â chymwysterau addas o'r sector preifat a'r trydydd sector.

- 4.13 Mae'r Papur yn awgrymu bod Gweinidogion Cymru yn cadw pwerau ymyrryd pan fo methiannau o fewn meysydd penodol megis gwasanaethau cymdeithasol neu addysg. Dylai fod ganddynt bŵer i gomisiynu adolygiadau annibynnol o lywodraethu corfforaethol awdurdodau lleol. Byddai'r adolygiadau hyn yn llywio penderfyniadau Gweinidogion ynghylch a ddylid cynnig cefnogaeth neu ymgymryd ag ymyrraeth ffurfiol.
- 4.14 Mae Pennod 7 yn ymdrin â pherfformiad. Mae paragraff 7.2 yn awgrymu y bydd nodau lles y tymor hir ar gyfer Cymru yn cael eu gosod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Byddai awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn gosod eu hamcanion ar gyfer cyflawni'r nodau cenedlaethol hyn. Bydd y cynllun lles lleol yn nodi'r cynllun gwasanaeth cyhoeddus ar y cyd ar gyfer ardal, a ddatblygwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd maniffesto'r Arweinydd fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn nodi blaenoriaethau gwleidyddol gweithrediaeth yr awdurdod lleol a bydd y Prif Weithredwr yn cynhyrchu cynllun corfforaethol i roi'r blaenoriaethau hyn ar waith. Ni fydd y cyngor bellach yn cymeradwyo'r cynllun corfforaethol. Bydd y cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb a bydd gofyn i'w bwyllgorau a'i weithrediaeth graffu ar yr uwch dîm rheoli o ran cyflawni eu hamcanion drwy'r cynllun corfforaethol. Byddai'r cynllun hwn yn ffynhonnell o dystiolaeth ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal proses archwilio rheolaidd o awdurdodau lleol ac yn adnodd i Bwyllgorau Archwilio herio'r weithrediaeth.
- 4.15 Mae Pennod 7 hefyd yn cynnig ymagwedd newydd at ddata perfformiad gyda llai o fesurau mwy ystyrion. Bydd y cynllun corfforaethol yn cynnwys set safonol o ganlyniadau perfformiad a mesurau. Mae'r Papur yn ceisio barn am y defnydd o safonau gofynnol a chosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â safonau o'r fath.
- 4.16 Mae Pennod 7 hefyd yn cynnig gofyniad bod holl gyfarfodydd y cyngor llawn a'r cabinet yn cael eu darlledu ar-lein yn ogystal ag annog darlledu pwyllgorau eraill. Mae hefyd yn cynnig dyletswydd i fod â threfniadau i'r cyhoedd leisio eu barn am unrhyw eitemau agored ar raglen y cyngor, y cabinet neu unrhyw bwyllgorau'r awdurdod.
- 4.17 Mae Pennod 7 yn cynnig gofyniad ar bob awdurdod lleol i sefydlu proses gwynion ar-lein syml a dyletswydd statudol i ddarparu adroddiad rheolaidd ar gwynion i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

4.18 Mae Pennod 8 yn ymdrin â swyddogaeth adolygu pwyllgorau archwilio a rheoleiddwyr allanol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau nodi 'penderfyniadau allweddol' a fydd yn cael eu hystyried er mwyn galluogi gwell cynllunio o ran archwilio. Mae'r Papur hefyd yn awgrymu cryfhau blaengynllunio Pwyllgorau Archwilio, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff adolygu allanol rannu gwybodaeth gyda'i gilydd a gyda Phwyllgorau Archwilio lleol, ei gwneud yn ofynnol i gyrff adolygu allanol gydlyn eu gwaith a chynhyrchu asesiad cyfunol o bob Awdurdod Lleol bob dwy flynedd ac asesiad blynyddol ar y cyd o gyflwr llywodraeth leol yng Nghymru.

4.19 Mae Pennod 9 yn ymdrin â diwygio cyllid llywodraeth leol. Bydd y cam cyntaf yn nodi ac yn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i weithredu'r broses uno awdurdodau. Bydd y cam nesaf yn ystyried newidiadau mwy sylfaenol i'r ffordd y mae llywodraeth leol yn cael ei ariannu gan gynnwys edrych ar y cydbwysedd rhwng cyllid a gaiff ei ddarparu'n ganolog a'r hyn a gynhyrchir yn lleol drwy drethi a thaliadau lleol. Disgwylir i hyn arwain at Bapur Gwyn arall ar ôl Etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn arwain at unrhyw gost ychwanegol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Papur wedi ei drafod gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, yn enwedig o ran Pennod 8 sy'n ymdrin â materion archwilio. Mae'r Papur hefyd wedi ei drafod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd gyda phwyslais arbennig ar Bennod 3. Bydd y Papur yn destun adroddiad i'r Cyngor Llawn.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai angen ystyried unrhyw gynigion sy'n dod i'r amlwg ar ôl hynny naill ai drwy ddeddfwriaeth neu arweiniad y llywodraeth yn unigol er mwyn asesu'r goblygiadau o ran cost a threfniadaeth.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg o beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad yw na fydd barn y Cyngor yn cael ei chymryd i ystyriaeth pan fydd y Llywodraeth yn ystyried y ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei deddfu mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Datganoli,  
Democratiaeth a  
Chyflawni

# Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol

Dyddiad cyhoeddi: 3 Chwefror 2015  
Angen gweithredu erbyn: 23:59 ar 28 Ebrill 2015

Tudalen 37

**Trosolwg**

Y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yw datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Mae'r Papur Gwyn yn egluro cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio yn y meysydd canlynol: democratiaeth leol, rolau a chydabyddiaeth ariannol Aelodau Etholedig ac uwchswyddogion, llywodraethu cymunedol a Chynghorau Cymuned, hawliau cymunedau, gwelliant corfforaethol, perfformiad gwasanaethau, craffu, archwilio, arolygu a rheoleiddio, a chyllid.

**Sut i ymateb a manylion cysylltu**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nifer helaeth o faterion. Mae llawer ohonynt o ddiddordeb i'r cyhoedd ond mae rhai ohonynt yn dechnegol ac mae'n bosibl mai dim ond Awdurdodau Lleol fydd â diddordeb ynddynt. Rydym wedi creu holiadur ar y we er mwyn ei gwneud yn haws inni gasglu ymatebion a'u dadansoddi – gweler yma: <http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy>

Gallwch ddewis ymdrin â'r holl faterion a godir gan y Papur Gwyn hwn neu gallwch ddewis cwblhau fersiwn fyrrach o'r holiadur, sy'n canolbwyntio ar y prif faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Byddwch yn gallu dewis yr opsiwn yr ydych yn ei ffafrio pan fyddwch yn dechrau llenwi'r holiadur. Mae fersiwn Word ar gael hefyd ond byddem yn annog ymatebwyr yn daer i ddefnyddio'r fersiwn sydd ar-lein.

I ymateb i'r ymgynghoriad cwblhewch y ffurflen sydd ar-lein neu gofynnwch am yr holiadur ar ffurf Word sy'n cyd-fynd â'r Papur Gwyn, cwblhewch yr holiadur a dychwelwch ef: [RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk](mailto:RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk)

neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol

Diwygio Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

### **Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

### **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ffurf crynodeb pob dydd ac ar ffurf fersiwn sy'n addas i bobl ifanc. Mae'r rhain i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill os gofynnir amdanynt.





## Cynnwys

Rhagair y Gweinidog – Ein Gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru	vi
Grym i Bobl Leol	1
Cydbwysu Cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol	11
Adnewyddu Democratiaeth	26
Cysylltu â Chymunedau	46
Grym i Gymunedau Lleol	59
Llywodraethu Corfforaethol a Gwella	65
Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol	73
Cryfhau Rôl Adolygu	81
Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol	94
Casgliad	104
Rhestr termau	105

## Rhagair y Gweinidog – Ein Gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru



O ymweld ag Archifau Gwent yn eu cyfleuster newydd bendigedig yn Swyddfeydd Cyffredinol yr hen waith dur yng Nglynebwy, gallwch ddarllen cofnodion Cymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegar lle bu'r Cynghorydd Aneurin Bevan a'i gydweithwyr wrthi'n cyflwyno atebion cydweithredol i'w cymuned leol, o safbwynt iechyd. Mae'r cofnodion hynny'n ein hatgoffa bod Llywodraeth Leol yng Nghymru, ar ei gorau, wastad wedi bod yn weithredol ac wedi mynd ati i weithio'n gydweithredol gyda chymunedau lleol i ddod o hyd i atebion i broblemau.

Rydym yn awyddus i bob un o'n Cynghorau fod yn Gynghorau gweithredol sy'n mynd ati i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern a hygyrch o safon, a hynny ar y cyd â'u cymunedau. Wrth inni ddatblygu ein cynlluniau, rydym wedi ystyried y profiad rhyngwladol gorau ac wedi manteisio ar brofiadau'r mudiad cynghorau cydweithredol yn y DU. Ond ni ddylem fyth anghofio bod Cymru bob amser wedi arloesi ym maes modelau cydweithredol, yn ystod oes Aneurin Bevan a heddiw. Mewn 11 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, pleidleisiodd tenantiaid o blaid cael cwmnïau cydfuddiannol cymunedol neu fentrau cymdeithasol i reoli eu tai cymdeithasol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn deddfu ar gyfer creu modelau cydweithredol a chydfuddiannol ym maes gofal cymdeithasol.

Yn y Papur Gwyn hwn rydym yn egluro telerau bargaen newydd ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Dros 15 mlynedd ar ôl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'n bryd ail-lunio'r berthynas rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol yng Nghymru. Bydd ein bargaen newydd ar gyfer Llywodraeth Leol, sydd wedi'i seilio ar nifer llai o Gynghorau cryfach, yn arwain at Lywodraeth Genedlaethol yng Nghymru sy'n pennu nifer bach o flaenoriaethau cenedlaethol clir, yn dilyn hynt Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014, gan alluogi Llywodraeth Leol i bennu'r rhan fwyaf o flaenoriaethau lleol gyda phobl leol.

Rydym yn sylweddoli bod Llywodraeth Leol yng Nghymru dan bwysau difrifol ar hyn o bryd o ganlyniad i bolisiau cyni Llywodraeth y DU a'r galw cynyddol am wasanaethau. Nid yw'n gyfnod hawdd i neb ym maes Llywodraeth Leol, boed yn Gynghorwyr neu'n weithwyr Cynghorau. Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn caniatáu i Lywodraeth Leol ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol a dysgu o'r arfer gorau – arfer dibynadwy, yn ogystal ag arfer arloesol – wrth fynd ati i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ledled Cymru.

Yn y cyfamser rhaid inni sicrhau bod Cynghorau lleol yn cynrychioli pob agwedd ar gymunedau lleol. Mae arnom angen llawer mwy o amrywiaeth o Gynghorwyr. Mae sicrhau hynny'n her uniongyrchol i arweinwyr Llywodraeth Leol. Mae Cynghorau lleol sy'n adlewyrchu cymunedau lleol yn fwy tebygol o ennyn ymddiriedaeth y cymunedau hynny pan fydd yn rhaid i arweinwyr lleol wneud penderfyniadau anodd. Dylem fod yn ei gwneud yn haws i bobl newydd ymuno â Llywodraeth Leol ar lefel Cyngor Tref neu Gymuned ac ar lefel Prif Gyngor. Rhaid inni sicrhau nad yw'r system o roi lwfansau i Gynghorwyr yn golygu bod Aelodau Cabinet a'r sawl sy'n

cael taliadau am gyfrifoldebau uwch yn dod yn rhan arall o'r fiwrocratiaeth sy'n derbyn tâl. Dylem fod yn ceisio lleihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth ym maes Llywodraeth Leol.

Ar adeg pan fo sefydliadau ym maes gwasanaethau cyhoeddus ledled y byd yn dysgu nad yw'r hen ffyrdd o wneud pethau'n ddigonol ar gyfer y dyfodol, mae gan Gymru gyfle i achub y blaen ar bawb arall os ydym yn effro i'r posibilrwydd o wneud hynny. Os ydym am ail-lunio ein gwasanaethau cyhoeddus ac ail-lunio ein hardaloedd lleol, mae angen inni weld arweinyddiaeth gref ac addasol ar draws pob un o'n gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Leol.

Rydym yn uchelgeisiol o safbwynt Llywodraeth Leol yng Nghymru ac o safbwynt ein cymunedau lleol. Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru ac yn esbonio sut y byddwn yn symud y cynigion hyn yn eu blaen.



**Leighton Andrews AC**  
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**



## 1. Grym i Bobl Leol

Mae'r Bennod hon yn egluro hanes a datblygiad Llywodraeth Leol yng Nghymru. Dyma'r cyd-destun ar gyfer ein gweledigaeth, sef Llywodraeth Leol fwy cynhwysol ac atebol sy'n rhannu grym a chyfrifoldeb â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae'n ein hatgoffa nad yw'r hyn sydd dan sylw'n rhywbeth newydd. Ceir hanes hir o weithredaeth gymunedol yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei hyrwyddo a'i chefnogi'n gyson ers 1999. Er bod diwygio strwythurol ym maes Llywodraeth Leol yn angenrheidiol, nid yw'n ddigonol. Bydd angen i Lywodraeth Leol yn yr 21ain ganrif yng Nghymru gael math newydd o arweinyddiaeth wleidyddol nad yw'n rhan o rigol biwrocraatiaeth Awdurdodau Lleol. Yn ogystal, bydd angen cynrychiolaeth ddemocrataidd sy'n adlewyrchiad mwy cytbwys o amrywiaeth ein cymunedau.

Yn olaf, mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg cryno o gynnwys Penodau eraill y Papur Gwyn hwn.

### 1.1 Cyflwyniad

Daeth Llywodraeth Leol fodern yng Nghymru i fodolaeth ddiwedd y 19eg ganrif ac roedd yn benllanw cyfres o ddiwygiadau mawr yn oes Fictoria y bwriedid iddynt roi trefn ar anhrefn o safbwynt awdurdodau, anhrefn o safbwynt ardrethi ac anhrefn o safbwynt ardaloedd.<sup>1</sup>

Creodd Deddf Llywodraeth Leol 1888 Gynghorau Sir yn siroedd 'hanesyddol' Cymru, a oedd wedi'u sefydlu gan Harri'r Wythfed. Sicrhaodd y Cynghorau newydd, a etholwyd drwy etholfraint newydd ac estynedig, fod rheolaeth ddemocrataidd bellach ar bwerau gweinyddol yr Ynadon Heddwch, megis gwaith cynnal a chadw ffyrdd a phontydd, carchardai, gwallgofdai a gwaith trwyddedu, a ariennid drwy godi ardrethi sirol. Daeth yr Heddlu yn gyfrifoldeb cyd-bwyllgorau'r Ynadon Heddwch a'r Cynghorau newydd.

Chwe mlynedd yn ddiweddarach, creodd Deddf Llywodraeth Leol 1894 Gynghorau Dosbarth gwledig a threfol a fabwysiadodd bwerau'r byrddau glanweithdra a'r Comisiynwyr Gwelliannau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, palmentydd, gwaith glanhau strydoedd a'r gwaith o ddarparu marchnadoedd a mynwentydd. Yn ogystal sefydlodd y Ddeddf Gynghorau Plwyf sifil a oedd yn parhau i roi cymorth i bobl dlawd drwy Undebau Cyfraith y Tlodion – ond erbyn hyn dan oruchwyliaeth ddemocrataidd Gwarcheidwaid Cyfraith y Tlodion, a oedd yn cynnwys Aelodau Etholedig o'r Cynghorau Dosbarth newydd. Gyda'i gilydd gosododd y ddwy Ddeddf hyn y sylfeini ar gyfer Llywodraeth Leol fodern yng Nghymru.

Yn ystod y 30 mlynedd nesaf, cymerodd y Cynghorau Sir ragor o gyfrifoldebau, am addysg uwchradd ym 1889, am addysg gynradd ym 1902 ac am wasanaethau mamolaeth a phlant ym 1918. Ehangodd y Cynghorau Dosbarth yr hyn a wnaent ym maes cyfleustodau a daethant yn berchnogion o bwys ar gwmnïau lleol a oedd yn cyflenwi trydan, nwy a dŵr.

<sup>1</sup> George Goschen, Llywydd y Bwrdd Llywodraeth Leol, 1871, dyfynwyd yn *British local government reform: the nineteenth century and after*, J.P.D. Dunbabin, The English Historical Review, 94 (1984), Rhif 365

Cafodd y ddwy haen a oedd yn perthyn i Lywodraeth Leol eu diwygio'n sylweddol am y tro cyntaf ym 1929. Cafodd rôl y Cynghorau Sir ei chryfhau ar draul y Cynghorau Dosbarth. Cafodd Undebau a Gwarcheidwaid Cyfraith y Tlodion eu diddymu a daeth y Siroedd yn gyfrifol am gymorth cyhoeddus, claf dai, ysbytai a thlotai ac am bob priffordd. Gofynnwyd hefyd iddynt ddiwygio'r haenau isaf o lywodraeth ac arweiniodd hynny at ddiddymu nifer o Gynghorau Dosbarth ac uno llawer o blwyfi.

Y 15 mlynedd nesaf oedd y blynyddoedd lle gwelwyd Llywodraeth Leol yng Nghymru yn ehangu fwyaf. Rhyngddynt roedd y Cynghorau Sir a'r Cynghorau Dosbarth yn gofalu am y ffyrdd a'r palmentydd, roeddent yn darparu gwasanaethau lles i bobl dlawd a gwasanaethau cymdeithasol sylfaenol, roeddent yn adeiladu ysbytai ac ysgolion trefol ac yn rhedeg y system addysg, roeddent yn darparu brechiadau a gwasanaethau mamolaeth, roedd llawer ohonynt yn darparu nwy a thrydan drwy eu cwmnïau eu hunain, roeddent yn gyfrifol am ddŵr, carthffosiaeth a glanweithdra ac roeddent yn rheoleiddio gwaith diogelu'r cyhoedd ac yn rheoleiddio busnesau a gwaith cynllunio.

Yn dilyn y Rhyfel arweiniodd y broses o wladoli diwydiannau a seilwaith allweddol, ynghyd â ffocws cynyddol ar sicrhau tegwch cymdeithasol, at don o ddiwygiadau. Yn rhan o'r diwygiadau hynny collodd Llywodraeth Leol y rhan fwyaf o'i chyfrifoldebau am iechyd, nawdd cymdeithasol a chyfleustodau. Arweiniodd y broses o wladoli trydan ym 1947 at drosglwyddo dros 50 o gwmnïau cyflenwi Awdurdodau Lleol yng Nghymru i'r Byrddau Trydan newydd. Y flwyddyn ganlynol cafodd pob un o'r cwmnïau nwy a oedd yn eiddo i Awdurdodau Lleol yng Nghymru eu cymryd drosodd gan Fwrdd Nwy Cymru, ond ni chafodd cwmnïau cyflenwi dŵr a oedd yn eiddo i Awdurdodau Lleol eu gwladoli tan 1973.

Yn sgil creu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ym 1948 cafodd pob ysbyty trefol ei drosglwyddo i'r GIG newydd, ond parhaodd Llywodraeth Leol yn gyfrifol am lawer o wasanaethau iechyd cymunedol tan 1974. Cafodd Deddf y Tlodion 1601 ei diddymu o'r diwedd wrth i system o Gymorth Gwladol gael ei sefydlu ym 1948. Collodd Prif Awdurdodau Lleol eu rôl o safbwynt rhoi cymorth i bobl dlawd ond daethant yn gyfrifol am roi llety i bobl agored i niwed a chawsant bwerau newydd i helpu pobl anabl. Yn sgil y system newydd, cafodd y cyfrifoldeb am bobl ag anhwylderau iechyd meddwl ei drosglwyddo i'r GIG newydd.

O ganlyniad i'r newidiadau pwysig hyn i swyddogaethau Llywodraeth Leol, roedd consensws cynyddol erbyn dechrau'r 1950au bod angen rhagor o ddiwygio. Erbyn hynny nid oedd y map Llywodraeth Leol yn adlewyrchu poblogaeth drefol ail hanner y ganrif. Roedd pryderon ynghylch aneffeithlonrwydd awdurdodau bach, yn enwedig y Dosbarthau gwledig, ond hefyd ynghylch y Bwrdeistrefi trefol yr ystyr id eu bod yn annigonol ar gyfer y trefi a'r dinasoedd mwyfwy o faint yr oeddent yn eu gwasanaethu. Arweiniodd hynny at sefydlu Comisiwn Llywodraeth Leol i Gymru ym 1958. Cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad cyntaf ym 1963 ond cafodd ei ddiddymu ym 1967 heb fod unrhyw un o'i argymhellion wedi'u gweithredu.

Llwyddwyd i sicrhau gwaith diwygio o'r diwedd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Creodd y Ddeddf hon system ddwy haen yng Nghymru, sef wyth o Siroedd a 37 o Ddosbarthau, a chafodd swyddogaethau eu rhannu rhyngddynt. Yn fras roedd y Siroedd yn gyfrifol am y prif wasanaethau, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, ffyrdd a gwasanaethau tân, ac roedd y Dosbarthau yn gyfrifol am iechyd yr amgylchedd, tai, casglu sbwriel, trwyddedu,

cynllunio lleol a chasglu ardrethi. Cafodd y cyfrifoldeb am ddŵr a charthffosiaeth ei roi yn nwylo Byrddau Dŵr rhanbarthol. Roedd plismona wedi'i ddiwygio ddiwedd yr 1960au wrth i bedwar o heddluoedd gael eu creu yng Nghymru ond parhaodd y rheini dan oruchwyliaeth Awdurdodau Heddlu, yr oedd dwy ran o dair o'u haelodau'n Aelodau Etholedig o'r Siroedd a'r Dosbarthau, nes i'r rheini hefyd gael eu diddymu pan gafodd swyddi Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a etholir yn uniongyrchol eu creu yn 2012. Yn sgil Deddf 1972 cafodd y Cynghorau Plwyf yng Nghymru eu diddymu hefyd a chafodd Cynghorau Cymuned eu creu.

Yn ystod yr 1980au gwelwyd Llywodraeth Leol yn cael ei rheoli fwyfwy gan y Llywodraeth Genedlaethol. Defnyddiwyd y broses o gyflwyno'r grant bloc a'r broses o gapio ardrethi i reoli gwariant Llywodraeth Leol, a chafodd llawer o'r gwasanaethau a gâi eu darparu gan Gynghorau o'r blaen eu contractio allan drwy brosesau tendro cystadleuol gorfodol. Cafodd tenantiaid Cynghorau yr hawl i brynu eu heiddo am bris gostyngedig dan Ddeddf Tai 1980. Arweiniodd hynny at leihau stoc tai'r sector cyhoeddus yn helaeth, gan amharu ar allu Cynghorau i gynnal y stoc tai a oedd yn weddill ganddynt. Ceisiwyd diwygio cyllid Llywodraeth Leol drwy gyflwyno'r Tâl Cymunedol ym 1989/90, ond yn wyneb llawer o wrthwynebiad gan y cyhoedd cafodd y Tâl hwnnw ei ddisodli gan y Dreth Gyngor ym 1993.

Yn fuan, fodd bynnag, barnwyd bod y system ddwy haen o Siroedd a Dosbarthau a sefydlwyd ym 1974, a'r gwrthdaro a oedd rhwng yr haenau, yn gyfaddawd na allai barhau. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 un haen o 22 o gyrff unedol yn eu lle, a elwid yn Brif Gynghorau.<sup>2</sup> Yn ogystal sicrhodd y Ddeddf fod y gwaith o weinyddu'r gwasanaethau tân yn cael ei symud o Awdurdodau Lleol unigol drwy greu tri Awdurdod Tân ac Achub cyfunol.

Creodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gorffori perthynas strwythurol ffurfiol rhwng Llywodraeth newydd Cymru a Llywodraeth Leol ar ffurf Cyngor Partneriaeth Cymru a Chynllun Llywodraeth Leol. Ers datganoli, mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol wedi tyfu'n organig mewn rhai ffyrdd, ond er bod rhagor o bwerau a chyfrifoldebau wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru mae perthynas ffurfiol Llywodraeth Cymru â Llywodraeth Leol yn parhau fel yr oedd ar ddiwrnod cyntaf datganoli ym 1999.

Ers datganoli, mae diwygiadau ym maes Llywodraeth Leol wedi canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad, hynny yw, effeithlonrwydd gwasanaethau ac effeithlonrwydd ariannol. Gwelwyd rôl yr asiantaethau Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio yn cynyddu drwy fentrau megis Gwerth Gorau a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ragor o ddiwygiadau a oedd wedi'u cyfeirio at drefniadaeth fewnol Awdurdodau Lleol nad oeddent, ar sawl cyfrif, wedi newid llawer yn ystod y ganrif flaenorol. Bwriad y diwygiadau hyn oedd troi rôl draddodiadol Cynghorau, sef gweinyddu, yn un a oedd yn seiliedig ar reolaeth gorfforaethol, er mwyn symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau mewn Awdurdodau Lleol drwy greu Cabinet gweithredol, yn y pen draw, sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n cael ei ddwyn i gyfrif gan bwyllgorau sy'n cynnwys Aelodau mainc gefn. Yn ogystal roedd Deddf 2000 yn cynnwys darpariaethau a oedd yn cydnabod rôl Awdurdodau Lleol o ran arweinyddiaeth gymunedol, ac roedd yn llacio rhai o'r cyfyngiadau cyfreithiol a oedd arnynt drwy roi'r pŵer iddynt wneud unrhyw beth bron a oedd yn hybu llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd.

<sup>2</sup> Mae'r termau 'Prif Gynghorau' a 'Prif Awdurdodau Lleol' yn cyfeirio at y 22 o Gynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol. Nid ydynt yn cynnwys Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol na Chynghorau Tref a Chymuned.

Yng Nghymru mae nifer o Fesurau a Deddfau y Cynulliad wedi cyflwyno cyfundrefn wella a oruchwylir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, wedi symleiddio'r broses ar gyfer llunio is-ddeddfau, ac wedi darparu ar gyfer cryfhau democratiaeth leol a thryloywder. Mae diwygiadau eraill wedi mynd i'r afael â pherfformiad prif wasanaethau Llywodraeth Leol. Bwriedir i ddiwygiadau o bwys ym maes addysg drawsnewid gwasanaethau sydd wedi siomi plant Cymru yn rhy aml, a bwriedir i ddeddfwriaeth bwysig ym maes gwasanaethau cymdeithasol ddiogelu plant a pharatoi'r gwasanaethau hynny ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym.

Yn fwy diweddar, mae'r sylw wedi bod ar y modd y mae democratiaeth leol yn gweithio yng Nghymru. Mae'n berffaith amlwg nad yw'r sawl sy'n eistedd mewn siambrau Cynghorau ledled Cymru yn adlewyrchu'n ddigonol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Nid mater ymylol yw amrywiaeth. Mae'n hanfodol i fusnes Llywodraeth Leol ac yn allweddol i ddemocratiaeth effeithiol. Er bod rhai Cynghorau wedi gwneud cynnydd o safbwynt cymryd camau gweithredol i roi cyfle i gymunedau a'u gweithlu eu hunain leisio barn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mae llawer o Gynghorau yn parhau i ymdrin yn dameidiog â'r mater. Wrth wneud hynny, nid ydynt yn cydnabod rôl Awdurdodau Lleol fel gweithredwyr newid ac nid ydynt yn cydnabod grym pobl i ychwanegu'n sylweddol at werth Llywodraeth Leol drwy fenter gymdeithasol, entrepreneuriaeth gymunedol ac arweinyddiaeth leol.

Nod ein diwygiadau cyfredol ym maes Llywodraeth Leol, felly, yw sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn croesawu'n llawn eu rôl fel arweinwyr cymunedol, gweithredwyr newid a llunwyr y lleoedd y maent yn eu gwasanaethu, a sicrhau eu bod yn gwella gwaith chyflawni ac yn creu canlyniadau gwell i'w cymunedau. Mae pobl Cymru yn haeddu cael eu gwasanaethu gan sefydliadau sy'n addas i'r 21ain ganrif. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r unig ffordd y gellir sicrhau hynny yw drwy ail-lunio democratiaeth leol yng Nghymru mewn modd radical.

## 1.2 Democratiaeth a Chyflawni

Un thema sy'n ymddangos dro ar ôl tro drwy gydol hanes Llywodraeth Leol yw'r gred bod tensiwn rhwng galwadau democratiaeth a galwadau gwaith chyflawni, sy'n cystadlu â'i gilydd: bod democratiaeth ar ei gorau pan fydd yn digwydd mewn ardal fach, a bod gwaith darparu gwasanaethau ar ei orau pan fydd yn rhwym wrth arbedion maint. Mae hon yn ddadl ystrydebol. Mae nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol yn gyson uwch na'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau Llywodraeth Leol, ac mewn etholiadau Cynghorau Cymuned y ceir y nifer mwyaf o seddau diwrthwynebiad. Ac er y gall arbedion maint gynyddu effeithlonrwydd a gwerth am arian, heb os, y gwasanaethau mwyaf effeithiol yn aml, yn enwedig o safbwynt gwasanaethau ataliol, yw'r rheini sydd wedi'u personoli a'u teilwra'n fwy helaeth.

Mae'r diwygiadau o bwys ym maes Llywodraeth Leol ym 1929, ddiwedd yr 1940au, ym 1974, ym 1996 ac yn 2000 i gyd wedi bod yn drobwyntiau a oedd yn gofyn am adnewyddu Llywodraeth Leol er mwyn ymateb i rymoedd allanol pwerus – demograffeg a oedd yn newid, disgwyliadau cymdeithasol cynyddol a thechnoleg newydd. I'r grymoedd allanol hyn sy'n parhau hyd heddiw, mae cyd-destun yr heriau ariannol enbyd yr ydym yn eu hwynebu'n awr yn her newydd, ychwanegol i Lywodraeth Leol yng Nghymru.

Mae cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi dod trwyddi gystal â'r disgwyl yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod o gynydd. Sicrhaodd setliad tair blynedd yn 2008-09 fod Awdurdodau Lleol yn cael eu gwarchod yn weddol rhag toriadau a wnaed wedyn i gyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod rhan olaf y cyfnod adolygu gwariant. Yna sicrhaodd Llywodraeth Cymru fod Awdurdodau Lleol yn cael eu gwarchod rhag y cyfnod gwariant gynyddol rhwng 2011-12 a 2013-14, tra



dioddefodd Cynghorau yn Lloegr doriadau sylweddol. Fel y nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y ddogfen *O blaid atebolrwydd lleol*, mae'n "deg dweud bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi derbyn gwell setliadau refeniw na manau eraill yn ystod y cyfnod hwn".

Rhoddodd y trefniadau gwarchod hyn gyfle i Awdurdodau Lleol yng Nghymru eu hadnewyddu eu hunain a thrawsnewid y modd yr oeddent yn gweithio, eu perthynas â sefydliadau partner a'r cyhoedd a'r modd yr oeddent yn darparu gwasanaethau. Ni fanteisiodd llawer ohonynt ar y cyfle hwnnw. Yn rhy aml nid yw arweinwyr wedi derbyn yr her, mae cydweithredu wedi bod braidd yn gloff ac mae buddiannau plwyfol wedi bod yn drech na phopeth arall. Er mwyn trawsnewid mae gofyn i arweinwyr Awdurdod Lleol sicrhau bod ffocws canolog yr Awdurdod ar ragoriaeth o ran perfformiad a rheoli newid, ac ar ganolfannau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar arloesi wrth ddylunio a chyflawni. Felly, mae dulliau ardderchog o ddarparu gwasanaethau yn cael eu llesteirio gan ganolfannau corfforaethol di-fflach. Neu dro arall mae canolfannau corfforaethol ardderchog yn cael eu tanseilio gan ddulliau ceidwadol o ddarparu gwasanaethau

Mae newid strwythurol yn angenrheidiol. Llwyddodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflwyno'n rymus y ddadl nad oes gan Gynghorau llai o faint y cydnerthedd, yr arbenigedd neu'r arweinyddiaeth a all drawsnewid eu sefydliadau neu gynnal eu cymunedau mewn byd cymhleth sy'n newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y ddadl hon a bydd yn deddfu er mwyn ymdrin â hi. Mae'n rhaid cael nifer llai o Gynghorau a chael Cynghorau sy'n fwy o faint er mwyn cryfhau democratiaeth a chryfhau gwaith cyflawni. Fodd bynnag, rydym yn cytuno nad yw canolbwyntio ar strwythur yn unig yn dangos dealltwriaeth gywir o'r sefyllfa.

Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn wynebu heriau'n ymwneud â chyllid, diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae a wnelo'r her ddemocrataidd â siambrau Cynghorau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, sy'n ymateb i anghenion y gymuned ac sy'n gweld mai eu diben craidd yw adeiladu cyfalaf cymdeithasol, hynny yw grymuso cymunedau a sicrhau cydnerthedd cymunedau. Yr her o ran cyflawni yw sicrhau bod Aelodau Etholedig yn mynnu atebolrwydd, yn herio hunanfodlonrwydd ac yn cael gwared ar ddinodedd. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion y bwriedir iddynt wella democratiaeth a gwaith cyflawni. Rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi'r fframwaith gorau posibl ar waith o safbwynt polisi a rheoleiddio, a dyna y byddwn yn ei wneud. Yn y pen draw, fodd bynnag, ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel ym maes Llywodraeth Leol fydd yn gwneud y gwahaniaeth go iawn.

Rydym yn disgwyl y bydd gweithredu'r diwygiadau a gynigir gennym yn y Papur Gwyn hwn yn sicrhau pwrpas newydd i'r gwaith o ddylunio Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac yn sicrhau mwy o arloesedd wrth i hynny gael ei wneud. Byddant yn egluro rôl Llywodraeth Leol yng Nghymru i'r genhedlaeth nesaf a'r sawl sy'n gweithio mewn Awdurdodau Lleol neu sy'n dyheu am fod yn Gynghorwyr, a byddant yn creu fframwaith lle bydd hyblygrwydd, arloesedd a chyfle'n hanfodol er mwyn gwasanaethu cymunedau a chreu perthynas â nhw sy'n ystyrlon ac yn llawn parch.

Mae hanes datblygiad Llywodraeth Leol ac, yn wir, deddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraeth Leol, yn ymdrin yn bennaf â materion penodol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Mae'n anochel bod hynny wedi arwain at strwythurau corfforaethol sy'n seiliedig ar wasanaethau sy'n gweithio ar wahân i'w gilydd – ac mae'r rheini bellach yn perthyn i'r gorffennol. Bwriad y diwygiadau arfaethedig hyn yw ailgyfeirio sylw ein Cynghorau at eu rôl o safbwynt llunio lleoedd. I wneud hynny, mae arnynt angen arweinyddiaeth lawn gweledigaeth, a ategir gan allu corfforaethol strategol ac addasol sy'n barod, yn anad dim, i groesawu'r her o ran newid.

Bydd llawer mwy o amrywiaeth yn perthyn i waith cyflawni yn y dyfodol, drwy gwmnïau cydfuddiannol, dirprwyo gwaith yn fewnol, gwaith comisiynu ar y cyd a pherchnogaeth gymunedol. Bydd rheoli'r amgylchedd cymhleth hwn yn gofyn am ddull gwahanol o ymdrin â llywodraethu lleol. Nid yw'n drwydded neu'n anogaeth i Awdurdodau Lleol roi'r gorau i fod yn gyfrifol am rai gwasanaethau neu beidio â phoeni am rai agweddau ar lesiant yn eu hardal. I'r gwrthwyneb yn llwyr.

Diben ein diwygiadau arfaethedig yw symud penderfyniadau'n nes at bobl Cymru yn eu cymunedau lleol, grymuso pobl leol i sicrhau gwasanaethau gwell, a chryfhau gwaith ymgysylltu â chymunedau wrth wneud penderfyniadau. Mewn cyfnod o gyni, bydd angen i Gynghorau ymgysylltu'n fwy helaeth â chymunedau lleol er mwyn nodi diben cyffredin a disgwyliadau cyffredin ynghylch beth sy'n ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau.

### 1.3 Deddfu ar gyfer Newid

Yn y Papur Gwyn blaenorol, *Diwygio Llywodraeth Leol*,<sup>3</sup> nodwyd ein bwriad i gyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth. Y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yw Bil Llywodraeth Leol (Cymru) i ganiatáu i rywfaint o waith paratoi ddigwydd er mwyn galluogi rhaglen o uno a diwygio Llywodraeth Leol. Cafodd y Bil hwn ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 26 Ionawr 2015. Bydd yr ail Fil yn cael ei gyhoeddi ar ffurf Bil Drafft at ddibenion ymgynghori yn ystod hydref 2015 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn 2016, ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Byddai'r ail Fil, ar sail y cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn, yn cwblhau'r rhaglen o uno Llywodraeth Leol ac yn sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol. Bydd hefyd yn cynnwys fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad a chyllid Awdurdodau Lleol.

Yn y tymor hwy mae angen adolygiad mwy sylfaenol o gyllid Llywodraeth Leol ac mae'n debygol y bydd angen deddfwriaeth ar wahân i ymdrin â'r materion hyn.

Gofynnwyd cwestiynau rhagarweiniol ynghylch y materion hyn yn ein dogfen *Diwygio Llywodraeth Leol* ac rydym wedi gwrandao ar eich safbwyntiau ac wedi'u hystyried. Dyma'r elfennau y byddwn yn rhoi sylw manylach iddynt yn y Papur hwn, dan y penawdau canlynol.

### 1.4 Cydbwysu Cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol

Rydym yn trafod y berthynas rhwng y gwahanol feysydd llywodraeth a geir yng Nghymru a'r modd y mae'r berthynas honno wedi datblygu ers datganoli ym 1999. Rydym yn egluro rôl Llywodraeth Cymru, sef gosod safonau a diffinio nifer cyfyngedig o ddisgwyliadau cenedlaethol. Rydym yn cadarnhau bod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod fframwaith ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Rydym yn archwilio rôl Llywodraeth Leol fel gweithredwr newid yn ei hardal, yn ei pherthynas â gwasanaethau cyhoeddus eraill ac ar lefel ranbarthol, yn enwedig dinas-ranbarthau.

Rydym yn egluro ein bwriad i ddeddfu er mwyn cwblhau'r rhaglen o uno Awdurdodau Lleol. Rydym yn bwriadu rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol, a phŵer i sicrhau darpariaeth gyson o ran Cynghorau Cymuned neu fodolau democrataidd eraill o gyfranogiad gan gymdogaethau.

Rydym yn ceisio barn ynghylch a allai cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol wneud mwy i fynegi gwerthoedd Awdurdodau Lleol a'u perthynas â phobl leol.

Rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch a oes achos, yn y tymor hwy, dros gynnal adolygiad sylfaenol o'r corff o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraeth Leol, gyda'r bwriad o'i symleiddio, gan sicrhau ei fod yn cefnogi sefydliadau hyblyg a gweithredol yn yr 21ain ganrif.

### 1.5 Adnewyddu Democratiaeth

Er mwyn i Lywodraeth Leol weithredu'n effeithiol, mae angen eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Dylai Aelodau Etholedig adlewyrchu'n gywir yr amrywiaeth o leisiau a dyheadau sydd yn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

Rydym yn bwriadu egluro mewn deddfwriaeth beth yw rolau a chyfrifoldebau'r Arweinydd, Aelodau Cabinet, Aelodau Etholedig a'r Prif Weithredwr. Byddwn yn cymryd camau pellach i gynyddu amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr. Byddwn yn cymryd camau i leihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth ym maes Llywodraeth Leol a sicrhau mwy o gysondeb wrth benodi uwch-swyddogion a phennu eu cydnabyddiaeth ariannol.

Rydym yn ceisio barn ynghylch a yw'r ffordd yr ydym yn digolledu Aelodau Etholedig ar hyn o bryd yn dal yn briodol, a ddylid cyfyngu ar nifer y tymhorau y caiff Aelod Etholedig wasanaethu ac a ddylid cyflwyno hawl i adalw Aelodau Etholedig. Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylid llacio'r cyfyngiadau sy'n atal rhai swyddogion Awdurdod Lleol rhag ymgeisio mewn etholiad. Yn olaf, rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai etholiadau Llywodraeth Leol barhau i ddigwydd bob pedair blynedd neu a ddylem ystyried opsiynau eraill.

### 1.6 Cysylltu â Chymunedau

Yr hyn sydd wrth wraidd ein gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yw perthynas newydd â chymunedau lleol. Rydym yn bwriadu sicrhau hynny drwy roi rôl arwain i Aelodau Etholedig ar frig Byrddau Ardal yn eu Hawdurdodau Lleol, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau newydd, mwy o faint yn nes at eu cymunedau.

Yn rhan o hynny mae angen inni godi lefel uchelgais Cynghorau Cymuned er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa well i ddarparu gwasanaethau cymunedol pwysig yn y dyfodol. Mae hynny'n golygu meithrin eu capasiti a'u gallu yn ogystal â chryfhau'r modd y cânt eu llywodraethu a'r modd y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill a'r trydydd sector. Rydym yn bwriadu rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol adolygu Cynghorau Cymuned er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, a chwblhau'r adolygiadau hynny erbyn 2022.

### 1.7 Grym i Gymunedau Lleol

Er mwyn gwireddu ein huchelgais, sef cael Awdurdodau Lleol sy'n rhannu grym a chyfrifoldeb yn weithredol, rydym yn egluro y rôl a welwn ar gyfer cydfuddiannaeth, cydweithio a chydberchnogaeth wrth drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn egluro'r modd y gall cymunedau ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol er mwyn ymdrechu ar y cyd, ac yn egluro'r modd y gall pobl warchod tir ac eiddo o werth cymunedol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn bwriadu cyflawni hynny drwy sicrhau bod cyrff cymunedol yn cael nifer o hawliau y gallant eu harfer yng nghyswllt gwasanaethau ac asedau.

### 1.8 Llywodraethu Corfforaethol a Gwella

Rydym o'r farn mai arweinyddiaeth â gweledigaeth a ffocws yw'r ffactor pwysicaf ar gyfer sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gallu darparu canlyniadau cynaliadwy i ardaloedd lleol. Er mwyn cyflawni hynny rhaid i Gynghorwyr gael cymorth gan dîm rheoli medrus, addasol a strategol. Rydym yn trafod sut y gallai Awdurdodau Lleol gael eu cynorthwyo orau i wella eu capasiti a'u gallu o ran arweinyddiaeth.

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol:

- cryfhau rôl Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol;
- diddymu Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- cyflwyno system o hunanasesu blynyddol, a ategir gan adolygiad bob dwy flynedd gan gymheiriaid, er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i wella eu gallu a'u capasiti corfforaethol;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiadau annibynnol o allu a chapasiti corfforaethol Awdurdodau Lleol ac, yn dibynnu ar y canfyddiadau, cymryd camau i gefnogi newid a gwelliant.

Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch a oes unrhyw elfennau o Fesur 2009 a ddylai gael eu hailddatgan yn y trefniadau newydd, ac a ellir eu cryfhau.

### 1.9 Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol

Rydym yn trafod y modd y caiff y gwaith o ddarparu gwasanaethau ei reoli a'i wella mewn Awdurdodau Lleol. Yr allwedd i hynny yw gwaith cynllunio corfforaethol effeithiol er mwyn llywio penderfyniadau a'r broses o ddatblygu polisi. Rydym yn ystyried pwysigrwydd gwybodaeth a data rheoli o safbwynt cynllunio gwasanaethau, rheoli perfformiad a galluogi gwaith asesu gan Bwyllgorau Craffu, y cyhoedd, cyrff adolygu allanol a rhanddeiliaid eraill.

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol:

- Gofyniad statudol i bob Awdurdod Lleol gynhyrchu a chyhoeddi cynllun corfforaethol sy'n ymdrin â'r tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Bydd hynny'n cael ei ategu gan ofyniad i'r Awdurdod Lleol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol sy'n nodi ei berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bydd y cynllun corfforaethol a'r Adroddiad Blynyddol yn ymgorffori amcanion llesiant yr Awdurdod, yn unol â bwriad Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Camau i greu un porth gwybodaeth ar-lein lle bydd gwybodaeth debyg yn cael ei chyhoeddi am berfformiad pob Awdurdod Lleol, yn ogystal â dogfennau allweddol eraill megis y cynllun corfforaethol, yr hunanasesiad, yr adolygiad gan gymheiriaid ac adroddiadau arolygu.
- Gofyniad statudol i bob Awdurdod Lleol gael proses gwyno ar-lein (ac fel arall). Byddwn yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am gwynion (lle bo hynny'n addas), gan gynnwys gwybodaeth am sut y cafodd cwynion eu hystyried a pha gamau gweithredu a gymerwyd.

### 1.10 Cryfhau Rôl Adolygu

Rydym yn trafod rôl craffu gan Aelodau Etholedig (adolygu mewnol) a chyrrff archwilio, arolygu a rheoleiddio (adolygu allanol) wrth gynorthwyo Awdurdodau Lleol i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer ardaloedd lleol. Nid ydym o'r farn bod prosesau adolygu mewnol ac allanol yn gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd. Rydym yn trafod sut y byddwn yn cryfhau adolygu mewnol er mwyn sicrhau ei fod yn cael mwy o effaith ar y broses o wneud penderfyniadau mewn Awdurdodau Lleol. Rydym hefyd yn trafod manteision rhannu gwybodaeth rhwng y gwahanol gyrff adolygu allanol ac ag adolygiadau mewnol.

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol:

- Mynnu bod Awdurdodau Lleol yn nodi'n rheolaidd y 'penderfyniadau allweddol' y byddant yn eu hystyried, er mwyn ei gwneud yn bosibl i adolygu mewnol gael ei gynllunio'n fwy effeithiol.
- Cryfhau gwaith blaengynllunio gan Bwyllgorau Craffu drwy fynnu eu bod yn cyfeirio at 'penderfyniadau allweddol' a chynlluniau corfforaethol a'u bod hefyd yn egluro beth y maent yn bwriadu craffu arno a phwy y byddant yn ymgysylltu â hwy wrth wneud hynny.
- Mynnu bod cyrrff adolygu allanol yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd ac â Phwyllgorau Craffu Lleol.
- Mynnu bod cyrrff adolygu allanol yn cydgysylltu eu gwaith yng nghyswllt Awdurdodau Lleol ac yn cynhyrchu asesiad cyfun o bob Awdurdod Lleol bob dwy flynedd.
- Mynnu bod cyrrff adolygu allanol yn cynhyrchu asesiad blynyddol ar y cyd o gyflwr Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch a ddylem gymryd camau pellach i ddiogelu annibyniaeth swyddogaethau Gwasanaethau Democraidd a'r cymorth y maent yn ei ddarparu ar gyfer cyfrifoldebau Aelodau Etholedig o ran craffu.

### 1.11 Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol

Rydym yn trafod sut y bydd angen i'r modd y caiff Llywodraeth Leol ei chyllido newid er mwyn cefnogi'r diwygiadau a nodir mewn manau eraill yn y Papur hwn ac er mwyn darparu fframwaith mwy effeithiol ar gyfer cyllido awdurdodau. Rydym hefyd yn trafod yr angen am drefniadau cyfrifyddu a llywodraethu ariannol cliriach a'r modd y gellid symleiddio'r rhain yn y dyfodol.

Rydym yn cynnig dull graddol o ddatblygu system gyllid ar gyfer Llywodraeth Leol sy'n addas i'r Awdurdodau newydd, a fydd yn y tymor byrrach yn cynnwys y newidiadau sy'n angenrheidiol i weithredu'r trefniadau uno a'r diwygiadau a gynigir yn y Papur .

Yn y tymor hwy rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch deddfwriaeth bellach a chyflwyno deddfwriaeth bellach er mwyn gweithredu newidiadau mwy sylfaenol i'r system gyllid ar gyfer Llywodraeth Leol. Bydd y dull gweithredu ar gyfer y tymor hwy yn ein galluogi i ddylunio system sy'n ystyried newidiadau ehangach i bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyfrifoldebau cyllidol, ac mae'n caniatáu i Awdurdodau Lleol gymryd eu camau eu hunain i godi mwy o'u cyllid eu hunain.

### 1.12 Casgliad

Mae'r rhaglen hon o ddiwygio Llywodraeth Leol yn rhaglen sylweddol ac fe'i cyfiawnheir gan faint y newid ariannol, cymdeithasol a thechnolegol yr ydym yn ei wynebu ar hyn o bryd. Mae'n ddechrau cyfnod newydd yn hanes Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Bydd ein deddfwriaeth arfaethedig yn cefnogi ac yn galluogi, ond bydd angen i Awdurdodau Lleol weithredu drostynt eu hunain a gweithio gyda chymunedau a Llywodraeth Cymru i ddechrau'r broses ddiwygio'n awr. Dyma ein cyfle i greu ynghyd Awdurdodau Lleol newydd ac iddynt athroniaeth a diben sy'n addas i'r 21ain ganrif. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hynny yw mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol a phobl Cymru.

## 2. Cydbwysu Cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol

Mae'r Bennod hon yn trafod y berthynas rhwng y gwahanol feysydd llywodraeth a geir yng Nghymru a'r modd y mae'r berthynas honno wedi datblygu ers datganoli ym 1999. Rydym yn egluro rôl Llywodraeth Cymru, sef gosod safonau a diffinio nifer cyfyngedig o ddisgwyliadau cenedlaethol. Rydym yn cadarnhau bod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod fframwaith ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Rydym yn archwilio rôl Llywodraeth Leol fel gweithredwr newid yn ei hardal, yn ei pherthynas â gwasanaethau cyhoeddus eraill ac ar lefel ranbarthol, yn enwedig dinas-ranbarthau.

Rydym yn egluro ein bwriad i ddeddfu er mwyn cwblhau'r rhaglen o uno Awdurdodau Lleol a dod â'r defnydd o'r enw 'bwrdeistref sirol' i ben. Rydym yn bwriadu rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol, a phŵer i sicrhau darpariaeth gyson o ran Cynghorau Cymuned neu fodolau democrataidd eraill o gyfranogiad gan gymdogaethau.

Rydym yn ceisio barn ynghylch a allai cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol wneud mwy i fynegi gwerthoedd Awdurdodau Lleol a'u perthynas â phobl leol.

Rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch a oes achos, yn y tymor hwy, dros gynnal adolygiad sylfaenol o'r corff o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraeth Leol, gyda'r bwriad o'i symleiddio, gan sicrhau ei fod yn cefnogi sefydliadau hyblyg a gweithredol yn yr 21ain ganrif.

### 2.1 Cyflwyniad

Os yw Llywodraeth Leol yng Nghymru am ymdrin â heriau'r genhedlaeth hon a'r genhedlaeth nesaf, rydym o'r farn bod angen diwygio pob agwedd ar y modd y mae'n gweithredu.

Mae gofyn i'r trawsnewidiad hwn ddechrau drwy egluro rôl Llywodraeth Leol yn rhan o'r system llywodraeth yng Nghymru, a'i pherthynas â Llywodraeth Cymru mewn setliad datganoli sy'n esblygu.

Yr hyn sydd wrth wraidd y berthynas hon, fel ym mhob gwlad lle ceir llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, yw i ba raddau y mae Llywodraeth Leol yn gwneud ei phenderfyniadau ei hun a pha mor atebol ydyw i bobl leol. Hefyd, i ba raddau y mae'n cyflawni cyfrifoldebau ar ran Llywodraeth Genedlaethol, ac y mae felly'n destun goruchwyliaeth. O safbwynt Llywodraeth Leol, dylai gwella a diwygio fod yn seiliedig i'r un graddau ar alw o du'r cyhoedd ac ar hwb o du'r Llywodraeth Genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu polisi cenedlaethol a chyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau allweddol megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwastraff a chynllunio. Mae'n gwneud hynny oherwydd bod gan bobl a theuluoedd ledled Cymru, ble bynnag y maent yn byw, hawl i'r un safonau uchel o ran gwasanaeth yn y meysydd pwysig hyn. Yng nghyswllt y gwasanaethau hyn, mae pobl Cymru yn disgwyl yn gywir ddigon i Lywodraeth Cymru osod safonau a monitro perfformiad. Os na chaiff y safonau hynny eu cyrraedd, mae'n rhaid dwyn Llywodraeth Leol i gyfrif ac mae'r cyhoedd yn disgwyl i Weinidogion Cymru ymyrryd er mwyn rhoi trefn ar bethau, gan weithredu'n fuan ac yn bendant (gweler 6.6 isod).

Mae'r un peth yn wir am y modd y mae Llywodraeth Leol yn gwneud penderfyniadau i wario arian cyhoeddus a'r modd y mae'n rhedeg ei busnes. Yn y lle cyntaf mae Cynghorwyr lleol a'u swyddogion *bob amser* yn gyfrifol am sicrhau bod eu Cyngor yn cael ei redeg yn gywir, yn onest, yn deg ac yn dryloyw. Yn gyffredinol mae hynny'n digwydd ledled Cymru. Os nad yw hynny'n digwydd caiff y sefyllfa ei chywiro'n aml drwy'r llysoedd, ond mewn rhai amgylchiadau bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymyrryd ar ran pobl leol er mwyn diogelu eu buddiannau ac adfer ymddiriedaeth mewn democratiaeth leol.

Mewn ardaloedd eraill, fodd bynnag, mae pobl am gael mwy o ddewis o lawer ynghylch eu blaenoriaethau lleol. Efallai na fydd yr hyn sy'n iawn i Ynys Môn yn iawn i Sir Benfro. Ac efallai na fydd yr hyn sy'n iawn i drigolion Aberdaugleddau yn iawn i drigolion Crymych. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i Lywodraeth Leol fod yn atebol i bobl leol am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a rhaid i bobl leol gael eu grymuso i wneud i hynny ddigwydd. Mae'r egwyddor hon o sybsidiaredd yn ymestyn i'r cyfrifoldeb sydd gan Lywodraeth Leol i sicrhau bod llywodraeth gymunedol effeithlon ac effeithiol yn cael ei darparu (gweler 4.8 isod).

## 2.2 Llywodraeth Leol a Datganoli

Mae Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu'r arweinyddiaeth sy'n angenrheidiol i wasanaethu pobl Cymru yn dda mewn amgylchedd gwleidyddol, cyfreithiol a chyfansoddiadol sy'n newid yn gyson.

Cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999, cynrychiolwyd Cymru yng Nghabinet Llywodraeth y DU gan un Ysgrifennydd Gwladol yn y Swyddfa Gymreig. O ddechrau'r Cynulliad, roedd perthynas agosach o lawer rhwng Gweinidogion Cymru ac arweinwyr Llywodraeth Leol.<sup>4</sup> Heddiw, mae gan y rhan fwyaf o'r Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru gyfrifoldebau portffolio sy'n dylanwadu ar Lywodraeth Leol.

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cydnabod, oherwydd natur y setliad datganoli ar y pryd, y byddai angen i'r Cynulliad a Llywodraeth Leol weithio mewn partneriaeth. Llwyddodd i gyflawni hynny drwy greu Cyngor Partneriaeth Cymru statudol a oedd yn cynnwys Aelodau Etholedig y Cynulliad a Llywodraeth Leol, a Chynllun Llywodraeth Leol lle mae'n rhaid i'r Cynulliad egluro sut y mae'n bwriadu cynnal a hybu Llywodraeth Leol yng Nghymru. Maes o law daeth y rhain yn gyfrifoldebau i Weinidogion Cymru.<sup>5</sup>

Mae'r dull hwn o weithredu mewn partneriaeth wedi'i gydnabod mewn ffyrdd eraill hefyd. Gan sylweddoli'r dryswch posibl a allai ddigwydd ynghylch llinellau cyfrifoldeb rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Leol, cafodd nifer o ddatganiadau polisi a chytundebau eu cwblhau ar hyd y blynyddoedd: *Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol (2002)*, *Rhannu Cyfrifoldeb (2007)* a *Compact ar gyfer Newid (2011)*.

Mae rheoli perfformiad yn ganolog i'r berthynas hon: "*Mae'r ffordd y caiff perfformiad llywodraeth leol ei ddiffinio, ei asesu a'i adrodd wrth wraidd y berthynas ganolog-leol*".<sup>6</sup> Felly,

4 *A new partnership? The National Assembly for Wales and Local Government*, Laffin, Taylor a Thomas, Sefydliad Joseph Rowntree, 2002

5 I gael rhagor o wybodaeth am y Cyngor Partneriaeth, gan gynnwys ei aelodau a'i bapurau, gweler <http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/pcfwr/?lang=cy>

6 Dysgu i Wella: Aseiad Annibynnol o Bolisiau Llywodraeth Cymru a Gyfer Llywodraeth Leol, 2007-2011, Ysgol Fusnes Caerdydd, Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013 <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/7945310/?lang=cy>



ers y Cynulliad cyntaf, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull o reoli perfformiad a gwelliant Llywodraeth Leol, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Chytundebau Canlyniadau a gaiff eu cymell gan grant.

Awdurdodau Lleol sy'n bendant yn gyfrifol am berfformiad a gwaith cyflawni effeithiol, a nhw sy'n gyfrifol hefyd am unrhyw fethiant o ran gwasanaethau neu fethiant corfforaethol. Yn rhy aml nid yw'r Weithrediaeth, yr uwch dîm rheoli na'r sawl sy'n gyfrifol am graffu wedi mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt droi'n fethiannau a nodwyd drwy waith archwilio neu arolygu. Mae hynny wedi arwain at ymyriadau dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Er ei bod yn anodd gweld y byddai'r cyhoedd yn derbyn unrhyw beth llai mewn amgylchiadau enbyd, dylid sicrhau mai'r cam olaf yn hytrach na'r cam cyntaf yw ymyrryd o ganlyniad i waith archwilio ac arolygu. Gwraidd y mater yw methiant arweinyddiaeth leol i roi systemau effeithiol ar waith ar gyfer llywodraethu, gwelliant a pherfformiad. Mae Penodau 6 i 8 isod yn egluro ein cynigion ar gyfer cryfhau'r gwaith o reoli perfformiad a gwelliant ym maes Llywodraeth Leol.

Wrth i'r gwaith o lywodraethu Cymru barhau i ddatblygu ac aeddfedu, ac o gofio'r bwriad i ddatganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad, mae'n bryd ailystyried cysylltiadau rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol. Rydym mewn sefyllfa sy'n wahanol iawn i 1999.

### 2.3 Rôl Bresennol Llywodraeth Leol

Ym Mhennod 1 eglurwyd sut y mae cyfrifoldebau Llywodraeth Leol wedi newid ar hyd y blynyddoedd. Câi lles, safonau addysg, cyflenwad o ddŵr glân neu fynediad i wasanaethau iechyd eu hystyried yn faterion lleol yn unig ar un adeg. Nid yw hynny'n wir erbyn hyn. Maent yn faterion sydd o ddi-ddordeb cenedlaethol ac, mewn rhai achosion, y ffordd orau o'u darparu erbyn hyn yw drwy sefydliadau cenedlaethol neu ranbarthol. Bydd y cwestiwn ynghylch beth a ddarperir orau'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol yn newid gydag amser wrth i gymdeithas newid, wrth i ddisgwyliadau newid ac wrth i dechnoleg drawsnewid y modd yr ydym yn byw ein bywydau.

Heddiw mae Awdurdodau Lleol yn arfer ystod o bwerau i wella llesiant yn ei hardal. Er enghraifft:

- Swyddogaethau a Phwerau gorfodol: dyma'r pethau y mae'n rhaid i Lywodraeth Leol eu gwneud, megis gwaith ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol, diogelu plant, casglu a gwaredu gwastraff, tai, cynllunio datblygu, gwasanaethau llyfrgell, yr amgylchedd a thrafnidiaeth leol.
- Pwerau disgresiwn: dyma'r pethau y caiff Llywodraeth Leol eu gwneud, megis hybu datblygu economaidd, y celfyddydau, diwylliant, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a thwristiaeth.
- Swyddogaethau a Phwerau rheoleiddio: dyma sut y mae Llywodraeth Leol yn diogelu'r cyhoedd drwy wasanaethau megis safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a gwaith trwyddedu taccis, yr hawl i werthu ac yfed alcohol, a gweithgareddau eraill.

Caiff cyfrifoldebau Llywodraeth Leol eu gosod mewn statud ond nid ydynt yn sefydlog. Yn hytrach maent yn ansefydlog – maent yn gallu newid ac, yn wir, maent yn newid gydag amser. Mae'n rhesymol ac yn angenrheidiol gofyn o dro i dro a allai rhai o'r gwasanaethau hynny gael eu darparu'n well mewn ffordd wahanol. Ym maes addysg, er enghraifft, mae anghenion pob plentyn unigol yn unigryw ond nid yw hawliau addysgol plant yn Sir y Fflint a

Sir Fynwy yn unigryw. Rhaid i addysg gael ei darparu'n lleol, mewn ysgolion a gaiff eu staffio gan athrawon lleol, ond nid oes cymaint o reswm i dybio na ddylai gwasanaethau addysgol gael eu comisiynu'n rhanbarthol neu'n genedlaethol. Gellid dweud yr un peth am wasanaethau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau gwastraff.

Ni all unrhyw weledigaeth ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru gael ei chywasgu i un set o gyfrifoldebau neu ymreolaeth dybiedig syml. Y ffactor unigol pwysicaf er mwyn i Lywodraeth Leol yng Nghymru fod yn llwyddiannus yn y genhedlaeth nesaf yw ansawdd arweinyddiaeth. Nid deddfwriaeth yw ateb i sicrhau arweinyddiaeth o safon, ond gallwn ddeddfu i sicrhau bod Arweinwyr Awdurdodau Lleol yn cael pob cyfle i arwain yn effeithiol, a sicrhau bod cymorth effeithiol ar gael i'w galluogi i ddatblygu a thyfu fel arweinwyr.

## 2.4 Cydweithio

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cydnabuwyd yn gynyddol bod angen i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, os ydym am deilwra gwasanaethau o amgylch unigolion, gydweithio â'i gilydd a chydweithio â darparwyr o wasanaethau eraill a'r trydydd sector, gan chwalu rhwystrau diangen a rhoi'r gorau i weithio ar wahân i'w gilydd, fel sydd wedi digwydd yn draddodiadol. Mae'r 'Tîm o amgylch y Teulu' yn un o enghraifft o hynny. Mae'r model hwn yn dod ag ystod eang o weithwyr proffesiynol ynghyd i weithio gyda theulu er mwyn helpu'r sawl dan sylw i fynd i'r afael â'r holl heriau y maent yn eu hwynebu. Canolbwyntir ar weithio gyda'r teulu cyfan; mae rhieni, gofalwyr a'r teulu ehangach yn chwarae rôl ganolog yn yr holl broses. Mae angen inni gyflwyno'r arddull gweithredu hwn i wahanol wasanaethau er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio i ddiwallu anghenion pobl.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy fynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr angen i fabwysiadu dull integredig o weithredu a'r angen i weithio'n gydweithredol er mwyn dod o hyd i atebion a rennir ar gyfer pobl a chymunedau. Mae Llywodraeth Leol yn arfer llawer o bwerau, ond yn aml rhaid iddi wneud hynny mewn partneriaeth. Mae hynny'n hanfodol wrth inni ganolbwyntio'n gynyddol ar sicrhau mai gweithio gyda phobl cyn iddynt wynebu anhawster neu argyfwng, neu cyn i'w hiechyd ddirywio'n ddifrifol yw'r ffordd o wella bywydau pobl, atal niwed a lleihau galw diangen am wasanaethau costus.

Ar hyn o bryd, daw'r prif wasanaethau cyhoeddus ynghyd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, dan arweinyddiaeth yr Awdurdod Lleol, i ddatblygu cynllun integredig sengl ar gyfer eu hardal. Mae hynny'n galluogi partneriaid i gytuno ar eu hamcanion cyffredin, hynny yw eu blaenoriaethau strategol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella llesiant yn yr ardal. Mae hynny'n hollbwysig er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn tynnu i'r un cyfeiriad ac yn deall eu rôl.

O ddydd i ddydd, fodd bynnag, rheolwyr a staff rheng flaen sy'n gyfrifol am gydweithio. Mae gofalu am ein poblogaeth sy'n heneiddio'n golygu bod angen i Lywodraeth Leol a'r GIG gydweithio fel un tîm. Ni allwn sicrhau bod ein cymunedau'n lleoedd diogel i fyw ynddynt oni bai bod Llywodraeth Leol, yr Heddlu ac eraill yn cydweithio'n agos ar faterion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelu plant, atal pobl ifanc rhag mynd ar goll, rheoli traffig, a rheoli canol trefi yn ystod gwyliau a digwyddiadau mawr. Caiff gwasanaethau o bwys eu darparu'n aml gan gyrff yn y trydydd sector, felly mae angen iddynt hwythau hefyd fod yn rhan o drafodaethau.

Yn ogystal, mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio y tu ôl i'r llenni i wneud gwasanaethau'n fwy cost-effeithiol, er enghraifft, drwy ddod ynghyd i rannu eu pwerau prynu drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel y gall y nwyddau a'r gwasanaethau y maent i gyd yn eu defnyddio gael eu prynu am y pris gorau – megis TGCh, cerbydau, ynni, gwasanaethau adeiladu a gwasanaethau proffesiynol. Mae'r broses o gydgyssylltu gwaith cyflawni'n gwella, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi sail statudol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gwaith cynllunio ar gyfer Llesiant Lleol. Mae Deddfau eraill y Cynulliad, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn rhoi gofynion penodol ar Lywodraeth Leol i gydweithio â phartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau i grwpiau penodol.

Bydd hynny'n adeiladu ar waith ac yn atgyfnerthu gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes – megis y gwaith a arweinir gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd y gellir eu sicrhau drwy weithio gydag Awdurdodau Lleol ac ar eu traws i gydgyssylltu gwaith ar ddatblygu economaidd ac i ddarparu gwasanaeth gwell i fyd busnes.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn anodd. Mae'n gofyn am ymddiriedaeth rhwng arweinwyr, rheolwyr a staff rheng flaen mewn gwahanol sefydliadau. Mae angen i bobl ddatblygu sgiliau newydd a deall anghenion defnyddwyr gwasanaeth, ac anghenion eu teuluoedd neu'u gofalwyr, yn fanwl iawn. Mae problemau ymarferol yn gysylltiedig â rhannu gwybodaeth, cael systemau i siarad â'i gilydd, a dod o hyd i ffyrdd effeithiol o gyfeirio pobl o'r naill sefydliad i'r llall gan sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth di-dor. Ceir heriau o ran rheoli pan fydd staff o wahanol sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd yn yr un lle. Ceir problemau llywodraethu a phroblemau ariannol oherwydd bod cydweithio yn herio'r modd yr ydym yn rheoli arian cyhoeddus, er enghraifft, pan fydd camau gweithredu un sefydliad yn lleihau costau i sefydliad arall. Mae'n gofyn am ffyrdd newydd o ddwyn gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif drwy graffu democrataidd, nid yn unig yng nghyswllt yr hyn y mae pob sefydliad wedi'i wneud ond hefyd yng nghyswllt y modd y maent wedi gweithredu gyda'i gilydd er budd y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Leol yn chwarae rôl ganolog yn y cyd-destun hwn. Mae ei dilysrwydd democrataidd a'i rôl o ran llunio lleoedd yn rhoi i Lywodraeth Leol yr awdurdod o ran arweinyddiaeth i alw partneriaid ynghyd, trefnu cydberthnasau a datrys problemau.

## 2.5 Gweithio'n Rhanbarthol a Dinas-ranbarthau

Yn ogystal â chydweithio â gwasanaethau eraill mewn ardal leol, rhaid i Lywodraeth Leol fynd ati'n gynyddol i ddarparu arweinyddiaeth ac arfer pwerau y tu hwnt i ffiniau Awdurdodau Lleol unigol, fel gweithredwr newid rhanbarthol.

Mae'r dull hwn o weithio'n rhanbarthol yn digwydd eisoes wrth gomisiynu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cefn swyddfa, megis gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau mabwysiadu a maethu, gwasanaethau i leihau troseddau ieuencid ac achosion o gamdefnyddio sylweddau, gwasanaethau ar gyfer plant sydd ar goll, gwasanaethau priffyrdd a gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r tuedd hwn barhau ac i rai gwasanaethau a rennir gael eu comisiynu'n genedlaethol neu'n rhanbarthol ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan os yw hynny'n gwneud synnwyr ariannol, a gallai hynny gynnwys datblygu rhithwasanaethau a rennir a rhithwasanaethau cefn swyddfa. Yn adran 8.6 rydym yn trafod trefniadau atebolrwydd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol.

Yn dilyn Adolygiad Hill<sup>7</sup> ynghylch strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, datblygodd Llywodraeth Cymru fodel cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol a chytunodd arno. Yn sgil hynny, caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu darparu'n rhanbarthol ym maes addysg drwy bedwar consortiwm yn hytrach na 22 o Awdurdodau Lleol unigol. Rydym yn disgwyl i hynny arwain at allu a chapasiti gwell ar lefel uwch ac arwain at arbedion a gyfeirir at y rheng flaen neu at hybu gweithgareddau addysg.

Mae rôl ranbarthol Llywodraeth Leol o bwys arbennig yng nghyd-destun dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â dinas-ranbarthau.

Datblygu trefol a thwf dinasoedd yw nodwedd fwyaf arwyddocaol yr economi fyd-eang yn ein cenedlaeth ni. Ers 1950 mae poblogaeth ardaloedd trefol wedi tyfu dros bum gwaith, o 746 miliwn i 3.9 biliwn.<sup>8</sup> Erbyn hyn mae 54% o boblogaeth y byd yn byw mewn ardaloedd trefol, a disgwylir i'r gyfran honno gyrraedd 66% erbyn 2050. Yn y cyfamser disgwylir i dwf poblogaeth ardaloedd gwledig ostwng ar ôl 2020.

Ceir tystiolaeth gynyddol bod buddsoddi yn y dinasoedd mwyaf, megis Llundain, ar draul ail ddinasoedd, gan gynnwys y rheini sydd yng Nghymru, yn arwain at berfformiad economaidd gwaeth yn gyffredinol ac yn dwysáu anghydraddoldebau rhanbarthol, yn enwedig yn ystod cyfnod o ddirywiad economaidd.<sup>9</sup> Mae grŵp 'dinasoedd craidd'<sup>10</sup> y DU yn cynnwys Caerdydd. Mae'r 'dinasoedd craidd' hyn yn ganolfannau ffyniant economaidd rhanbarthol, ac mae'r rhanbarth sydd o'u hamgylch nid yn unig yn dibynnu arnynt ond hefyd yn darparu gweithlu symudol a chefnwlad ddeniadol ar eu cyfer. Ceir lefelau uchel o amddifadedd ynddynt i gyd, naill ai yn y dinasoedd eu hunain neu yn y rhanbarth sydd o'u hamgylch, sy'n waddol buddsoddiad anghyfartal yn dilyn cylchoedd blaenorol o dwf a dirywiad diwydiannol. O gael buddsoddiad newydd disgwylir mai'r ail ddinasoedd hyn fydd prif ffynhonnell swyddi newydd a thwf yn ystod y genhedlaeth newydd.

Yng Nghymru mae'r boblogaeth drefol wedi'i chanoli yn y de a cheir canolfannau llai o faint ar hyd arfordir y gogledd ac yn y gogledd-ddwyrain. Ni cheir unrhyw drefi â phoblogaeth sydd dros 25,000 yn y canolbarth, nac i'r gorllewin o Fae Colwyn yn y gogledd nac i'r gorllewin o Lanelli yn y de. Dinasoedd metropolitaidd Cymru (sydd wedi datblygu ochr yn ochr â dinasoedd hanesyddol Llanelwy, Bangor a Thyddewi) yw Caerdydd (sydd â phoblogaeth o 350,000), Abertawe (sydd â phoblogaeth o 240,000) a Chasnewydd (sydd â phoblogaeth o 146,000). Yn y gogledd-ddwyrain dim ond poblogaeth o 66,000 sydd gan ardal drefol fwy o faint Wrecsam, ond gellir ei hystyried yn rhan o ranbarth trefol trawsffiniol ehangach sy'n cynnwys Glannau Dyfrdwy, Caer a Wirral.

Yn ôl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ddinas-ranbarthau yng Nghymru, dim ond 33% o'n cyfoeth y mae dinasoedd yn ei gynhyrchu, sef y gyfran isaf o bell ffordd ymhlith holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU.<sup>11</sup>

7 Adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol, Llywodraeth Cymru, 2013  
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/futuredelivery/?lang=cy>

8 World Urbanization Prospects, 2014 Revision, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenedloedd Unedig  
<http://esa.un.org/unpd/wup/>

9 Gweler, er enghraifft, European Second Tier Cities in Austerity: Why Invest Beyond the Capital?, Prifysgol John Moores Lerpwl, 2012 <https://jmu.ac.uk/EIUA/second-tier-cities/index.htm>

10 <http://www.corecities.com/>

11 City Regions: Final Report, Llywodraeth Cymru, 2012 (Adroddiad Cymru ar gael yn Gymraeg: Dinas-ranbarthau: Adroddiad Cryno Terfynol). <http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/policy/city-regions/?lang=en>

Fodd bynnag, mae bron 69% o boblogaeth Cymru yn byw yn y dinas-ranbarthau a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ym Mae Abertawe (700,000) ac yn y de-ddwyrain (1.4 miliwn), a cheir potensial sylweddol i wella perfformiad economaidd yn yr ardaloedd hyn o gael polisiau priodol.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn y byddai tri phrif fudd i'w cael o sefydlu dau ddinas-ranbarth yn y de, ac o ystyried rhannau o'r gogledd-ddwyrain yn rhan o ranbarth trawsffiniol ehangach:

- marchnadoedd llafur mwy o faint a mwy effeithlon, gan wella'r tebygolrwydd o gael cyfatebiaeth dda rhwng anghenion cyflogwyr a sgiliau gweithwyr;
- darpar farchnadoedd mwy ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gan fod gweithgareddau wedi'u crynhoi ac arbedion cost o ran trafniadaeth; a gwell trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, syniadau ac arloesedd;
- byddai dull gweithredu dinas-ranbarthau yn ei gwneud yn bosibl i wahanol rannau o'r rhanbarth benderfynu arbenigo mewn arlwy penodol – boed hynny ym maes tai, cyfleusterau gweithgynhyrchu, gwasanaethau busnes neu gyfleusterau hamdden.

Nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mai'r allwedd i berfformiad economaidd gwell yn y rhanbarthau hyn yw integreiddio datblygu economaidd, sgiliau, adfywio, trafniadaeth, cynllunio a'r amgylchedd. Bydd hynny'n golygu bod angen i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r sector preifat a'r trydydd sector gydweithio'n agos â'i gilydd.

I alluogi hynny, mae Llywodraeth Leol wedi cymryd rôl arweiniol drwy weithredu ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae Byrddau Dinas-ranbarthau wedi'u sefydlu yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen. Mae'r Byrddau hyn yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ac maent yn gwneud cynnydd da o ran darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol i'w rhanbarthau perthnasol. Byddant yn parhau i bennu a mireinio eu blaenoriaethau wrth iddynt geisio canolbwyntio ar y prosiectau hynny lle mae cysoni a chydweithredu rhanbarthol yn esgor ar werth strategol a gwerth ychwanegol.

Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r agenda sy'n ymwneud â Dinas-ranbarthau yn agenda 'busnes fel arfer' ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'n gofyn am bartneriaeth gydweithredol a arweinir gan fyd busnes – sy'n cysylltu'r sector preifat â'r sector cyhoeddus a'r sector addysg. Mae'n gofyn am fath gwahanol o arweinyddiaeth, un sy'n edrych y tu hwnt i fuddiannau plwyfol, sy'n barod i gyfnewid manteision a chostau ar draws ffiniau ac sy'n symud gyda'r cyflymaf yn hytrach na'r rhai mwyaf araf. Rhaid i Awdurdodau Lleol gydweithio â'i gilydd a chydweithio â'u partneriaid ar faterion megis y cynllun datblygu strategol rhanbarthol a gynigir dan Fil Cynllunio (Cymru), addysg a sgiliau, a'r gwaith o wneud ein dinasoedd a'r rhanbarthau sydd o'u hamgylch yn lleoedd deniadol ar gyfer eu trigolion, ymwelwyr a buddsoddiad gan fyd busnes, gan ddefnyddio'r pwerau helaeth sydd ganddynt.

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn bosibl creu Awdurdodau Cyfunol dan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009. Ceir pum Awdurdod o'r fath yn Lloegr ar hyn o bryd: Manceinion Fwyaf, Dinas-ranbarth Sheffield, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Dinas-ranbarth Lerpwl a Gorllewin Swydd Efrog, a bwriedir creu Awdurdod Cyfunol arall ar gyfer Birmingham yn 2015. Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru bwerau helaeth eisoes i ymrwymo i drefniadau cydweithredol ag Awdurdodau eraill. O ystyried y rheini ar y cyd â'r bwriad i uno

mwy o faint yng Nghymru, fframwaith Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r ffaith bod y Llywodraeth Genedlaethol yn nes at Lywodraeth Leol yng Nghymru, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen Awdurdodau Cyfunol yng Nghymru ar hyn o bryd, fel y diffinnir dan Ddeddf 2009.

## 2.6 Fframwaith Cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod cyd-destun newydd ar gyfer cysylltiadau rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol, a gwasanaeth cyhoeddus cyfan Cymru. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer nodau llesiant sy'n gosod fframwaith lle bydd Gweinidogion Cymru yn pennu cyfeiriad strategol cenedlaethol a lle bydd Llywodraeth Leol yn pennu ei hamcanion lleol a fydd yn ymateb i angen lleol ac a fydd yn rhwym wrth atebolrwydd lleol.

Mae'r Bil yn ategu'r agenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus, gan nodi'n glir sut y bydd cyrff cyhoeddus dynodedig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Leol, yn gweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cenedlaethol a lleol. Mae'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â swyddogaeth, yn hytrach na ffurf, gan sefydlu pum ffordd o weithio sy'n allweddol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwella llesiant mewn modd cynaliadwy:

- Meddwl am y tymor hir – cydbwysu'r angen i weithredu yn y tymor byr â'r angen i ddiwallu anghenion tymor hir Cymru, yn enwedig os gallai camau gweithredu tymor byr gael effaith niweidiol yn y dyfodol.
- Dull gweithredu integredig – ystyried sut y mae amcanion corff cyhoeddus yn effeithio ar y nodau llesiant ac ar lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Camau atal – gweithredu'n awr er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- Cydweithredu – gweithredu mewn modd cydweithredol gyda chyrff eraill er mwyn cynorthwyo i gyflawni amcanion y corff, neu amcanion corff arall.
- Cynnwys pobl – cynnwys y bobl a'r cymunedau y caiff eu llesiant ei ystyried, a'u cael i ymwneud â dod o hyd i atebion cynaliadwy.

Mae'r Bil yn cryfhau rôl Llywodraeth Leol o ran arweinyddiaeth gymunedol drwy roi pwys ar gydweithredu ar sail lle. Bydd yn mynnu bod gwasanaethau cyhoeddus mewn ardal Awdurdod Lleol yn cydweithio drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant lleol. Bydd Cynghorau uchelgeisiol yn defnyddio'r Bwrdd i hybu'r trawsnewid radical y mae ei angen ar draws gwasanaethau cyhoeddus drwy ymgysylltu'n llawn â'r gymuned. Yn bwysicach na dim, mae Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn atebol yn lleol am eu cyfrifoldebau dan y Bil. Ni cheir unrhyw gytundebau y daethpwyd iddynt â Gweinidogion Cymru ac mae ymyrraeth Weinidogol wedi'i chyfyngu i amgylchiadau enbyd.

Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn cysylltu blaenoriaethau lleol yn y strategaeth gymunedol â gwelliant Awdurdod Lleol o safbwynt corfforaethol ac o safbwynt gwasanaethau. Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn disodli'r Mesur drwy ddarparu dull gweithredu symlach a mwy integredig, sy'n ymdrin â gwasanaeth cyhoeddus cyfan.

Mae'r Bil yn paratoi'r ffordd er mwyn i Lywodraeth Leol weithredu'n fwy hunanlywodraethol, lle caiff ei mesur ar sail y canlyniadau y bydd yn eu cyflawni a lle bydd yn adrodd ynghylch llai o ddangosyddion. Fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng hunanlywodraeth ac atebolrwydd priodol. Mae'r Papur Tudalen 62

drwy sicrhau bod Cabinetau Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau mewn modd mwy tryloyw (Pennod 3), sicrhau rôl gryfach i Aelodau Etholedig (Pennod 4), rhoi mwy o lais i gymunedau ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu darparu a chan bwy (Pennod 5), cryfhau gwaith llywodraethu corfforaethol (Pennod 6), rheoli perfformiad yn fwy effeithiol (Pennod 7) a chydgyssylltu prosesau adolygu mewnol ac allanol yn well drwy waith arolygu ac archwilio (Pennod 8). Rydym hefyd yn trafod fframwaith cyllid newydd ar gyfer Llywodraeth Leol (Pennod 9).

Rydym yn gobeithio y bydd y gwelliannau hyn yn cynorthwyo arweinwyr lleol i fynd i'r afael â materion cyn iddynt droi'n argyfwng. Rydym o'r farn bod y cyhoedd yn haeddu dim llai nag arweinyddiaeth leol ragweithiol o'r radd flaenaf, sy'n meddwl ymlaen llaw am bethau ac sy'n cymryd camau gweithredu pendant. Fodd bynnag, os bydd methiannau'n parhau i ddigwydd ac os bydd arweinwyr lleol yn methu â chymryd camau i'w cywiro, bydd y cyhoedd yn dal i ddisgwyl i Weinidogion Cymru ymyrryd gan weithredu'n fuan ac yn bendant.

Rydym yn cynnig perthynas sydd wedi'i diffinio'n well rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol, lle mae gan Lywodraeth Cymru rôl arwain sydd wedi'i diffinio'n glir ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol, datblygu economaidd a'r amgylchedd, ar sail nifer cyfyngedig o ddisgwyliadau cenedlaethol sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau. Er enghraifft, ym maes addysg, gallai'r rheini gael eu mynegi fel y disgwyliad y bydd gan bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol gynradd lefelau llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'w hoedran ac, mewn ysgol uwchradd, y bydd cyfran gynyddol o bobl ifanc yn ennill pum cymhwyster TGAU da sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg ac y bydd y bwlch rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn cael ei gau. Mewn meysydd eraill, er y bydd Llywodraeth Cymru efallai'n pennu dyheadau clir, mater i Lywodraeth Leol fydd pennu blaenoriaethau lleol.

Rydym o'r farn bod gennym dystiolaeth eisoes yng Nghymru bod y broses o bennu disgwyliadau cenedlaethol syml wedi arwain at berfformiad gwell ac ymatebolrwydd i anghenion cymunedau lleol a defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, yn sgil datblygu Safon Ansawdd Tai Cymru, cynhaliwyd pleidleisiau cyfrinachol lle dewisodd tenantiaid hanner Awdurdodau Lleol Cymru drosglwyddo stoc tai'r Awdurdod Lleol i Gwmnïau Tai Cymunedol Cydfuddiannol neu fentrau cymdeithasol eraill ar ffurf Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Yn yr Awdurdodau hynny mae cynnydd wedi'i wneud yn gynt ar gyfartaledd o safbwynt ennill statws Safon Ansawdd Tai Cymru – tair i bum mlynedd yn gynt yn gyffredinol – gan arwain at fanteision gwirioneddol i denantiaid. Mae llawer o'r Cwmnïau Tai Cymunedol Cydfuddiannol a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hynny, yn eu rhinwedd eu hunain, wedi sbarduno cyflogaeth leol ac ystod ehangach o fanteision cymunedol ac wedi creu mentrau cymdeithasol eraill sy'n ymwneud â rheolaeth amgylcheddol, gwaith prynu ynni cymunedol neu waith adfywio canol trefi. Maent hefyd wedi medru ysgogi symiau sylweddol o gyllid amgen er mwyn adnewyddu eu stoc eu hunain.

Ceir sefyllfa debyg yng nghyswllt gwastraff. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am gasglu a phrosesu pob math o wastraff domestig ond caiff targedau eu pennu'n genedlaethol. Dan ein strategaeth *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £676 miliwn mewn Awdurdodau Lleol ers 2001 i'w helpu i gyflawni yn erbyn targedau ailgylchu, gan helpu i arbed costau tirlenwi ac i gynhyrchu swyddi newydd yng Nghymru. Mae'r cynnydd a wnaed ganddynt wedi bod yn drawiadol ac mae'r gyfradd gyffredinol ar gyfer ailgylchu wedi dyblu, fwy neu lai, yn ystod cyfnod o saith mlynedd. O fod mewn sefyllfa wael o gymharu â gweddill y DU, mae ailgylchu yng Nghymru ar y blaen erbyn hyn i gychwilio i gredloedd eraill y DU ac mae'r bwlch

rhyngddynt a Chymru yn llydan ac yn tyfu. Yn ogystal mae Cymru yn y pedwerydd safle yn Ewrop o safbwynt ailgylchu trefol. Mae gan Gymru eisoes 10,000 o swyddi sydd â chysylltiad uniongyrchol ag ailgylchu. Mae hynny wedi'i gyflawni drwy gyfuniad o waith buddsoddi, targedau, y risg o gael dirwyon, a newid mewn ymddygiad.<sup>12</sup>

Bydd y Cyngor Partneriaeth Cymru a Chynllun Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hybu'r agenda hon ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y dylai ein ffocws yn y Cyngor Partneriaeth a'r Cynllun Llywodraeth Leol newid i'r gwaith o asesu'r disgwyliadau cenedlaethol allweddol a'r strategaethau ar gyfer chyflawni'r rheini fel un gwasanaeth cyhoeddus, a'r gwaith o reoli'r arferion cydweithredol sy'n datblygu rhwng Awdurdodau Lleol, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru, wrth ddarparu gwasanaethau corfforaethol megis swyddogaethau cefn swyddfa, gwasanaethau caffael, gwasanaethau TGCh, gwasanaethau adnoddau dynol a gwasanaethau'r gyflogres, lle disgwylir yn gyffredinol i Awdurdodau Lleol gydweithredu. Bydd gan y Cyngor Partneriaeth rôl allweddol i'w chyflawni o safbwynt meithrin arloesedd a hybu cynnydd o ran yr agenda ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

## 2.7 Ardaloedd Awdurdodau Lleol

Argymhellodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru drwy gyfres o drefniadau uno. Cafodd y dadleuon o blaid yr argymhelliad hwn a thystiolaeth ategol eu hegluro'n helaeth yn adroddiad y Comisiwn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y dadleuon hyn mewn Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Diwygio Llywodraeth Leol*. Roedd y Papur Gwyn yn egluro'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar hyn o bryd, sef uno Awdurdodau Lleol ar sail Opsiwn 1 y Comisiwn, a fyddai'n arwain at 12 o Awdurdodau newydd.<sup>13</sup>

Cafwyd 170 o ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac adroddiad cryno wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.<sup>14</sup> Er y ceir safbwyntiau amrywiol ynghylch y trefniadau uno, yn enwedig gan rai Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ceir cred gyffredinol hefyd bod gwaith diwygio'n angenrheidiol. Mae hynny'n atgyfnerthu'r dystiolaeth a roddwyd i'r Comisiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y safbwyntiau hyn ac mae'n parhau i gredu'n bendant ei bod yn angenrheidiol diwygio Llywodraeth Leol o safbwynt strwythurol ac o safbwynt trefniadaethol.

Ym mis Medi cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen *Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol*.<sup>15</sup> Derbyniodd Llywodraeth Cymru dri datganiad o ddiddordeb gan yr Awdurdodau Lleol canlynol: Conwy a Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, a Blaenau Gwent a Thorfaen. Penderfynwyd peidio â pharhau gyda'r un o'r cynigion hyn.

<sup>12</sup> <http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/recycling/?lang=cy>

<sup>13</sup> Byddai Opsiwn 1, fel y cafodd ei nodi gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn golygu uno'r Awdurdodau Lleol canlynol: Gwynedd/Ynys Môn, Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint/Wrecsam, Ceredigion/Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot/Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf/Merthyr Tudful, Blaenau Gwent/Torfaen/Caerffili, Sir Fynwy/Casnewydd, Caerdydd/Bro Morgannwg. Gadael yr Awdurdodau Lleol canlynol fel y maent: Powys, Sir Gaerfyrddin, Abertawe.

<sup>14</sup> <http://cymru.gov.uk/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?lang=cy>

<sup>15</sup> <http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/reforming-local-government/?lang=cy>



Bwriad Llywodraeth Cymru yw bwrw ymlaen â threfniadau pellach ar gyfer uno Awdurdodau Lleol, drwy'r ail Fil Llywodraeth Leol a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod hydref 2016.

Bydd yr ail Fil yn nodi'r darpariaethau canlynol er mwyn galluogi trefniadau uno trefnus:

- y dyddiad y daw Awdurdod newydd i fodolaeth, a'i enw a'i statws;
- y trefniadau etholiadol ar gyfer Awdurdod newydd, dyddiad yr etholiadau cyntaf a hyd tymor y Cynghorwyr a etholir yn yr etholiadau cyntaf ac wedi hynny;
- proses sefydlu, cyfansoddiad a swyddogaethau Awdurdod cysgodol a Gweithrediaeth gysgodol;
- trefniadau ar gyfer diddymu Awdurdodau cyfredol a galluogi Cynghorwyr yr Awdurdodau hynny i ymddiswyddo;
- trefniadau ar gyfer canslo etholiadau Awdurdodau cyfredol;
- trefniadau ar gyfer gohirio etholiadau Cynghorau Cymuned mewn ardaloedd y mae'r trefniant uno arfaethedig yn effeithio arnynt, ac ymestyn tymhorau'r Cynghorwyr Cymuned presennol;
- y ddyletswydd ar Awdurdodau cyfredol i gydweithredu wrth baratoi ar gyfer yr Awdurdod newydd a gweithio gyda'i Awdurdod cysgodol neu'i Weithrediaeth gysgodol;
- trefniadau ar gyfer trosglwyddo eiddo'n amserol a sicrhau parhad hawliau a rhwymedigaethau;
- materion sy'n ymwneud â staff; a
- materion ariannol.

Mae gan Lywodraeth Leol hefyd rôl, a chyfrifoldeb moesol, i sicrhau ei bod yn gweithredu yn gadarnhaol mewn ffyrdd sy'n cefnogi uno Awdurdodau yn drefnus er lles eu cymunedau lleol. Bydd Awdurdodau Lleol wedi'u huno yn parhau i fod yn rhwym wrth Safonau'r Gymraeg a bennir drwy reoliad dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n bosibl y bydd Awdurdodau sy'n uno wedi cyrraedd cyfnodau gwahanol o safbwynt eu harferion a'u dyheadau presennol ynghylch y defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithredu, hyrwyddo'r iaith a chadw cofnodion. Ble mae hyn yn wir, mae'n hollbwysig fod yr Awdurdod cyfunol newydd yn rhwym wrth y safonau uwch. Y mae cyfle i Awdurdodau ar draws Cymru fod yn sylweddol fwy uchelgeisiol o safbwynt yr Awdurdodau newydd. Bydd lle i Gomisiynydd y Gymraeg fonitro safonau yn ystod y cyfnod o uno ac fe all fod rôl i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler 2.9 isod) adnabod arfer gorau yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg a materion gweithlu.

## 2.8 Statws yr Awdurdodau Newydd

Bydd yr Awdurdodau newydd yn Brif Gynghorau yn ôl ystyr Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylent fod yn gyrrff corfforaethol a elwir yn "Siroedd" ac na ddylai'r term "Bwrdeistref Sirol" gael ei ddefnyddio mwyach. I'r rhan fwyaf o bobl, collwyd y gwahaniaeth hanesyddol rhwng yr enwau hyn flynyddoedd yn ôl.

Rydym yn cydnabod bod cadeirydd y Cyngor neu'r Maer yn chwarae rôl ddinesig bwysig mewn llawer o ardaloedd wrth ymgymryd â ddyletswyddau seremonïol. Yn y gorffennol, cyfyngwyd y gallu i enwi cadeirydd y Cyngor yn Faer i Gynghorau Bwrdeisdref yn unig, felly rydym yn

bwriadu gwneud darpariaeth gyfreithiol a fydd yn nodi y dylai unrhyw un o'r Cynghorau newydd fod yn gallu enwebu cadeirydd y Cyngor yn Faer, er mwyn i'r swyddogaeth bwysig hon allu parhau.

Wrth gwrs, mae'r rôl hon yn wahanol i rôl Maer Etholedig sy'n ffurf ar strwythur gweithredol y gall Awdurdod Lleol ddewis ei fabwysiadu'n dilyn refferendwm ymhlith pobl leol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## 2.9 Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y gweithlu ym maes Llywodraeth Leol yn allweddol i'r trawsnewid yr ydym yn ceisio ei sicrhau. Ein gweledigaeth ar gyfer y gweithlu ym maes gwasanaethau cyhoeddus yw creu gweithlu llawn diddordeb, brwdfrydig a llwyddiannus, denu a chadw talent, datblygu'r sgiliau cywir a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth, a ategir gan ein dull gweithredu ar sail partneriaeth gymdeithasol, a ymgorfforir yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu.<sup>16</sup>

Rydym yn bwriadu deddfu i greu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol yn yr ail Fil Llywodraeth Leol. O ystyried maint y trawsnewid sydd ei angen ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys uno Awdurdodau Lleol, rydym o'r farn bod angen cymryd camau cydweithredol ar frys i gynllunio'r gweithlu. Er mwyn cyflawni hynny, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n ddiweddar ynghylch sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus anstatudol ym mis Ebrill 2015. Ei rôl fydd sicrhau tegwch a chysondeb a bod yn ffynhonnell annibynnol a diduedd o wybodaeth a chyngor. Bydd y Comisiwn yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio pwerau dan adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd yr ymgynghoriad diweddar ar ffurf Papur Gwyn yn nodi ein cynigion ynghylch Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai ei gylch gorchwyl yn cynnwys adnabod a chynnig atebion ymarferol i broblemau sy'n codi o waith diwygio, y gellid eu hystyried a'u gweithredu. Mae'r ystod o sgiliau a phrofiad y bydd eu hangen ar y Comisiwn yn cynnwys sgiliau a phrofiad ym maes adnoddau dynol, arweinyddiaeth a newid trefniadaethol, cyllid a chyfrifyddu, cysylltiadau â gweithwyr, gwybodaeth am Lywodraeth Leol a'i phrif gyfrifoldebau, gwasanaethau cyhoeddus eraill, datblygu sefydliadol a threfniadaeth undebau llafur. Byddai Ysgrifenyddiaeth sydd â sgiliau ategol yn cael ei sefydlu i gynorthwyo'r Comisiwn Staff. Byddai gofyn i'r Comisiwn Staff ymgynghori'n eang, er enghraifft â chyflogwyr, undebau llafur, gweithwyr a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu, a chreu cysylltiadau â chyrff eraill megis y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Byddai'n chwilio am arfer gorau ac yn ei ledaenu. Ni fyddai'n disodli systemau cyfredol ar gyfer bargeinio a thrafod nac yn tanseilio partneriaeth lwyddiannus Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.

Gallai'r materion y byddai angen i'r Comisiwn Staff eu hystyried o ran y gweithlu gynnwys y canlynol:

- gwaith recriwtio a chadw staff mewn Awdurdodau Lleol ac ar eu traws cyn ac yn ystod trefniadau uno;
- gwaith trosglwyddo staff o Awdurdodau Lleol cyfredol i Awdurdodau Lleol newydd;

- gwaith cysoni telerau ac amodau gwasanaeth, er enghraifft, dulliau o ymdrin â thaliadau teithio a chynhaliaeth, oriau gweithio hyblyg a pheccynnau dileu swydd a diswyddo gwirfoddol;
- gwaith gwerthuso/graddio swyddi;
- gwaith recriwtio a phennu cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddi uwch, ar y cyd â'r cyfrifoldebau penodol a roddir ar hyn o bryd i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol;
- pensiynau ac effaith trosglwyddo staff i gynlluniau pensiwn gwahanol ym maes gwasanaethau cyhoeddus;
- yr effaith ar staff a drosglwyddwyd yn ddiweddar i gontractwyr yn y sector preifat;
- materion sy'n effeithio ar y gweithlu ehangach ym maes gwasanaethau cyhoeddus, megis contractau dim oriau a gwaith datblygu arweinyddiaeth.

Yn 3.16 isod rydym yn codi'r mater sy'n ymwneud â sicrhau mwy o gysondeb mewn apwyntiadau i swyddi uwch mewn Llywodraeth Leol, a'r posibilrwydd o ffurfio Bwrdd Apwyntiadau Cyhoeddus neu gorff tebyg. Byddai angen inni ystyried sut y byddai Bwrdd o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â'r Comisiwn Staff.

## 2.10 Cymhwysedd Cyfreithiol Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Leol yn gweithredu mewn amgylchedd heriol, lle mae angen iddi gael yr hyblygrwydd i weithio mewn partneriaeth ag ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector y mae eu dulliau o ddarparu gwasanaethau, eu gweithgarwch masnachol a'u trefniadau ariannol yn fwyfwy amrywiol. Rhaid i Lywodraeth Leol fod yn rhydd i arloesi.

Yn draddodiadol, dim ond gweithgarwch a ganiateir yn ffurfiol drwy bwerau neu ddyletswyddau penodol y mae Llywodraeth Leol wedi medru ei gyflawni. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 'bŵer llesiant'. Roedd hwn yn newid radical a oedd yn rhoi cymhwysedd i Lywodraeth Leol weithredu mewn unrhyw ffordd a oedd yn gwella llesiant pobl ymmhob ardal, ar yr amod nad oedd deddfwriaeth arall yn ei hatal rhag gweithredu yn y fath fodd.

Yn ogystal mae Awdurdodau yn cynhyrchu dros £1 biliwn y flwyddyn drwy ffioedd a thaliadau a godir yn lleol a thrwy incwm arall. Gallai mwy o hyblygrwydd lleol ynghylch pennu ffioedd a thaliadau gynorthwyo Awdurdodau i reoli heriau ariannol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod rhai manteision i'w cael o roi disgrisiwn lleol ynghylch pennu ffioedd a thaliadau. Byddai pŵer cymhwysedd cyffredinol, y cyfeirir ato ym Mhennod 2, yn darparu ar gyfer hynny ond byddem hefyd am gael systemau rheoli digonol i sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn fforddiadwy i'r sawl y mae arnynt eu hangen a bod y gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n gyson â blaenoriaethau cenedlaethol.

Ffynhonnell arall o gyllid sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yw grantiau ad-daladwy sy'n cael eu gweinyddu gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed. Mae tua £20m ar gael i'w ddsbarthu i wasanaethau cyhoeddus bob blwyddyn drwy rownd flynyddol o geisiadau. Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed hefyd mewn sefyllfa dda i roi cymorth ar gyfer arloesi ac ailgynllunio gwasanaethau.

Byddwn hefyd yn ystyried meysydd eraill lle gallai mwy o hyblygrwydd gynnig mwy o reolaeth i Awdurdodau Lleol ar y modd y caiff eu cyllidebau eu cynllunio a'u rheoli. Rydym yn ceisio barn ynghylch sut y gellir sicrhau bod mwy o hyblygrwydd yn cael ei gynnwys mewn system gyllid newydd a ddylunnir ar gyfer Llywodraeth Leol, gan ddiogelu'r angen i gyfeirio gwariant priodol at flaenoriaethau cenedlaethol.

### 9.3.6 Cyllid Cyfalaf

Yn yr un modd â gwariant refeniw, caiff gwariant a buddsoddiad cyfalaf ei gynnal drwy gymysgedd o gyllid canolog a chyllid lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyfalaf drwy grantiau cyffredinol a phenodol, yn ogystal â thrwy fynediad i gronfeydd Buddsoddi i Arbed. Caiff cymorth ar gyfer cost benthycu ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'r Fenter Benthycu Llywodraeth Leol. Mae Awdurdodau Lleol yn ategu hynny drwy ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a benthyciadau cyllid yn lleol. Yn ogystal mae Awdurdodau Lleol yn



rheoli portffolios mawr o asedau cyfalaf, er bod y rheini yn amrywio'n sylweddol o'r naill Awdurdod i'r llall.

Ceir fframwaith cadarn eisoes sy'n llywodraethu gwariant cyfalaf ac sy'n rhoi cryn dipyn o ymreolaeth i Awdurdodau Lleol, gan sicrhau ar yr un pryd bod unrhyw fenthycan fforddiadwy ac yn cael ei wneud yn ofalus a bod asedau'n cael eu rheoli'n briodol. Gan adeiladu ar hynny, rydym am sicrhau bod y system ar gyfer cyllid cyfalaf yn addas i'r 21ain ganrif ac rydym am ystyried dulliau arloesol o gyllido a dulliau o sicrhau bod seilwaith cyfalaf yn cael ei ddatblygu'n strategol a'i reoli'n effeithiol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Bydd yr ystyriaethau hyn yn rhan o'r gwaith tymor hwy ar ddiwygio'r system gyllid ar gyfer Llywodraeth Leol. Rydym yn ceisio barn ynghylch a oes unrhyw newidiadau y byddai modd eu cyflawni ac a fyddai'n ddymunol yn y tymor byrrach ac yn rhan o'r ail Fil.

### 9.3.7 Cyllido Haenau Eraill o Lywodraeth Leol

Yn ogystal â'r Prif Awdurdodau Lleol, mae'r trefniadau cyllido cyfredol yn cynnwys nifer o haenau eraill o Lywodraeth Leol, sy'n cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Cyngorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a nifer o awdurdodau, byrddau a phwyllgorau llai o faint. Nid yw *Diwygio Llywodraeth Leol* yn berthnasol i'r rhain i gyd, ond byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer sicrhau bod y trefniadau cyllido'n fwy cydlynol ac effeithiol ar gyfer y cyrff y mae *Diwygio Llywodraeth Leol* yn berthnasol iddynt.

Ar hyn o bryd caiff Cyngorau Cymuned eu cyllido'n bennaf wrth i bob un ohonynt gyflwyno praesept ar gyfer Treth Gyngor i'w Brif Awdurdod Lleol. Mae'r praesept ar gyfer Cyngor Cymuned penodol yn rhan o fil y Dreth Gyngor ar gyfer pob aelwyd yn yr ardal berthnasol. Mae'r praeseptau hyn yn rhwym wrth reolau gwahanol i'r rhai sy'n berthnasol i'r Dreth Gyngor a bennir gan Brif Awdurdod Lleol neu Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Bydd y cynigion ynghylch llywodraethu cymunedol ym Mhenodau 4 a 5 yn arwain at oblygiadau i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ac y caiff swyddogaethau eu cyflawni mewn cymunedau, ac yna i'r modd y caiff gwasanaethau o'r fath eu cyllido. Byddwn am sicrhau bod unrhyw drefniadau cyllido newydd yn darparu atebolrwydd clir ac yn sicrhau cynifer o gyfleoedd ag sy'n bosibl i gymunedau gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu cyllido drwy ardoll a godir ar eu Prif Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Caiff yr ardoll ei dosrannu'n unol â phoblogaeth yr Awdurdodau cyfansoddol ond caiff ei chyllido o gyllid refeniw cyffredinol pob Awdurdod. Mae hynny'n golygu ei bod yn cael ei chyllido drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw, ardrethi annomestig a ailddosberthir a'r Dreth Gyngor, ond nid oes modd nodi'r cyfraniad a geir o bob un o'r ffynonellau hyn yn unigol. Bydd angen adolygu'r trefniadau yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r modd y caiff gwasanaethau tân ac achub eu llywodraethu. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar wahân ynghylch cynigion ar gyfer llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub ac unrhyw newidiadau cysylltiedig i drefniadau cyllido.

Y tu hwnt i rychwant y Papur Gwyn hwn, mae newidiadau i swyddogaethau a gwaith llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu hystyried hefyd. Byddwn yn parhau i adolygu'r trefniadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo parciau cenedlaethol i weithredu'n effeithiol a chael eu goruchwylio'n effeithiol, sicrhau eu bod yn integreiddio'n fwy effeithiol â rhannau eraill o'r system gyllid ar gyfer Llywodraeth Leol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r weledigaethau a'r newydd yn gynharach yn y Bennod hon.

## 9.4 Llywodraethu Ariannol

Mae'r fframwaith presennol ar gyfer llywodraethu arferion ariannol, arferion cyfrifyddu a gofynion archwilio ar gyfer cyllid Llywodraeth Leol wedi'i nodi ar draws llawer iawn o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a ategir gan ganllawiau statudol a phroffesiynol a chodau ymarfer niferus. Yn ogystal ag ymdrin â rheoli'r amryw ffrydiau cyllido y cyfeirir atynt uchod, mae hefyd yn ymdrin â rheoli cronfeydd wrth gefn, cyflawni swyddogaethau rheoli trysorlys, rheoli asedau a rhwymedigaethau, paratoi cyfrifon a blaengynllunio, ymhlith llawer o bethau eraill. Un o brif nodweddion y gyfundrefn, fodd bynnag, yw'r ffaith ei bod yn seiliedig ar yr egwyddor bod pob Awdurdod yn gorff ar wahân, sy'n atebol yn ddemocrataidd ac sydd â chryn dipyn o hyblygrwydd ynghylch y modd y mae'n cyflawni'r dyletswyddau sydd arno a'r modd y mae'n darparu gwasanaethau. Mae'r fframwaith yn mynnu rheolaeth ariannol ofalus ac mae'n mynnu bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau'n gwneud hynny mewn modd tryloyw a'u bod yn atebol am y penderfyniadau a wnânt. Yn ogystal mae dyletswyddau ymddiriedol penodol ar Swyddog Adran 151 pob Awdurdod, a benodir dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff pob Awdurdod Lleol ei archwilio'n drylwyr gan archwilwyr allanol.

Nid ydym yn bwriadu newid yr egwyddor ganolog hon gan ein bod o'r farn ei bod yn sylfaenol i'r modd y mae Llywodraeth Leol yn gweithredu a'i pherthynas â Llywodraeth Cymru. Nid ydym chwaith yn bwriadu gwahanu'r dull gweithredu yng Nghymru oddi wrth y dull gweithredu sy'n bodoli ac yn gweithio mewn fframweithiau proffesiynol sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio diweddar, symleiddio a chydgrynhoi agweddau ar y fframwaith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud mewn ffyrdd sy'n arwain at waith cyflawni a pherfformiad gwell ac sy'n cyfeirio gwariant at y manau lle caiff yr effaith fwyaf. Rydym yn bwriadu ystyried gwelliannau i'r system bresennol, o safbwynt atebolrwydd a gwaith ymgysylltu â chymunedau ac o safbwynt cynllunio ariannol a mynediad i wybodaeth.

### 9.4.1 Cyfrifyddu, Atebolrwydd ac Ymgysylltu

Dylai'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ariannol sicrhau bod y cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau'n fwy tryloyw a dylent ddarparu llinellau atebolrwydd cliriach rhwng Llywodraeth Cymru (a chyrrff cyllido eraill), Llywodraeth Leol a phobl leol. Ein gweledigaeth ar gyfer fframwaith y dyfodol yw un lle ceir mwy o ddidwylledd ac atebolrwydd, lle mae pobl yn ymwneud yn weithredol â'r penderfyniadau gwario sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd a lle mae rhesymeg glir yn perthyn i'r canlyniad terfynol. I hybu'r dull hwn o ymdrin â didwylledd a thryloywder a mwy o waith ymgysylltu â chymunedau, rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch sut y dylai Awdurdodau ymgysylltu â'r gymuned leol wrth bennu eu cyllideb flynyddol a'u gofyniad o ran y Dreth Gyngor. Byddem yn disgwyl i bob Awdurdod wella tryloywder a hygyrchedd y wybodaeth gyfrifyddol a gyhoeddir, drwy sicrhau bod gwybodaeth megis manylion am gyllidebau, symiau o arian sy'n weddill a lefelau gwariant y gorffennol ar gael ar un porth gwybodaeth, pan gaiff y porth hwnnw ei sefydlu.

### 9.4.2 Cynllunio Ariannol

Un o ofynion allweddol y fframwaith llywodraethu ar gyfer y dyfodol yw bod angen iddo fod yn gyson â'r sefyllfa wirioneddol sy'n parhau, sef sefyllfa lle ceir cyfyngiadau ar gyllid a lle disgwylir i'r galw am rai gwasanaethau lleol gynyddu. Rydym yn cydnabod bod hynny'n golygu dewisiadau anodd o ran gwariant. Bydd y gofyniad o ran cynllunio corfforaethol a nodir ym Mhennod 7 yn hybu rheolaeth ariannol, gwaith rheoli asedau a gwaith cynllunio'r gweithlu sy'n fwy cadarn ac sy'n ystyried y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi clir o ddarparu setliadau dangosol i Lywodraeth Leol, os yw Llywodraeth y DU wedi awgrymu wrthym ymlaen llaw beth fydd Cyllideb Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn bwriadu newid y polisi hwn a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i hybu gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy. Dylai systemau symlach a chliriach ar gyfer cynllunio ariannol ysgogi gwasanaethau lleol sydd â ffocws cliriach ac sy'n perfformio'n well, sy'n ystyried blaenoriaethau a phwysau ar gyllid yn awr ac yn y dyfodol.

### 9.5 Byddem yn hoffi cael eich barn

Mae Arolwg yr Ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau ynghylch y themâu canlynol:

- Gweledigaeth a'r dull graddol arfaethedig o weithredu
- Cydbwysedd o ran cyllid a hyblygrwydd
- Cyllid refeniw cyffredinol – trethi lleol
- Cyllid refeniw cyffredinol – dosbarthu
- Llywodraethu ariannol a threfniadau cyfrifyddu

## 10. Casgliad

Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru. Rydym am gael Awdurdodau Lleol llwyddiannus, cynhwysol ac atebol sy'n gweithredu'n dryloyw ac yn agored ac sy'n cynllunio'n effeithiol. Rydym am i Awdurdodau, a Chynghorau Cymuned, wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt, gan rannu grym a chyfrifoldeb â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd angen perthynas briodol rhwng y sawl sy'n darparu gwasanaeth a'r sawl sy'n dibynnu ar y gwasanaeth, drwy ddemocratiaeth leol gryfach a chraffu mwy effeithiol.

Ni all Llywodraeth Cymru gyflawni'r newidiadau angenrheidiol ar ei phen ei hun, ac ni ddylai. Mae ein gwasanaethau cyhoeddus i gyd yn wynebu heriau cymhleth, ynghyd â dyfodol a fydd yn wleidyddol, gymeithasol a thechnolegol ddeinamig. Bydd llwyddiant yn gofyn am arweinyddiaeth graff ac addasol, cyfesur â'r heriau sy'n ein hwynebu. Fe ddown ni o hyd i ac fe gefnogwn yr arweinyddiaeth honno ble bynnag y twf – yn ein Hawdurdodau Lleol, ein gwasanaethau cyhoeddus eraill a mwy na dim, yn ein cymunedau eu hunain.

## 11. Rhestr Termau

Term	Esboniad
Adolygiad gan gymheiriaid	Adolygiad beirniadol o benderfyniadau a champau gweithredu Awdurdod Lleol, drwy wahoddiad gan yr Awdurdod Lleol, a gyflawnir gan unigolion medrus megis uwch-swyddogion corff cyhoeddus arall neu uwch-swyddogion sydd wedi ymddeol.
Adolygu allanol	Adolygiad beirniadol o benderfyniadau a champau gweithredu Awdurdod Lleol gan gyrff allanol, yn enwedig Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyrff sy'n gyfrifol am arolygu gwasanaethau cymdeithasol (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) ac addysg (Estyn).
Adolygu mewnol	Yn y Papur hwn, mae'r ymadrodd dan sylw'n gyfystyr gan amlaf â chraffu, ond mae hefyd yn cynnwys trefniadau eraill megis adolygiad gan y Weithrediaeth o'i pherfformiad neu'i heffeithiolrwydd ei hun, neu gamau gweithredu swyddogaethau archwilio a llywodraethu mewnol.
Aelod anweithredol	Aelod Etholedig nad yw'n perthyn i Gabinet Awdurdod Lleol.
Aelod Etholedig	Unigolyn a etholir drwy bleidlais gyhoeddus i Awdurdod Lleol.
Archwilio	Mae archwilio'n ymwneud â chywirdeb. Mae'n ystyried a yw set o ddata am sefydliad (e.e. ei ddatganiadau ariannol) wedi'i chyfrifo'n gywir a'i chyflwyno'n deg. Archwiliad annibynnol ydyw o ddata, datganiadau, cofnodion, gweithrediadau a pherfformiad (ariannol neu fel arall) Prif Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithlon ac yn effeithiol.
Arolygu	Mae arolygu'n ymwneud â chymhwysedd. Mae'n ystyried a yw sefydliad a/neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddo o safon ddigonol, o safbwynt angen neu ddisgwyliad y cyhoedd neu o safbwynt arferion proffesiynol cyffredin.
Awdurdod Unedol	Mae Awdurdod Unedol yn cyflawni holl brif swyddogaethau Awdurdod Lleol. Yn Lloegr, ac yng Nghymru yn y gorffennol, mae'r swyddogaethau hyn wedi'u rhannu rhwng gwahanol haenau o Lywodraeth Leol, megis Cynghorau Sir a Chynghorau Dosbarth. Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r term Awdurdod Lleol oni nodir yn wahanol.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn bwriadu newid Byrddau Gwasanaethau Lleol yn Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol.
Bwrdd Gwasanaethau Lleol	Partneriaethau anstatudol ar draws y 22 o ardaloedd Awdurdod Lleol a geir yng Nghymru yw Byrddau Gwasanaethau Lleol. Maent yn cytuno ar gynllun integredig sengl ar gyfer yr ardal ac yn ei oruchwylio; mae'r cynllun integredig sengl yn dod â phedwar o gynlluniau statudol ynghyd (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol).
	Mae aelodaeth, strwythur a dull gweithredu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn amrywio ledled Cymru, ond mae pob un ohonynt yn cynnwys prif arweinydd a phrif weithredwr sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal.

Cabinet	<p>Cafodd y model Arweinydd a Chabinet ei gyflwyno'n dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000.</p> <p>Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd ac Aelodau eraill o'r Cabinet, a chaiff ei ffurfio fel rheol gan y blaid fwyafrifol yn yr Awdurdod Lleol. Mae gan bob aelod o'r Cabinet bortffolio ar wahân, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant ac ati.</p> <p>Mae'r Arweinydd a'r Cabinet yn gyfrifol am bolisiau, cynlluniau a strategaethau, ac am eu hargymell i'r Cyngor llawn.</p>
Craffu	Y gwaith o ymchwilio neu roi ystyriaeth i benderfyniadau gweithrediaeth Awdurdod Lleol, neu gamau gweithredu neu benderfyniadau swyddog Awdurdod Lleol, neu feysydd polisi.
Cyfansoddiad	Mae'r gyfraith yn mynnu bod gan Awdurdodau Lleol gyfansoddiad sy'n egluro eu rheolau sefydlog (y rheolau y maent yn gweithredu'n unol â nhw) ac amryw faterion eraill, megis y modd y mae'n rhaid i Aelodau Etholedig ymddwyn, a disgrifiadau swydd ar gyfer rolau allweddol.
Cyfyngiad ar nifer y tymhorau	Cyfyngiad statudol ar nifer y tymhorau y caiff swyddog neu ddeiliad swydd wasanaethu.
Cynghorydd	Dyma derm arall ar gyfer Aelod Etholedig. Gall gyfeirio at Aelodau Etholedig Prif Awdurdodau Lleol neu Gynghorau Cymuned – yn gyffredinol mae'r ystyr yn glir o'r cyd-destun.
Cyngor	Y Cyngor yw'r corff llawn o Aelodau Etholedig mewn Awdurdod Lleol, ac mae'n cynnwys aelodau'r Weithrediaeth a'r holl Aelodau Etholedig eraill. Nid yw'n cynnwys unrhyw un o weithwyr yr Awdurdod Lleol. Dim ond y Cyngor llawn a gaiff wneud rhai penderfyniadau, ac ni cheir eu dirprwyo i'r Weithrediaeth, i bwyllgorau'r Cyngor nac i'w weithwyr.
Cyngor Cymuned	Mae Cyngor Cymuned yn gorff cynrychioliadol cyhoeddus. Caiff ei sefydlu er mwyn rhoi sylw i fuddiannau lleol a threfnu gweithgareddau cymunedol. Caiff Cynghorwyr Cymuned eu hethol i Gyngor Cymuned drwy bleidlais gyhoeddus.
Cymuned fuddiant	Caiff 'cymuned fuddiant' ei diffinio gan ryw gysylltiad cyffredin (e.e ymdeimlad o berthyn) neu endid cyffredin (e.e. ffermio, grŵp eglwys) yn hytrach na lle. Casgliad o bobl ydyw sydd wedi dod ynghyd oherwydd pwnc sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Mae aelodau cymuned fuddiant yn cymryd rhan yn y gymuned honno er mwyn cyfnewid gwybodaeth, cael atebion i gwestiynau neu broblemau, neu wella eu dealltwriaeth o bwnc.
Cymuned lle	Cymuned lle yw cymuned o bobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd y man y maent yn byw neu'n gweithio ynddo, y man y maent yn ymweld ag ef neu'r man y maent yn treulio cyfnod parhaus o'u hamser ynddo am reswm arall. Gall cymuned o'r fath fod yn gymdogaeth, yn dref, yn dŵ coffi, yn weithle, yn fan ymgynnull, yn fan cyhoeddus neu'n unrhyw fan daearyddol penodol arall sy'n gyffredin i nifer o bobl neu y mae nifer o bobl yn ei rannu neu'n ymweld ag ef yn aml.

Gwasanaeth cyhoeddus	<p>Mae'r cysyniad o wasanaeth cyhoeddus wedi'i seilio ar gonsensws cymdeithasol y dylai rhai gwasanaethau fod ar gael i bawb, waeth beth fo'u hincwm. Mae gwasanaethau cyhoeddus o fudd i'r gymdeithas gyfan, nid dim ond i'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth.</p> <p>Mae gwasanaeth cyhoeddus yn wasanaeth a ddarperir gan lywodraeth i bobl sy'n byw yn ei hawdurdodaeth, naill ai'n uniongyrchol (drwy'r sector cyhoeddus) neu drwy ariannu darpariaeth o ran gwasanaethau.</p>
Gweithrediaeth	Yng nghyd-destun y Papur Gwyn hwn, dyma derm arall ar gyfer yr Arweinydd a'r Cabinet.
Hunanasesu	Adolygiad beirniadol o allu a chapasiti Awdurdod Lleol, a gyflawnir gan yr Awdurdod ei hun. Caiff gwaith hunanasesu ei ddefnyddio i ystyried cryfderau ac adnabod meysydd ar gyfer hunanwella. Mae gwaith hunanasesu'n canolbwyntio ar gynorthwyo sefydliad i ddatblygu ei uchelgais a'i ddulliau o drawsnewid systemau a gwasanaethau.
Llywodraeth Leol	<p>Ffurf ar weinyddiaeth gyhoeddus yw Llywodraeth Leol, a chaiff ei hystyried yn haen is o weinyddiaeth. Caiff y term ei ddefnyddio er mwyn cyferbynnu â swyddi ar lefel uwch a elwir yn llywodraeth ganolog neu'n llywodraeth genedlaethol (h.y. Llywodraeth Whitehall neu Lywodraeth Cymru).</p> <p>Mae Llywodraeth Leol yn gweithredu'n unol â phwerau a ddirprwyir iddi gan ddeddfwriaeth neu gyfarwyddebau'r lefel uwch o lywodraeth.</p>
Mentrau cymdeithasol, modelau ar gyfer perchnogaeth gydfuddiannol, perchnogaeth gydweithredol a pherchnogaeth ar y cyd	<p>Busnes neu wasanaeth y mae ei amcanion yn rhai cymdeithasol yn bennaf ac y caiff ei warged ei ailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y gymuned. Ni chaiff ei sbarduno gan yr angen i sicrhau cymaint o elw ag sy'n bosibl i gyfranddalwyr a pherchnogion.</p> <p>Dyma brif nodweddion mentrau cymdeithasol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Maent yn masnachu, h.y. yn gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau ac mae unrhyw elw neu 'warged' o ganlyniad i'w gweithgareddau masnachu'n cael ei ailfuddsoddi yn y busnes neu'i ailddosbarthu i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu.</li> <li>2. Mae ganddynt ddiben cymdeithasol clir. Gallai gynnwys creu swyddi neu ddarparu cyfleusterau lleol, ee meithrinfa, siop gymunedol neu ofal cymdeithasol i bobl hŷn.</li> <li>3. Eu gweithwyr sy'n berchen arnynt ac sy'n eu rheoli.</li> </ol> <p>Gall menter gymdeithasol fod yn Gwmni Buddiannau Cymunedol, yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant, yn Gwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau, neu'n Gymdeithas Ddiwydiannol neu Ddarbodus. Mae gan lawer o fentrau cymdeithasol statws elusennol hefyd, e.e. Cymdeithasau Tai.</p>
Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig	Rôl statudol sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli staff Awdurdod Lleol.

Prif Awdurdod Lleol	Cyngor neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru. Gweler Awdurdod Unedol hefyd. Yn y ddogfen hon rydym yn defnyddio'r term Awdurdod Lleol oni nodir yn wahanol.
Rheoleiddio	Mae rheoleiddio'n ymwneud â chydymffurfio. Mae'n ystyried a yw gweithgareddau sefydliad yn cydymffurfio â gofyniad cyfreithiol neu ofyniad tebyg, a gallai arwain at gamau gweithredu ffurfiol os gwelir nad ydynt yn cydymffurfio.
Sedd	Lle mewn corff deddfu neu gorff arall a etholir. Caiff unigolion eu hethol i sedd drwy bleidlais gyhoeddus.
Sedd ddiwrthwynebiad	Sedd ar gorff deddfu neu gorff arall a etholir, lle caiff enw un ymgeisydd yn unig ei gynnig. Felly, ni chaiff unrhyw bleidleisiau eu bwrw mewn gwirionedd a'r ymgeisydd drwy ddiffiniad sy'n ennill y sedd.
Swyddogion	Unigolion a gyflogir gan Awdurdod Lleol.









Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Datganoli,  
Democratiaeth a  
Chyflawni

## Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol

### Arolwg Ymgynghori

Dyddiad cyhoeddi: 3 Chwefror 2015  
Angen gweithredu erbyn: 23:59 ar 28 Ebrill 2015

### Trosolwg

Datganiad o friad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol Llywodraeth Leol yw'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'.

Mae'r Papur Gwyn yn egluro cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio yn y meysydd canlynol: democratiaeth leol, rolau a chydnyddiaeth ariannol Aelodau Etholedig ac uwchswyddogion, llywodraethu cymunedol a Chynghorau Cymuned, hawliau cymunedau, gwelliant corfforaethol, perfformiad gwasanaethau, craffu, archwilio, arolygu a rheoleiddio, a chyllid.

### Sut i ymateb neu am ragor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nifer helaeth o faterion. Mae llawer ohonynt o ddiddordeb i'r cyhoedd ond mae rhai ohonynt yn dechnegol ac mae'n bosibl mai dim ond Awdurdodau Lleol fydd â diddordeb ynddynt. Rydym wedi creu holiadur ar y we er mwyn ei gwneud yn haws inni gasglu ymatebion a'u dadansoddi.

Gallwch ddewis ymdrin â'r holl faterion a godir gan y Papur Gwyn hwn neu gallwch ddewis cwblhau fersiwn fyrrach o'r holiadur, sy'n canolbwyntio ar y prif faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Byddwch yn gallu dewis yr opsiwn yr ydych yn ei ffafrio pan fyddwch yn dechrau llenwi'r holiadur. Mae fersiwn Word ar gael hefyd ond byddem yn annog ymatebwyr yn daer i ddefnyddio'r fersiwn sydd ar-lein.

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ar-lein neu gofynnwch am gopi papur o'r holiadur, a'i ddychwelyd

naill ai drwy e-bost i

[RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk](mailto:RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk)

neu drwy'r post i

Diwygio Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ffurf fersiwn fyrrach sydd mewn Cymraeg clir ac ar ffurf fersiwn sy'n addas i bobl ifanc. Mae'r rhain i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill os gofynnir amdanynt.

### Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff o Lywodraeth Cymru sydd yn ymdrin â'r materion dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd rhai aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn dal yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sydd gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i chadw'n ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am gael peidio cyhoeddi ei enw neu ei gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, ar adegau gallai rhesymau pwysig godi a fyddai'n ein gorfodi i ddatgelu enw a chyfeiriad unigolyn, hyd yn oed pe bai wedi gofyn am gael peidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Dyma'r arolwg ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r ddogfen *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*. I ddechrau gofynnir rhai cwestiynau er mwyn canfod ai unigolyn, corff cynrychioliadol neu fath arall o sefydliad yr ydych chi. Wedyn, gofynnir cwestiynau'n

gysylltiedig â themâu yn y Papur Gwyn. Mae rhai cwestiynau yn rhai sy'n gofyn am ateb cadarnhaol/negyddol, rhai yn gofyn i chi fynegi l ba raddau yr ydych yn cytuno â datganiad ar hyd graddfa 5 pwynt, a rhai yn gofyn am eich barn gan adael bocs i chi roi eich sylwadau.

### Cwestiynau Cychwynnol

Rwyf yn ymateb ar ran:			
1.1	<input type="checkbox"/>	Aelod o'r cyhoedd ydw i. Dyma fy marn bersonol	Ticiwch er mwyn dangos i ba ystod oedran yr ydych yn perthyn: <input type="checkbox"/> Dan 18 <input type="checkbox"/> 26-35 <input type="checkbox"/> 46-55 <input type="checkbox"/> 65+ <input type="checkbox"/> 18-25 <input type="checkbox"/> 36-45 <input type="checkbox"/> 56-65 <input type="checkbox"/> Mae'n well gen i beidio dweud Dywedwch wrthym ym mha Ardal Awdurdod Lleol yr ydych yn byw:
1.2	<input type="checkbox"/>	Awdurdod Lleol	Nodwch pa Awdurdod Lleol yr ydych yn ei gynrychioli
1.3	<input type="checkbox"/>	Cyngor Cymuned	Nodwch pa Gyngor Cymuned yr ydych yn ei gynrychioli
1.4	<input type="checkbox"/>	Grŵp Gwleidyddol / Plaid Wleidyddol	Nodwch enw'r blaid yr ydych yn ei chynrychioli
1.5	<input type="checkbox"/>	Corff cynrychioliadol, Cymdeithas neu Gorff Proffesiynol	Nodwch enw'r corff
1.6	<input type="checkbox"/>	Aelod Etholedig	Nodwch pa Awdurdod Lleol neu Gyngor Cymuned yr ydych yn aelod ohono
1.7	<input type="checkbox"/>	Y Trydydd Sector	Nodwch enw'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli
1.8	<input type="checkbox"/>	Undeb Llafur	Nodwch enw'r Undeb Llafur yr ydych yn ei gynrychioli
1.9	<input type="checkbox"/>	Asiantaeth o'r Llywodraeth / Arall o'r Sector Cyhoeddus	Nodwch enw'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli
1.10	<input type="checkbox"/>	Arall	Rhowch wybodaeth ychwanegol
1.11		Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu grŵp cynrychioliadol, sut y gwnaethoch chi gasglu safbwyntiau eich aelodau neu aelodau o'r cyhoedd wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn?	
1.12		Dywedwch wrthym pa ddogfen yr ydych wedi'i darllen:	
		<input type="checkbox"/>	<i>Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i bobl leol</i> (Papur Gwyn)
		<input type="checkbox"/>	<i>Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i bobl leol</i> (Crynodeb Pob Dydd)
		<input type="checkbox"/>	<i>Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i bobl leol</i> (Fersiwn i Bobl Ifanc)
Manylion Cyswllt			
1.13		Enw	
1.14		Cyfeiriad post	
1.15		Rhif ffôn	
1.16		Cyfeiriad e-bost	
Datganiad			
1.17 Mae ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. <b>Pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn ddiennw, ticiwch yma:</b>			<input type="checkbox"/>

**Pennod 2: Cydbwysu Cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol**

Mae Pennod 2 yn trafod y berthynas rhwng gwahanol elfennau o lywodraeth yng Nghymru, a datblygiad hyn ers datganoli ym 1999. Mae'n egluro rôl Llywodraeth Cymru o ran rhoi arweiniad, gosod safonau a diffinio nifer cyfyngedig o ddisgwyliadau cenedlaethol. Mae hefyd yn archwilio rôl Llywodraeth Leol fel gweithredwr newid yn ei hardal leol, yn ei pherthynas â gwasanaethau cyhoeddus eraill ac ar raddfa ranbarthol, yn enwedig rhanbarthau'r dinasoedd.

<b>Statws Awdurdodau Diwygiedig</b>					
2.1 Ydych chi'n meddwl y dylai pob Awdurdod Lleol yng Nghymru gael ei adnabod fel Cyngor Sir?	Ydw		Nac ydw		Ddim yn gwybod
	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>
2.2 Os nad ydych chi, pam eich bod yn meddwl y dylid caniatáu rhoi enwau eraill ar Awdurdodau diwygiedig?					
2.3 A ddylai Awdurdodau Lleol allu enwebu cadeirydd y Cyngor fel Maer?	Dylent		Na ddylent		Ddim yn gwybod
	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>
<b>Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol</b>					
2.4 A ddylid rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru?	Dylid		Na ddylid		Ddim yn gwybod
	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>
2.5 Os felly, pa gyfyngiadau y dylid eu gosod ar hynny?					
<b>Y Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan</b>					
2.6 A ddylid adolygu darpariaethau Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, fel maent yn berthnasol i Awdurdodau Lleol?	Dylid		Na ddylid		Ddim yn gwybod
	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>
2.7 Oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi mewn perthynas â Dadreoleiddio a Chontractio Allan?					
<b>Cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol</b>					
2.8 Allwch chi nodi unrhyw agweddau penodol ar weithdrefnau swyddogol y gellid eu newid fel bod Awdurdodau Lleol yn gweithredu mewn modd mwy ystyryth, agored a thryloyw?					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
2.9 <i>Dylai Awdurdodau Lleol nodi mewn iaith glir eu gwerthoedd a'r egwyddorion fydd yn sail i'r modd y maent yn gweithredu</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.10 <i>Dylai Awdurdodau Lleol nodi sut maent yn bwriadu meithrin perthynas â'u cymunedau</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Beichiau deddfwriaethol ac adolygu Deddfwriaeth Llywodraeth Leol					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
2.11 <i>Mae'n werth adolygu'r corff o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gweinyddu Llywodraeth Leol gyda golwg ar gyfuno a symleiddio yn y tymor hwy</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.12 Oes gennych chi unrhyw gynigion eraill y dylid eu hystyried o ran ymestyn pwerau neu swyddogaethau Llywodraeth Leol?					

### Pennod 3: Adnewyddu Democratiaeth

Ym Mhennod 3, cyfeiriwn at yr angen am fwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Aelodau Etholedig a'r Prif Weithredwr. Nodir hefyd fanteision sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr. Rydym hefyd yn trafod yr angen i leihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth mewn Llywodraeth Leol ac i sicrhau mwy o gysondeb wrth benodi a thalu uwch swyddogion.

Etholiadau Llywodraeth Leol								
				Bob 4 blynedd	Bob 5 mlynedd	Ddim yn gwybod		
3.1	Pa mor aml y dylid cynnal etholiadau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.2	A ddylai Awdurdodau Lleol ethol Aelodau ar drefniant treigl, er enghraifft fesul traean?					Dylent <input type="checkbox"/>	Na ddylent <input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod <input type="checkbox"/>
3.3	Os felly, beth fyddai'r ffordd orau o weithredu hyn yn ymarferol?							
Diffinio Rolau a Chyfrifoldebau'r Arweinydd								
	I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf		
3.4	<i>Os bydd rhywun yn ymgeisio i fod yn Arweinydd Cyngor, dylai gyflwyno manifesto ysgrifenedig yn nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
3.5	<i>Os bydd rhywun yn ymgeisio i fod yn Arweinydd Cyngor, dylai gyflwyno'r manifesto hwn ar lafar gerbron y Cyngor, cyn cynnal yr etholiad</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
3.6	<i>Dylai Arweinydd Cyngor lunio adroddiad blynyddol yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y manifesto</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
					Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	
3.7	A ddylid diffinio rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau'r Arweinwyr/Meiri Etholedig mewn deddfwriaeth?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.8	A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd osod amcanion ar gyfer Aelodau Cabinet?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.9	A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd osod amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.10	A ddylid rhannu'r amcanion hyn â'r cyhoedd?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.11	A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd gyflwyno adroddiad gerbron y Cyngor llawn ar gyflawni'r amcanion hyn?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.12	A oes unrhyw ddyletswyddau cyffredinol eraill y dylid eu cynnwys yn rôl yr Arweinydd?							
Diffinio Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Cabinet								
					Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	
3.13	A ddylid diffinio rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau cyffredinol Aelodau Cabinet mewn deddfwriaeth?					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.14	Pa ddyletswyddau cyffredinol y dylid eu cynnwys yn rhan o rôl Aelod Cabinet?							



I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	
3.15 <i>Dylid sicrhau mwy o gysondeb yn nifer y swyddi Cabinet yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.16 A ddylid lleihau'r uchafswm o Aelodau Cabinet sy'n gwasanaethu Awdurdod Lleol (10 ar hyn o bryd)?				Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod
				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.17 Fel uchafswm, faint o Aelodau Cabinet y dylid eu cael?						
3.18 Beth yw'r rheswm am eich awgrym?						
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	
3.19 <i>Dylid ystyried rhai swyddi Cabinet yn swyddi 'Dirprwy' neu'n 'Is-swyddi', fel cyfle i ddatblygu cnewyllyn ehangach o arweinwyr gwleidyddol i'r dyfodol</i>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.20 <i>Dylid ystyried swyddi 'Dirprwy' neu 'Is-swyddi' yn swyddi rhan-amser er mwyn adlewyrchu'r lefel is o gyfrifoldeb</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.21 A ddylid gofyn i'r Academi Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried rhaglen ddatblygu i gefnogi arweinwyr gwleidyddol y dyfodol?				Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod
				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.22 Beth yw eich sylwadau ar y ffurf y dylai raglen ddatblygu Academi Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd?						
<b>Diffinio Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Etholedig</b>						
3.23 A ddylid diffinio rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau Aelodau Etholedig mewn deddfwriaeth?				Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod
				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beth ddylid ei gynnwys yn rhan o rôl Aelod Etholedig?				Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod
3.24 Cyfathrebu yn rheolaidd ag etholwyr				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.25 Cymorthfeydd rheolaidd				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.26 Cymryd rhan mewn Llywodraethu Cymunedol				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.27 Cymryd rhan mewn pwyllgorau				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.28 Mynychu sesiynau sgiliau hyfforddiant craidd				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.29 A oes unrhyw agweddau eraill y dylid eu cynnwys yn rhan o rôl yr Aelod Etholedig?:						
3.30 A ddylai fod yn ofynnol i bob Aelod Etholedig lunio Adroddiad Blynyddol?				Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod
				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Pwyllgorau Safonau					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
3.31 <i>Dylid ychwanegu at bwerau Pwyllgorau Safonau i'w galluogi i ystyried achosion lle ceir honiad nad yw Cynghorydd wedi cyflawni ei ddyletswyddau i raddau boddhaol</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.32 Os ydych yn cytuno, sut y dylid ychwanegu at eu pwerau?					
3.33 Pa gosbau y gellid eu sefydlu ar gyfer Cynghorwyr nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau i raddau boddhaol?					
3.34 Os na fydd prosesau mewnol wedi'u gweithredu i raddau boddhaol, a oes rôl i gorff annibynnol?			Oes	Nagoes	Ddim yn gwybod
			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.35 Os oes, ym mha amgylchiadau y dylid cynnwys y corff?					
3.36 Pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl hon?					
Galw yn ôl					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
3.37 <i>Dylid sefydlu cyfundrefn a fyddai'n galluogi'r cyhoedd i alw Cynghorydd yn ei ôl yn ystod ei gyfnod yn y swydd, a sbarduno is-etholiad</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.38 Sut gallai hyn weithio'n ymarferol?					
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
3.39 <i>Dylid gosod dyletswydd ar Arweinwyr i roi sylw i amrywiaeth wrth benodi eu Cabinet</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.40 <i>Os na fydd modd cynnig Cabinet amrywiol, dylai Arweinwyr ystyried cyfethol aelodau i roi cyngor a chefnogi penderfyniadau</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.41 Os ydych o blaid cyfethol i'r Cabinet, beth fyddai'r dull gorau o weithredu hyn yn ymarferol?					
3.42 Sut y dylai fod yn ofynnol i Arweinwyr Grŵp ystyried amrywiaeth?					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
3.43 <i>Dylid gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ennyn diddordeb pobl mewn democratiaeth</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.44 <i>Dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu Cynghorau Ieuencid</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.45 <i>Dylai fod yn ofynnol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus datgannolledig</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

<i>ryddhau staff i wasanaethu fel Cynghorwyr Awdurdodau Lleol</i>					
3.46 <i>Dylid annog sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i ryddhau staff i wasanaethu fel Cynghorwyr Cymuned</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.47 <i>Dylid annog pob sefydliad (cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) i ryddhau staff i wasanaethu fel Cynghorwyr</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Aelodau Etholedig</b>					
3.48 Pa faterion dylid eu hystyried wrth adolygu cydnabyddiaeth ariannol i Gyngorwyr?					
<b>Nifer yr Aelodau Etholedig</b>					
			Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
3.49 Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau nifer yr Aelodau Etholedig yng Nghymru?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.50 Pa faterion y dylid eu hystyried wrth gysudro nifer yr Aelodau Etholedig?					
<b>Cyfyngu ar Dymhorau Swydd Aelodau Etholedig</b>					
Ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol fel uchafswm tymhorau swydd:	Ydw	Nac ydw	Uchafswm arall	Ddim yn gwybod	
3.51 Aelodau Etholedig (5 tymor yn olynol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nodwch	<input type="checkbox"/>	
3.52 Aelodau Cabinet (2 dymor yn olynol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nodwch	<input type="checkbox"/>	
3.53 Arweinwyr / Meiri Etholedig (2 dymor yn olynol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nodwch	<input type="checkbox"/>	
<b>Cymwysterau Etholiadol</b>					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
3.54 <i>Ni ddylai Aelodau sy'n gwasanaethu Awdurdodau Lleol gael gwasanaethu fel Aelodau Cynulliad a pharhau â'u swydd yn yr Awdurdod Lleol</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.55 <i>Dylai cyflogeion Llywodraeth Leol, ag eithrio'r rhai mewn swyddi sy'n wleidyddol gyfyngedig, gael sefyll mewn etholiad i'w Hawdurdod eu hunan a dim ond ymddiswyddo os cânt eu hethol</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Rôl a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr</b>					
			Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod
3.56 A ddylid diffinio rôl Prif Weithredwr Awdurdod Lleol mewn deddfwriaeth?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
A ddylid cynnwys y canlynol yn rhan o rôl y Prif Weithredwr:					
3.57 Cyfrifoldeb fel Pennaeth Gwasanaeth Taledig?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.58 Cyfrifoldeb fel Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.59 Cyfrifoldeb am berfformiad a gwella?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
A ddylid cynnwys y gofynion canlynol yn rhan o rôl y Prif Weithredwr:					
3.60 Trefnu i greu cynllun corfforaethol?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.61 Trefnu i gynnal hunanasesiadau blynyddol o berfformiad corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.62 Trefnu i hyrwyddo democratiaeth mewn ardaloedd lleol?			<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

## Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol

### Arolwg Ymgynghori

3.63	Comisiynu adolygiad gan gymheiriaid bob dwy flynedd a llunio adroddiad i'r Cyngor ar gamau i'w cymryd yn dilyn argymhellion yr adolygiad gan gymheiriaid?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				
3.64	Sefydlu system rheoli perfformiad ar gyfer holl gyflogeion yr Awdurdod Lleol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				
<b>Cyfyngu ar Gyfnod Swydd Prif Weithredwr</b>								
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:		Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf		
3.65	<i>Dylid rhoi trefniadau ar waith i gyfyngu ar y cyfnod hwyaf y gall Prif Weithredwr wasanaethu</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.66	<i>Dylid rhoi trefniadau ar waith i bennu cyfnod a fyddai'n arwain at adolygiad cyn y gellid ystyried ailbenodi Prif Weithredwr Awdurdod Lleol</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
A ddylid gofyn i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus archwilio:					Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	
3.67	Trefniadau ar gyfer penodi Prif Weithredwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.68	Pa mor briodol yw cyfyngu ar hyd penodiad Prif Weithredwr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.69	Pa mor briodol yw pennu cyfnod a fyddai'n arwain at adolygiad cyn y gellid ailbenodi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
<b>Taliadau Uwch Reolwyr</b>								
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol:		Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf		
3.70	<i>Dylid cael mwy o gysondeb yn nifer y swyddi uwch reolwyr yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.71	<i>Dylid cael mwy o gysondeb yng nghyflogau swyddi uwch swyddogion (gan gynnwys swyddi Prif Weithredwyr) yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.72	<i>Dylid cael fframwaith cenedlaethol yn ganllaw ar gyfer graddfeydd cyflog holl swyddi prif swyddog</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.73	<i>Dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori â chorff cynghori annibynnol ar gyflogau'r holl brif swyddogion</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
3.74	Pa fecanwaith fyddai'n briodol er mwyn i Awdurdodau Lleol ymgynghori â chorff cynghori anibynnol ar gyflogau'r holl brif swyddogion?							
<b>Penodi Uwch Swyddogion</b>								
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:		Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf		
3.75	<i>Dylid cael mwy o gysondeb wrth benodi i swyddi uwch swyddog (gan gynnwys swyddi Prif Weithredwr) yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
O'r cyntaf i'r olaf, pa un o'r canlynol yw'r mecanwaith mwyaf priodol i gefnogi penodiadau uwch swyddog:					1af	2il	3ydd	4ydd
3.76	Byddai Comisiwn Penodiadau Sector Cyhoeddus yn sicrhau bod gan bob uwch swyddog y sgiliau a'r cymwyseddau cywir o ran arweinyddiaeth.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Byddai uwch swyddogion yn cael eu cyflogi ar sail gyffredin a'u gyrru i sefydliad, ac unigolion yn cael eu symud ar draws y gwasanaeth cyhoeddus fel bo'r gofyn (yn debyg i astudiaeth achos Seland Newydd).				
3.77 Byddai Comisiwn Penodiadau Sector Cyhoeddus yn sicrhau bod gan bob uwch swyddog y sgiliau a'r cymwyseddau cywir o ran arweinyddiaeth. Byddai Awdurdodau Lleol wedyn yn penodi o gronfa o ymgeiswyr cymeradwy.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.78 Fframwaith Asesu Cyffredin a phroses er mwyn sefydlu dull cyson o benodi uwch swyddogion. Byddai Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am benodi aelodau uwch o staff	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.79 Arall	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.80 Pa fecanwaith arall y dylid ei ddefnyddio er mwyn cefnogi apwyntio aelodau staff uwch?				

**Pennod 4: Cysylltu â Chymunedau**

10.18 <i>Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 5 (Grym i Gymunedau Lleol) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.19 <i>Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 6 (Llywodraethu Corfforaethol a Gwella) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.20 <i>Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 7 (Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.21 <i>Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 8 (Cryfhau Rôl Gwaith Adolygu) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.22 <i>Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 9 (Cyllid) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd</i>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.23 Yn eich tyb chi, beth yw effeithiau <b>cadarnhaol</b> y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd?					
10.24 Sut y gellid datblygu'r rhain ymhellach?					
10.25 Yn eich tyb chi, beth yw effeithiau <b>negyddol</b> y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd?					
10.26 Sut y gellid lliniaru rhag y rhain?					

Equalities					
Mae cydraddoldeb yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at grwpiau â nodweddion sy'n warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil (mewn cyflogaeth yn unig); beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.					
I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Heb Gytuno nac Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf
10.27 Bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.28 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 2 (Cydbwyso cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.29 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 3 (Adnewyddu Democratiaeth) yn cael effaith gadarnhaol ar faterion cydraddoldeb ar y cyfan	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.30 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 4 (Cysylltu â Chymunedau) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.31 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 5 (Grym i Gymunedau Lleol) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.32 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 6 (Llywodraethu Corfforaethol a Gwella) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.33 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 7 (Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.34 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 8 (Cryfhau Rôl Gwaith Adolygu) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.35 Bydd y cynigion a nodir ym Mhennod 9 (Cyllid) yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar faterion cydraddoldeb	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
10.36 Yn eich tyb chi, beth yw effeithiau <b>cadarnhaol</b> y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn ar faterion cydraddoldeb?					
10.37 Sut y gellid datblygu'r rhain ymhellach?					
10.38 Yn eich tyb chi, beth yw effeithiau <b>negyddol</b> y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn ar faterion cydraddoldeb?					
10.39 Sut y gellid lliniaru rhag y rhain?					

### Materion Eraill

A oes unrhyw faterion yn codi yn gysylltiedig â'r meysydd canlynol yn sgil unrhyw gynigion a nodir yn y Papur Gwyn:

#### 10.40 Preifatrwydd

*[Sut mae gwybodaeth bersonol, sy'n ymwneud â grwpiau neu unigolion, yn cael ei chasglu, ei storio, ei diogelu, ei rhannu a'i rheoli yn sgil datblygu a chyflawni polisi]*

#### 10.41 Ardaloedd gwledig

*[sut mae anghenion y bobl sy'n byw, gweithio, cymdeithasu a chynnal busnes mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hystyried yn wrthrychol wrth ddatblygu a chyflwyno polisiau]*

#### 10.42 Iechyd

*[sut y gall gweithred arfaethedig effeithio ar iechyd a lles poblogaeth]*

#### 10.43 Rheoliadau Bioamrywiaeth a Chynefinoedd

*[sut y gall bioamrywiaeth gael ei gwarchod a'i chynyddu er mwyn atal colli cynefinoedd a rhywogaethau, ac i weithredu er mwyn eu hadfer a'u cynyddu]*

#### 10.44 Newid yn yr Hinsawdd

*[sut y bydd y gweithrediadau arfaethedig yn cyfrannu at leihau allyriadau o 3% mewn meysydd datganoledig.]*

#### 10.45 Asesiad Effaith Amgylcheddol

*[sut y gellid effeithio ar ddiogelu tir o bwysigrwydd amgylcheddol, hanesyddol neu ddiwylliannol drwy'r weithred arfaethedig.]*

#### 10.46 Asesiad Amgylcheddol Strategol

*[sut yr ystyrir materion amgylcheddol fel rhan o'r weithred arfaethedig]*



**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 25 Mawrth 2015

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Pennaeth Cyllid ac Asedau

**Awdur yr Adroddiad:** Prif Gyfrifydd

**Teitl:** Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad o'r enw 'Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae'n atodedig. Mae'r adroddiad yn amlinellu rhaglen waith wedi'i threfnu ar gyfer rhaglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at faterion megis y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o ran y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi amlinelliad i'r Cyngor o raglen waith archwilio perfformiad ac archwilio ariannol. Mae'r rhaglen archwilio ariannol yn cwmpasu'r gwaith o ran datganiadau ariannol 2014-15. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio cychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael eu defnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Mae'r rhaglen waith archwilio perfformiad yn cynnwys eu gwaith o ran y Mesur Llywodraeth Leol. Mae gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau

darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig hefyd fod yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r rhaglen waith archwilio ariannol a pherfformiad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i argymhellion yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau ac uwch aelodau o'r Adran Gyllid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael neu leihau risg neu effaith.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.



# Cynllun Archwilio 2015

## Cyngor Sir Ddinbych

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 186A2015

# Statws y ddogfen

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yngl n â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

# Cynnwys

---

## Cynllun Archwilio 2015

Crynodeb	4
Archwiliad ariannol	4
Ardystio hawliadau a ffurflenni grant	7
Gwaith arall a wnaed	8
Archwiliad perfformiad	8
Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen	11

## Atodiadau

Cyfrifoldebau perthnasol	14
Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo	16
Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol	17

# Cynllun Archwilio 2015

---


## Crynodeb

1. Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Archwilio, sef:
  - archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio pa un a ydynt yn 'gywir a theg';
  - asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
  - archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
  - chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.
2. Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymmerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.
3. Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
4. Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn [Atodiad 1](#).

## Archwiliad ariannol

5. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2015, sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch'.
6. Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn cydymffurfio â gofynion.
7. Mae [Atodiad 1](#) yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.
8. Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i fy asesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd yngl n â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn [Arddangosyn 1](#).

## Arddangosyn 1: Fy null archwilio



9. Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

## Arddangosyn 2: Risgiau archwiliad ariannol

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li><li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd;</li><li>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol; a</li><li>• profi'r modd y caiff trafodion eu cofnodi yn y cyfrifyfr cyffredinol cyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau y caiff incwm a gwariant eu cofnodi'n gywir yn y flwyddyn gyfrif briodol.</li></ul>
Risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn deillio o'r broses o ailbriso asedau.	Byddwn yn asesu'r broses ailbriso gan sicrhau ei bod wedi'i chynnal yn unol â pholisïau cyfrifyddu a'i bod, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'i hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol.

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
<p>Rwyf wedi nodi nifer o ddatgeliadau fel datgeliadau o natur berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partion Cysylltiedig, y nodyn ar Gydabyddiaeth a Lwfansau Aelodau.</p>	<p>Byddwn yn adolygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yr asesiad blynyddol a wnaed gan swyddogion o'r sail y gwneir amcangyfrifon arni a'u diwygio yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf.</li> </ul>
<p>Trafodion sylweddol a thrafodion sy'n cynnwys amcangyfrifon cyfrifyddu.</p>	<p>Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau â'r Cyngor i asesu pa un a wnaed unrhyw drafodion sylweddol yn ystod y flwyddyn archwilio ariannol ac yn llunio ymatebion archwilio priodol i asesu unrhyw risgiau. Byddwn yn adolygu dogfennaeth a ddelerir i ategu amcangyfrifon y daethpwyd iddynt a dyfarniadau a wnaed, gan gyfeirio at bapurau a ddarparwyd i'w hategu.</p>
<p>Fel rhan o'm gwaith archwilio ar gyfer 2013-14, nodais achosion lle y cafodd incwm a gwariant eu cyfrif ddwywaith yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol.</p>	<p>Byddwn yn adolygu'r trefniadau a ddiweddarwyd mewn perthynas â thaliadau mewnol a ailgodir ac yn llunio gweithdrefnau archwilio priodol er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif cywir am daliadau mewnol a ailgodir.</p>
<p>Mae perygl y caiff y datganiadau ariannol eu cam-ddatgan yn sylweddol oherwydd gwall neu am fod trafodion, balansau a datgeliadau wedi eu hepgor.</p>	<p>Ar ôl cael datganiadau ariannol drafft 2014-15 ym mis Mehefin 2015, byddwn yn cynnal adolygiad o'r datganiadau ac yn diweddarau ein hasesiad risg yn unol â'r adolygiad hwnnw. Byddwn yn cynllunio rhaglenni profi ar gyfer yr archwiliad er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar falansau a thrafodion berthnasol ac unrhyw risgiau ychwanegol mewn perthynas â datganiadau ariannol sy'n codi yn dilyn ein hadolygiad o'r datganiadau ariannol drafft.</p>

10. Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol cyn cwblhau'r archwiliad.



- 
11. At ddibenion adroddiadau, byddaf yn cymryd na fydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ystyried unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt:
- Nodir fy ffioedd ar gyfer fy ngwaith archwilio ariannol yn **Arddangosyn 6**. Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
    - bod y wybodaeth a roddir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwylidiedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
    - y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
    - bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennyh i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
    - bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.
12. Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol y Cyngor a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

13. Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor. Yn 2014-15, disgwyliaf archwilio rhwng 15 ac 20 o hawliadau, y mae nifer ohonynt yn gymhleth, sef yr hawliad am Gymhorthdal Budd-dal Tai a'r hawliad am Gymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai.
14. Nodir amcangyfrif o'm ffi archwilio yn **Arddangosyn 6**.

## Materion cyffredinol a nodwyd

15. Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd gennyf wrth wneud gwaith ardystio grantiau yn 2013-14.

### Arddangosyn 3: Materion cyffredinol sy'n ymwneud ag ardystio hawliadau a ffurflenni grant

#### Hawliadau a ffurflenni grant a amodwyd yn 2013-14

Yn 2013-14, gwnaethom archwilio 18 o hawliadau a ffurflenni, y cafodd tri ohonynt eu hamodi. Y prif fater a arweiniodd at amodi oedd nad oedd y ffurflenni wedi'u cwblhau yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer hawliadau grant.

---

## Effeithiolrwydd trefniadau cydgysylltu grantiau

Er nas oes unrhyw drefniant canolog o fewn y Cyngor ar gyfer cydgysylltu grantiau, mae'r trefniadau a ddirprwywyd ar gyfer paratoi ac ardystio hawliadau a ffurflenni yn cael eu rheoli'n dda ac yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan.

## Materion sy'n ymwneud â hawliadau a ffurflenni grant penodol

16. Yn ogystal â'r materion cyffredinol a nodwyd uchod, byddaf yn cyhoeddi adroddiad ar wahân, 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2013-14' ym mis Ebrill 2015, a fydd yn nodi'r materion allweddol a nodwyd gennyf mewn perthynas â hawliadau a ffurflenni grant unigol.

## Gwaith arall a wnaed

17. Fy nghyfrifoldeb i hefyd yw archwilio'r Cydbwyllgor mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol. Mae ein ffi ar gyfer y gwaith hwn wedi'i chynnwys yn [Arddangosyn 6](#).

## Archwiliad perfformiad

18. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae fy ngwaith asesu gwelliant, ynghyd â'm gwaith ar faterion ariannol, hefyd yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy nghyfrifoldeb i fodloni fy hun bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
19. Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad corfforaethol ym mhob awdurdod gwella. Ers 2013-14, rwyf wedi ymgymryd â'r rhaglen hon o asesiadau corfforaethol ar sail gylchol. Ar hyn o bryd, rwyf wedi cytuno â Llywodraeth Cymru y gallaf ddefnyddio'r grant a gaf gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r asesiad corfforaethol. Mae hyn yn golygu, yn ogystal ag asesiad gwella a gwaith archwilio a ariennir gan ffi, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y cyfamser, byddaf yn cynnal trosolwg llai manwl o ddatblygiadau a'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod. Os daw unrhyw faterion o bryder neu faterion â blaenoriaeth i'r amlwg, mae gennyf yr hyblygrwydd i gynnal asesiadau corfforaethol yn amlach.
20. Nodaf yn yr adran hon y rhaglen 12 mis o waith archwilio perfformiad i'w chynnal yn y Cyngor. Pennwyd cynnwys y rhaglen drwy ystyried y risgiau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd, gan gynnwys gwybodaeth gan gyrrff adolygu allanol eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth sydd ar gael gan gynnwys prosesau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun.

- 
21. Nodir elfennau fy ngwaith archwilio perfformiad yn **Arddangosyn 4** ac fe'u cynlluniwyd er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion lefel uchel a nodwyd yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-2016 ([www.wao.gov.uk/publication/wales-audit-office-corporate-strategy-2013-2016](http://www.wao.gov.uk/publication/wales-audit-office-corporate-strategy-2013-2016)).

**Arddangosyn 4: Elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad**



22. Ceir crynodeb o'r gwaith ar berfformiad y bwriadaf ei wneud yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Cynnwys fy rhaglen o waith archwilio perfformiad ar gyfer 2015-16

	Prosiectau penodol
<b>Archwiliad ac asesiad gwella</b>	<p><b>Archwiliad o'r 'cynllun gwella'</b> Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella.</p> <p><b>Archwiliad o'r 'asesiad o berfformiad'</b> Archwiliad o'r gallu i gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.</p> <p><b>Adolygiad o drefniadau rheoli ariannol</b> Rhagor o waith ar drefniadau rheoli ariannol yn dilyn ein hadolygiad o 2014-2015, gan edrych ymlaen at gynigion ar gyfer pennu cyllideb ac arbedion yn 2016-17. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn, y polisi a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn.</p> <p><b>Adolygiad llywodraethu</b> Adolygiad o drefniadau craffu gan ganolbwyntio ar waith craffu wrth fonitro effaith toriadau cyllidebol.</p> <p><b>Adolygiad rheoli perfformiad</b> Astudiaeth ledled gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys AGGCC.</p> <p><b>Adolygiad(au) a bennir yn lleol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygu dull y Cyngor o ymdrin â darparwyr gwasanaethau amgen; a</li> <li>• chynnal presenoldeb mewn Adolygiadau Herio Gwasanaethau blynyddol.</li> </ul>
<b>Gwaith dilynol</b>	<p>Byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion o'm gwaith blaenorol. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddaf yn ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith i ymateb i'm hadroddiadau, olrhain yr hyn a wneir i roi fy argymhellion ar waith a chyflwyno adroddiadau ar hyn i'r pwyllgor priodol.</p> <p>Bwriadaf wneud gwaith dilynol penodol yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnoddau Dynol</li> <li>• Tai Fforddiadwy</li> <li>• Economi ac Adfywio</li> </ul>
<b>Astudiaethau llywodraeth leol</b>	I'w gadarnhau.
<b>Arfer da</b>	Yn unol â'm hymrwymiad i nodi a rhannu arfer da, byddaf yn parhau i gynnal seminarau dysgu ar y cyd, nodi astudiaethau achos perthnasol a chanolbwyntio ar nodi a hyrwyddo arfer effeithiol.

23. Nodir y prosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sydd naill ai'n dal i fynd rhagddynt neu a ddisodlwyd gan brosiectau amgen drwy gytundeb â chi, yn Atodiad 2.

## Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

### Ffi

24. Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2015 yn Arddangosyn 6. Ni wnaed unrhyw newid i'ch ffi archwilio eleni am y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys ffi ychwanegol am ein gwaith mewn perthynas â'r cydbwyllgor.

#### Arddangosyn 6: Ffi archwilio

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£)	Y ffi wirioneddol y llynedd (£)
<b>Gwaith archwilio Ariannol<sup>1</sup></b>	£178,264	£178,264
<b>Gwaith archwilio perfformiad:<sup>2</sup></b>		
• Gwaith archwilio ac asesu gwelliant a gwaith dilynol	£93,882	£93,882
Cyfanswm y gwaith archwilio perfformiad	£93,882	£93,882
<b>Cyfanswm y ffi</b>	<b>£272,146</b>	<b>£272,146</b>
<b>Gwaith ardystio grantiau<sup>3</sup></b>	£75,000 i £80,000	£89,658
<b>Gwaith archwilio ariannol arall<sup>4</sup></b>	£1,134	Dim

Nodiadau:

<sup>1</sup> Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Hydref 2015.

<sup>2</sup> Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

<sup>3</sup> Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud.

<sup>4</sup> Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Hydref 2015 (gwaith archwilio mewn perthynas â'r Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).

25. Bydd y broses gynllunio yn barhaus ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, fy ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.
26. Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn: [www.wao.gov.uk/about-us/fee-scales-and-fee-setting](http://www.wao.gov.uk/about-us/fee-scales-and-fee-setting).

## Tîm archwilio

27. Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 7.

### Arddangosyn 7: Fy nhîm

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol	02920 320 500	<a href="mailto:Derwyn.Owen@wao.gov.uk">Derwyn.Owen@wao.gov.uk</a>
Jane Holownia	Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Perfformiad	02920 320500	<a href="mailto:Jane.Holownia@wao.gov.uk">Jane.Holownia@wao.gov.uk</a>
Anthony Veale	Rheolwr yr Archwiliad Ariannol	02920 320500	<a href="mailto:Anthony.veale@wao.gov.uk">Anthony.veale@wao.gov.uk</a>
Gareth Evans	Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol	02920 320500	<a href="mailto:Gareth.Evans@wao.gov.uk">Gareth.Evans@wao.gov.uk</a>
Huw Lloyd Jones	Rheolwr Archwilio Perfformiad	07813 822017	<a href="mailto:Huw.LloydJones@wao.gov.uk">Huw.LloydJones@wao.gov.uk</a>
Gwilym Bury	Arweinydd Archwilio Perfformiad	02920 320500	<a href="mailto:Gwilym.Bury@wao.gov.uk">Gwilym.Bury@wao.gov.uk</a>

28. Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

29. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Cyngor sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

### Arddangosyn 8: Amserlen

Gwaith arfaethedig	Cyflawni'r gwaith	Llunio'r adroddiad terfynol
Cynllun Archwilio 2015	Rhwng mis Ionawr 2014 a mis Chwefror 2015	Mis Mawrth 2015

Gwaith arfaethedig	Cyflawni'r gwaith	Llunio'r adroddiad terfynol
<b>Gwaith cyfrifon ariannol:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol</li> <li>Barn ar y Datganiadau Ariannol</li> </ul>	Rhwng mis Chwefror a mis Medi 2015	Mis Medi 2015 Mis Medi 2015
Gwaith perfformiad	Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2015	Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2015
Adroddiad Gwella Blynyddol	Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2015	Mis Mawrth 2016
Cynllun Archwilio 2016	Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015	Mis Chwefror 2016

\* *Yn amodol ar gymeradwyaeth amserol o'r canfyddiadau drafft gyda'r Cyngor.*

# Atodiad 1

---

## Cyfrifoldebau perthnasol

### Archwiliad ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- Eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon.

- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y Cyngor, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion na chaiff eu cynnwys gan yr uchod, ac yr ystyriaf ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;



- 
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
  - sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
  - sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion yn y Cyngor y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwiliad perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, o dan rai amgylchiadau, gynnal archwiliadau arbennig (o dan adran 21), gan gyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â'r archwiliadau hynny, ac o bosibl gyhoeddi'r adroddiad hwnnw (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

## Atodiad 2

---

### Gwaith ar berfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy'n dal i fynd rhagddo

Prosiect archwilio perfformiad	Statws
Astudiaeth Llywodraeth Leol: <ul style="list-style-type: none"><li>Gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig i ymdrin â'r galw ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Annibyniaeth Pobl H n.</li></ul>	Gwaith maes wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau eto ar bob safle.
Astudiaeth Llywodraeth Leol: <ul style="list-style-type: none"><li>Cyflawni â Llai. Gwasanaethau Hamdden</li></ul>	Gwaith maes wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau eto ar bob safle.

# Atodiad 3

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan Gyngor Sir Ddinbych hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Ariennir yr astudiaethau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'u cyflwynir i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd, er bod rhywfaint o'r gwaith hwn yn dal i fod ar gam datblygu cynnar. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Maes o law, byddaf yn ystyried ac yn ymgynghori ar feysydd pwnc posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol i'w rhoi ar waith, ac o bosibl mewn rhai achosion yn cyflwyno adroddiadau arnynt, yn 2015-16.

Cyflwynir adroddiadau diweddarau pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

Pwnc	Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig
Rhagnodi gan feddygon teulu	Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf	Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
Consortia addysg rhanbarthol	Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
Camau Llywodraeth Cymru i gaffael Maes Awyr Caerdydd	Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
Gwasanaethau rheilffyrdd	Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
Gwasanaethau orthopedig	Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
Codio clinigol yn y GIG	Haf 2015
Rhestrau aros y GIG a phractisau preifat	Haf 2015
Darlun o wasanaethau cyhoeddus	Hydref 2015
Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru	Hydref 2015
Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio <sup>1</sup>	I'w gadarnhau

<sup>1</sup> Yn ystod y broses glirio, mae'r amserlen gyhoeddi yn ansicr am resymau sy'n benodol i'r prosiect.

---

Pwnc	Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig
Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru <sup>2</sup>	I'w gadarnhau
Rheoli llifogydd a'r risg o erydu (yn debygol o ganolbwyntio ar lifogydd arfordirol)	I'w gadarnhau

---

<sup>2</sup> Yn ystod y broses glirio, mae'r amserlen gyhoeddi yn ansicr am resymau sy'n benodol i'r prosiect.

---

Pwnc	Amserlen gyhoeddi a ddisgwyliedig
Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd <sup>3</sup>	I'w gadarnhau
Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol <sup>4</sup>	I'w gadarnhau
Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio	I'w gadarnhau
Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol	I'w gadarnhau

---

<sup>3</sup>Yn y byrdymor, bydd y gwaith o lunio adroddiad newydd i roi darlun o wasanaethau cyhoeddus yn cael blaenoriaeth dros y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad i roi darlun o wasanaethau cyhoeddus yn debygol o adlewyrchu'r themâu hyn mewn rhyw ffordd. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ystyried cyfleoedd i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn fel rhan o'n rhaglen i gyfnewid arfer da.

<sup>4</sup> Mae'r cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu hailystyried yng ngoleuni'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriadau Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag Ynys Môn ac er mwyn ystyried unrhyw oblygiadau ehangach sy'n deillio o raglen ddiwygio llywodraeth leol.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>25 Mawrth 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cynllun Gwella Llywodraethu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2014/15</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwella Llywodraethu'r Cyngor sy'n deillio o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor 2013/14 – '*Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus*'. Dyma ymgynghoriad cyntaf gyda'r Pwyllgor ar yr adroddiad hunanasesu ar drefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor ar gyfer 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n digwydd o ran rhoi'r gwahanol gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella Llywodraethu'r llynedd ar waith, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefn llywodraethol gadarn ac effeithiol ar waith.

Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y drafft cyntaf o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' eleni.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn rhoi sylwadau ar y cynnydd ar Gynllun Gwella Llywodraethu llynedd (Atodiad 1)
- Bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn rhoi sylwadau ar y 'datganiad llywodraethu blynyddol' drafft ar gyfer 2014/15 (Atodiad 2)

## 4. Manylion yr Adroddiad

Yn 2013/14, cafodd y 'datganiad llywodraethu blynyddol' traddodiadol ei ddisodli gyda '*Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus*'. Roedd y ddogfen hon yn darparu hunanasesiad eglur a chytbwys o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan dynnu sylw at unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol a meysydd eraill i'w gwella.

Roedd y meysydd gwella wedi eu cynnwys mewn Cynllun Gwella Llywodraethu, a oedd hefyd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu, ac amserlenni. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r Cynllun Gwella Llywodraethu wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

Mae Atodiad 2 yn darparu'r drafft ymgynghori cyntaf ar adroddiad '*Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus*' 2014/15 a fydd yn cynnwys unrhyw feysydd o Gynllun Gwella Llywodraethu'r llynedd sy'n parhau i fod yn weddill. Dylai'r Pwyllgor nodi fod hwn yn ddrafft cynnar iawn sydd yn dal i fod yn waith ar y gweill, ac mae angen ei drafod ymhellach, yn enwedig gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Bydd y fersiwn derfynol y cytunwyd arni yn cael ei llofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Arweinydd erbyn 30 Mehefin 2015, ac yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r ddogfen yn Atodiad 3 yn rhoi 'Cipolwg' ar gyfeiriad y daith ar gyfer meysydd sydd wedi newid ers 'datganiad llywodraethu blynyddol' y llynedd.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Er nad yw'r hunanasesiad 'datganiad llywodraethu blynyddol' yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar ddarpariaeth y Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati sydd i gyd yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, a'r unig effaith ar wasanaethau yw lle mae'r adroddiad yn nodi meysydd gwella; ond, bydd gwasanaethau eisoes yn ymwybodol o'r rhain a dylent fod yn eu cynnwys yn eu cynlluniau gwasanaeth.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae hwn yn adroddiad er gwybodaeth yn unig. Yr unig ymgynghoriad a gafwyd hyd yn hyn yw gyda'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gwella Llywodraethu a chyfrannu newidiadau at 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' 2014/15.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**



Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Pe na bai'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Governance Improvement Action Plan – Progress Report March 2015

Improvement Area	Action	Responsibility	Original Timescale	Progress to Date
<b>Significant Governance Issues</b>				
In future, we accept that some services and functions will stop or be transferred to others who may be able to deliver them at lower or no extra cost. We need to review our governance arrangements to take account of this, ensuring that public money is spent wisely and the public continues to receive good services and value for money.	<p>We will be implementing new monitoring arrangements during 2014 to ensure that any third party or arms-length service providers have robust governance arrangements, and will implement scrutiny arrangements to monitor their financial and operational performance.</p> <p>The Head of Internal Audit produced a 'good practice' report in May 2014 that CET will discuss in July 2014 to agree the way forward.</p>	Initial review by Head of Internal Audit, which will lead to further action plan for implementation of new arrangements	Preliminary report by 31 May 2014, with further action plan for implementation of new arrangements to be agreed	<p><b>In progress – new target date 30/06/15</b></p> <p>'Phase 1' report to CET in July 2014 and Corporate Governance Committee in September 2014.</p> <p>CET commissioned Head of Internal Audit to lead 'phase 2', which is development of framework for DCC. Due to changes in Internal Audit, this work will now be carried out by 30 June 2015.</p>
<p>Our Internal Audit service provided a critical report on the procurement of construction services that highlighted several weaknesses, including that our procurement strategy is out of date. Internal Audit's recent follow up of the improvement action plan shows that, although we have developed a new draft strategy and Contract Procedure Rules, progress with improvement is slow and behind schedule.</p> <p>Also in procurement, we are involved in the development of some key projects but the creation of the National Procurement Service has also added to the</p>	<p>There is a separate action plan for dealing with the issues raised in the Internal Audit report.</p>	Head of Finance & Assets (service now under the Head of Communication, Marketing & Leisure)	As per action plan	<p><b>In progress – new target date May 2015</b></p> <p>Follow up of IA &amp; WAO Action Plans reported to Corporate Governance Committee on three occasions and is behind schedule. The Committee requested a further update in May 2015.</p>
	<p>The Council is fundamentally changing significant elements of its procurement. In May 2014, Cabinet approved the merger of Flintshire and Denbighshire procurement teams to create a larger more robust team. It also approved the move towards category management in conjunction with Flintshire and Gwynedd.</p>			<p>New team in place July 2014. Move to Category Management to take place up to 2016.</p>

Improvement Area	Action	Responsibility	Original Timescale	Progress to Date
<p>complexity of procurement arrangements and led to a loss of staff to the new organisation, with potential further staffing losses.</p> <p>We are aware that we are entering a critical period in relation to strategic procurement and the major changes that we are making; therefore, we will need to keep this area under regular review to ensure that the identified improvements are implemented and that the strategic programmes of change are successfully delivered.</p>	<p>A training programme has begun with relevant finance staff attending first.</p>		<p>Training programme is underway.</p>	<p><b>In progress</b></p> <p>Training provided for finance staff and school finance managers. Members of staff undertaking procurement activities have been identified and contacted regarding a wide range of procurement training courses being held between February and May 2015.</p>
	<p>The Procurement Strategy is being re-drafted to better link with the Economic Development Strategy. Contract Procedure Rules are overdue but are currently with Legal Services for review.</p>		<p>Strategy due by August 14, as are CPRs</p>	<p><b>In progress - new target date March 2015</b></p> <p>A draft strategy has been developed and issued to services for consultation. The agreed draft will be presented to Corporate Governance Committee in March 2015 for consideration. In the meantime, the Council continues to use the current strategy.</p>
